Cygnor Sir Penfro

Adroddiad Ariannol Blynyddol Gan Gynnwys Datganiad O Gyfrifon

2018-19

18 Gorffennaf 2019

	TUDALEN
1.0 RHAGAIR ESBONIADOL – PERFFORMIAD ARIANNOL CRYNO	2 - 24
2.0 TYSTYSGRIF YR ARCHWILWYR	25
DATGANIAD O GYFRIFON	
3.0 Datganiad Cyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon	26 - 27
4.0 Datganiadau Ariannol Creiddiol – Egwyddorion Sylfaenol	28
5.0 Cysyniadau Cyfrifyddu	29
6.0 Branau Beirniadol Wrth Gymhwyso Polisiau Cyfrifyddu ac Amcangyfrif Peryglon	30 - 32
7.0 Datganiadau Ariannol Creiddiol – Cydrannau a Manylion	33 - 40
8.0 Polisiau Cyfrifyddu	41 - 55
9.0 Nodiadau ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid	56 - 59
10.0 Nodiadau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	60 - 73
11.0 Nodiadau ar y Datganiad Symudiad Cronfeydd	74 - 77
12.0 Nodiadau ar y Datganiad y Fantolen	78 - 97
13.0 Y Cyfrif Cyllid Tai	98- 102
14.0 CYFRIFON ERAILL DAN REOLAETH Y CYNGOR	103

1.0 ADRODDIAD NARATIF

1.1 CYFLWYNIAD

Mae Adroddiad Cyfrifon Cyngor Sir Penfro ar gyfer 2017-18 yn darparu cofnod o berfformiad ariannol y Cyngor a'r sefyllfa am y flwyddyn. Cyflwynwyd yr adran hon o'r adroddiad yn 2017-18 a'i nod yw cyfleu pwrpas y Cyngor, sut mae wedi perfformio yn unol â'i strategaeth gyffredinol ac yn erbyn dangosyddion perfformiad dros y flwyddyn, a sut mae wedi dyrannu ei adnoddau yn unol â chanlyniadau a fwriadwyd. Mae'n dangos perfformiad ar y cyd dros y flwyddyn a pha mor dda yw adnoddau'r Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau o'i flaen ac i barhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ei gymuned leol. Mae'n adrodd stori'r Cyngor drwy ddarparu golwg holistaidd, glir wedi'i hadeiladu'n dda ar ei strategaethau, ei lywodraethiant, ei berfformiad a'i ragolwg am y dyfodol.

1.2 TROSOLWG TREFNIADAETH A'R AMGYLCHEDD ALLANOL

1.2.1 Ffeithiau Allweddol am Sir Benfro

Mae Sir Benfro yn un o ardaloedd arbennig Prydain, yn cyfuno rhai o'r golygfeydd arfordirol mwyaf arbennig a threftadaeth ddiwylliannol unigryw. Mae bron tri chwarter y sir o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro - yr unig barc cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain, ac mae traethau niferus y sir ymhlith y rhai mwyaf godidog . Mae hyn i gyd yn gwneud y sir yn ardal arbennig o ddeniadol a boddhaol i fyw a gweithio.

Mae poblogaeth breswyl y sir tua 124,000, sy'n cynyddu'n sylweddol iawn drwy fisoedd yr haf oherwydd twristiaeth. Sir wledig ydyw yn bennaf, a'r canolfannau poblogaeth mwyaf yw Hwlffordd (y dref sirol), Dinbych-y-pysgod, Aberdaugleddyf, Penfro a Doc Penfro ac Abergwaun ynghyd â thref fechan Arberth. Mae gan y trefi eu cymeriad a'u nodweddion arbennig eu hunain. Yn y wlad mae nifer o bentrefi deniadol. Yn ogystal â'i harddwch naturiol, mae gan y sir dreftadaeth hanesyddol sylweddol, sy'n cael ei hadlewyrchu'n fwyaf amlwg yn y cestyll ar hyd a lled y wlad, ac yn y gwrthgyferbyniad rhwng diwylliant y de a'r gogledd.

Mae economi Sir Benfro yn cynnwys ei sector twristiaeth ffyniannus, sydd wedi ehangu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae amaethyddiaeth hefyd yn parhau'n nodwedd amlwg yn yr economi wledig. Fel un o'r harbyrau dwfn gorau yn y wlad, mae'r aber yn Aberdaugleddyf yn ganolfan bwysig i'r diwydiant ynni, gyda chyfleusterau ar gyfer puro, storio a dosbarthu olew. Gwelwyd buddsoddiad pellach yno'n ddiweddar gyda chychwyn dau gyfleustra mawr ar gyfer mewnforio nwy hylif, a gorsaf bŵer nwy newydd. Yn ogystal â diwydiant, mae'r aber hefyd yn boblogaidd ar gyfer gweithgareddau hamdden, gan gynnwys cychod yacht a chwaraeon dŵr.

I lawer o bobl mae Sir Benfro'n ddeniadol iawn fel lle i fyw a gweithio; gellid crynhoi eu rhesymau dros hyn, mae'n siŵr, mewn dau air - ansawdd bywyd.

Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 5,711 o bobl, ar sail y gyflogres ym mis Rhagfyr 2018, sy'n cynnwys y rheiny'n gweithio mewn ysgolion, sydd 136 yn llai nag ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r gost flynyddol o gyflogi'r gweithlu yn dal tua £139m, sy'n 40% o'r gyllideb gyfan.

1.2.2 Proffil Gwleidyddol

Mae Cyngor Sir Penfro yn un o 22 o awdurdodau lleol unedol (h.y. amlbwrpas) a sefydlwyd yn ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, a daeth i rym ym mis Ebrill 1996. Mae'r Cyngor yn cynnwys 60 o Aelodau etholedig ac mae wedi mabwysiadu'r dull llywodraethu o Arweinydd a Chabinet.

Cyfansoddiad gwleidyddol presennol y Cyngor (ym mis Mawrth 2018) yw 21 Heb Ymlyniad, 14 Grŵp Gwleidyddol Annibynnol (IPG), 11 Ceidwadwr, 7 Llafur, 6 Plaid Cymru ac 1 Cynghorydd Democrat Rhyddfrydol.

O 1996 i 2017 byddai Sir Benfro yn cael ei gweinyddu gan Grŵp Gwleidyddol Annibynnol, yr IPG. Yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2017, etholodd y cyngor, heb gystadleuaeth,

arweinydd digyswllt a ffurfiodd gabinet a oedd yn cynnwys aelodau Llafur, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a Chynghorwyr Digyswllt

Gwelir isod y Cabinet a'u portffolios:

- Cyng David Simpson - Arweinydd y Cyngor (Heb Ymlyniad)
- Cyng Neil Prior – Aelod Cabinet dros Drawsnewid a TGCh (Heb Ymlyniad)
- Cyng Paul Miller – Aelod Cabinet dros yr Economi, Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant (Llafur)
- Cyng Phil Baker – Aelod dros Gynllunio ac Isadeiledd (Heb Ymlyniad)
- Cyng Bob Kilmister – Aelod Cabinet dros Gyllid (Democrat Rhyddfrydol)
- Cyng Cris Tomos – Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg (Plaid Cymru)
- Cyng Tessa Hodgson – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Heb Ymlyniad)
- Cyng Pat Davies – Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Rheoleiddio (Heb Ymlyniad)
- Cyng Guy Woodham* – Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Llafur)
  ** Disodlodd y Cynghorydd David Lloyd ym mis Mai 2019

Disgwylir i etholiad nesaf y Cyngor Sir gael ei gynnal ym mis Mai 2022.

1.2.3 Rhaglen ar gyfer y Weinyddiaeth 2018-22

Yn ystod 2017-18 paratôdd y Cabinet newydd ei Raglen ar gyfer y Weinyddiaeth, gan osod allan ei nodau a'i ddyheadau. Mae hwn wedi'i lunio i ddarparu newid cadarnhaol a pharhaol i Sir Benfro, ac mae'r Cabinet wedi ymrwymo i'w adolygu bob blwyddyn.

Mae'r Rhaglen ar gyfer y Weinyddiaeth yn atgyfnerthu Cynllun Corfforaethol 2018-19, a bydd yn ddylanwad allweddol wrth ddatblygu Rhaglen Drawsnewid y Cyngor.

1.2.4 Strwythur Rheoli

Caiff y Cabinet ac Aelodau Etholedig eu cefnogi gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, dan arweiniad y Prif Weithredwr:

- Ian Westley – Prif Weithredwr – Gwasanaethau Canolog, Cludiant a'r Amgylchedd
- Jon Haswell – Cyfarwyddwr Adnoddau
- Steven Jones – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
- Kate Evan-Hughes – Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion
- Jon Griffiths – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gyfrifol am weithredu Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys amcanion Lles) y Cyngor, darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad rheolaeth, a sicrhau bod ffocws corfforaethol ym mhob mater a phroblem o reolaeth sylweddol. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr i alluogi'r Cyngor i gyrraedd ei amcanion drwy broses gydlynol o gynllunio gwell gwasanaethau, rheoli perfformiad a gwella parhaus.

Mae'r portffolio swyddogaethau a gweithgareddau busnes sydd gan bob Cyfarwyddwr, wrth reswm, yn hyblyg er mwyn galluogi'r sefydliad i ymateb yn effeithiol i newid mewnol ac allanol.

Caiff y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr eu cefnogi gan Bennaeth Gwasanaeth sy'n atebol am reolaeth weithredol, perfformiad a chynllunio ymlaen ar gyfer gwasanaethau ar wahân, ac elwir ar y cyd yn Adrannau. Bydd arolwg o drefniadau rheolaeth uwch y Cyngor yn cael ei gynnal gan y Prif Weithredwr yn ystod 2018-19 gan arwain at ostyngiad yn nifer y Penaethiaid Gwasanaeth a symud rhai Is-adrannau rhwng Cyfarwyddiaethau

1.2.5 Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Sir Benfro

Sefydlwyd y PSB ym mis Ebrill 2016. Mae ei Gynllun Llesiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn disodli Cynllun Integredig Sengl Sir Benfro 2013 - 2018, ac mae'n adlewyrchu'r gofynion a'r disgwyliadau sydd wedi'u gosod allan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn sefydlu PSB ac yn gosod "dyletswydd llesiant" gyfunol ar bob Bwrdd. Golyga hyn drwy weithio gyda'i gilydd - a thrwy weithio'n wahanol - ei bod yn ofynnol i bartneriaid cyhoeddus preifat ac yn y sector gwirfoddol gynhyrchu cynllun sy'n gosod allan sut y byddwn yn gwella llesiant pobl a chymunedau yn Sir Benfro, nawr ac yn y dyfodol. Caiff y cynllun Llesiant ei adolygu bob pum mlynedd.

Mae i'r Cynllun Llesiant ddau Nod Llesiant, y naill a'r llall yn cael ei gefnogi gan ddwy flaenoriaeth sy'n nodi materion allweddol y bobl:

- Nod 1 – Pwy Ydyn Ni – Rydyn ni eisiau helpu ein pobl, ein cymunedau a'n sefydliadau fel y gallwn gefnogi ein gilydd a ni ein hunain.
  Blaenoriaeth 1 – Byw a Gweithio
  Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Galluog
- Nod 2 – Ble Rydyn Ni'n Byw – Rydyn ni eisiau diogelu a gwella ein hasedion naturiol gan wneud y mwyaf o ragolygon economaidd, mynediad ac iechyd i bawb.
  Blaenoriaeth 1 – Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd
  Blaenoriaeth 2 – Diogelu ein Hamgylchedd

Mae'r Cynllun Llesiant wedi ei integreiddio'n llawn, sy'n golygu bod yr wyth prosiect isod yn gweithio tuag ar fodloni pob un o'r pedwar nod ac yn gwneud y gorau o'r cyfraniad i'r saith Amcan Llesiant cenedlaethol a darparu'r Nodau Llesiant:

- Fframwaith Recriwtio a Thrawsnewid Cyflogaeth
- Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd
- Bod yn Sir Niwtral o ran Carbon
- Gwneud Pethau'n Wahanol
- Dathlu'r Awyr Agored
- Cyfranogiad y Gymuned
- Deall ein Cymunedau
- Ymwneud Ystyrlon gan Gymunedau

1.2.6 Gweledigaeth y Cyngor

Gweledigaeth y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016, yw "Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywyd yn Sir Benfro".

1.2.7 Arolwg Gwelliant 2017-18

Amlinellodd yr Adolygiad Gwella 2017-18, a gwblhawyd yn ystod 2018-19, gynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r canlynol:Gwella Ysgolion

- Gwella llywodraethu a gwella sut rydym yn rheoli adnoddau
- Y nod ffyniannus, y nod gwydn, y nod iach, y nod cyfartal, y cymunedau cydlynol yn anelu, diwylliant bywiog a nod yr iaith Gymraeg yn ffynnu, a'r nod sy'n gyfrifol yn fyd-eang

1.2.8 Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys Amcanion Llesiant) ar gyfer 2017-18

Dylanwadwyd ar y Cynllun Corfforaethol gan Raglen y Cabinet ar gyfer y Weinyddiaeth 2018-22. Yn ystod y pedair blynedd nesaf bydd mwy o bwyslais ar dai (yn enwedig tai fforddiadwy), adfywio (gan gynnwys cronfa fuddsoddi), ein hamgylchedd a gweithio gyda chymunedau i'w helpu i wella llesiant lleol. Byddwn hefyd yn parhau i roi blaenoriaeth i addysg a gofal cymdeithasol.

Mae'r amcanion Llesiant yn adlewyrchu'r Rhaglen ar gyfer y Weinyddiaeth yn ogystal â chynllun Llesiant Bwrdd Cyhoeddus Sir Benfro.
Dyma yw amcanion Llesiant y Cyngor am 2018-19:

- Parhau i wella canlyniadau addysg er mwyn i bob plentyn gyflawni a chyfrannu mwy nag a gredai oedd yn bosibl.
- Parhau i newid y ffordd rydym yn darparu gofal cymdeithasol drwy hyrwyddo atal a ffyrdd iach o fyw er mwyn gwella llesiant.
- Galluogi a hwyluso amrywiaeth o dai fforddiadwy ar y farchnad mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Cymunedau hunangynhaliol, galluog a bywiog.
- Gwarchod ein hamgylchedd
- Cefnogi'r amgylchedd cywir i fusnesau allu tyfu a helpu cyflogaeth sicr a chynaliadwy.

Yn ogystal â'n hamcanion Llesiant, rydym wedi gosod amcan holl-gwmpasol dan y teitl "Trawsnewid" sy'n canolbwyntio ar y ffordd y bydd y Cyngor yn newid ei wasanaethau. Hon fydd y drydedd flwyddyn inni gael amcanion Llesiant yn ymwneud â newid trefniadaeth. Er ein bod yn gwneud rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn, mae angen inni gyflymu'r newid.

1.2.9 Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys Amcanion Llesiant) ar gyfer 2018-19

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn parhau i fod yn seiliedig ar Raglen Gweinyddu'r Cabinet 2018-22. Mae hefyd yn ystyried tueddiadau a newidiadau mewn tueddiadau, yn seiliedig ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017, sef poblogaeth, iechyd, tai, swyddi a'r economi, canol trefi a manwerthu, newid yn yr hinsawdd, ynni, gwastraff, seilwaith, a thechnoleg.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion Llesiant ar gyfer 2018-19, gan ddod i'r casgliad "rydym wedi gwneud cynnydd ynghylch yr amcanion Llesiant a bennwyd gennym yn 2018-19. Bwriadwyd y rhain bob amser i fod yn nodau tymor hwy ac ni fyddem yn disgwyl iddynt gael eu cwblhau o fewn blwyddyn. Mae'r camau gweithredu unigol sy'n cyflawni ein hamcanion Llesiant wedi cael eu diwygio er mwyn ystyried heriau newydd, cyfleoedd a pherfformiad yn y gorffennol".

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion Llesiant 2019-20 yn cymharu ag amcanion Llesiant 2018-19 a'r Rhaglen Gweinyddu:

Amcanion Llesiant 2018-19	Maes portffolio	Amcanion Llesiant 2019-20
1. Parhau i wella canlyniadau addysg fel bod pob plentyn yn cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag y tybient oedd yn bosibl.	Addysg	1. Parhau i wella canlyniadau addysg fel bod pob plentyn yn cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag y tybient oedd yn bosibl.
2. Parhau i newid y ffordd yr ydym yn darparu gofal cymdeithasol trwy hyrwyddo cymorth ataliol a ffyrdd iach o fyw er mwyn gwella llesiant.	Gofal Cymdeithasol	2. Parhau i ganolbwyntio ar gymorth ataliol: helpu pobl i gadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain yn hytrach na dod yn ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol.
3. Cefnogi'r amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a chynorthwyo cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy.	Datblygiad economaidd Cynllunio a Seilwaith	3. Gwneud Sir Benfro yn gystadleuol yn economaidd, yn gynhyrchiol ac yn ffyniannus, yn lle gwych i ymweld ag ef, i fyw a gweithio ynddo.
4. Galluogi a hwyluso ystod o dai fforddiadwy a marchnad mewn ardaloedd trefol a gwledig.	Tai	4. Darparu tai o ansawdd da i ddarparu diogelwch, lles ac ansawdd bywyd i drigolion Sir Benfro.
5. Diogelu ein hamgylchedd.	Yr Amgylchedd a'r Gymraeg	5. Byddwn yn hyrwyddo balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle y ceir ansawdd amgylcheddol eithriadol.
6. Cymunedau hunangynhaliol, dyfeisgar a bywiog.	Trawsnewid	6. Mae hyn bellach yn rhan o Thema Trawsnewid Perthnasau.

1.2.10 Ariannu Gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn cael ei ariannu o ddwy brif ffynhonnell – Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a Threth Cyngor. Dyfernir yr AEF, sy'n cynnwys Grant Cymorth Refeniw (RSG) a Threthi Annomestig Cenedlaethol wedi'i Hail-ddosbarthu, gan Lywodraeth Cymru, ac ar gyfer 2019-20 y swm yw £162.5m. Bydd hyn nawr yn cyfrif am 46.0% o gyfanswm incwm y Cyngor, sydd 0.4% yn is nag yn 2018-19. Gyda'r cynnydd o 9.92% mewn Treth Cyngor am 2019-20, bydd Treth Cyngor a geir oddi wrth drigolion yn cyfrannu 16.7% yn ychwanegol, sydd 1.3% yn uwch nag yn 2018-19. Daw'r 37.3% sy'n weddill o ffynonellau megis ariannu penodol gan y Llywodraeth ac o Ewrop, ac incwm o ffioedd a thaliadau.

Mae'r siart isod yn dangos y ffynonellau ariannu yn y gyllideb ar gyfer 2018-19.



1.2.11 Partneriaethau Strategol

Yn dilyn arolwg helaeth gan Swyddogion, mae Partneriaethau Strategol allweddol y Cyngor wedi eu nodi fel hyn:

Corfforaethol

- 'Bwrdd'/Cydbwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus arfaethedig Sir Benfro
- 'Sir Benfro Fwy Diogel' – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Cytundeb Caffael

Plant ac Ysgolion

- ERW (Consortiwm Rhanbarthol Addysg)
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol
- Coleg Sir Benfro

Gofal Cymdeithasol

- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Comisiwn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Bwrdd Gwarchod Canolbarth a Gorllewin Cymru: Oedolion
- Bwrdd Gwarchod Canolbarth a Gorllewin Cymru: Plant
- Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Grŵp Gofalwyr y Tair Sir

Datblygiad

- 'Bwrdd'/ Cydbwyllgor arfaethedig Bargen Dinas Bae Abertawe
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Bwrdd Rhanbarthol Cynllunio Lleol Camddefnyddio Sylweddau

Tai

- Partneriaeth Cofrestr Tai Sir Benfro

1.3 LLYWODRAETHIANT

1.3.1 Cod Llywodraethiant Lleol

Cafodd y Cod Llywodraethiant Lleol (gan gynnwys Fframwaith Moesegol y Cyngor) ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 12 Mehefin 2017.

1.3.2 Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Cafodd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol am 2016-17 ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Gorffennaf 2017 a chynhwysai dri Mater Llywodraethiant Arwyddocaol (SGI) a deuddeg Blaenoriaeth ar gyfer Gwella (PFI), i gyd yn nodi camau penodol i'w cymryd yn ystod 2017-18:

- Heriau Ariannol/Trawsnewid (SGI)
- Diwylliant a Moeseg (PFI)
- Trefniadau Llywodraethiant Partneriaeth (PFI)
- Rhwydweithiau TG Ysgolion Uwchradd (PFI)
- Cwynion Corfforaethol (PFI)
- Arfarnu Dewisiadau a Thystiolaeth o Resymeg ar gyfer Gwneud Penderfyniadau (PFI)
- Arolwg ar ôl Gweithredu a Gwersi a Ddysgwyd (PFI)
- Atgyfnerthu Trefniadau Rheoli Risg (PFI)
- Cynllunio Gweithlu (PFI)
- Adolygu Effeithlonrwydd Asedau (PFI)
- Effeithiolrwydd Craffu (PFI)

Caiff y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol am 2018-19 ei ystyried i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 16 Gorffennaf 2019 a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2019.

1.3.3 Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio, gan cynnwys chwe chynghorydd ac un aelod lleyg annibynnol, yn monitro ac yn herio gweithrediad y camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â'r SGIs a'r PFIs trwy adroddiad chwarterol, gyda materion pellach wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn iddynt yn cael eu nodi wrth eu defnyddio sêr goch a melyngoch.

1.4 CORFF RHYNGWLADOL

1.4.1 Y Rhaglen Drawsnewid

Roedd Trefniadau Llywodraethu Trawsnewid a Rhaglen Trawsnewid wedi'i Ailfodelu'r Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 16 Ebrill 2018, ar waith drwy gydol 2018-19 ac maent wedi parhau i mewn i 2019-20, gan ganolbwyntio ar dair thema allweddol:

- Trawsnewid Technolegol
- Trawsnewid Diwylliannol
- Trawsnewid Perthnasau

Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r Themâu Trawsnewid Technolegol a Diwylliannol yn ystod 2018-19, ond roedd y cynnydd gyda'r thema Trawsnewid Perthnasau yn gyfyngedig. Roedd y canlyniadau allweddol yn ystod 2018-19 yn cynnwys diwylliant Dysgu, Pwrpas a Chanlyniadau newydd a ffafrir; gweithredu gweithio clyfrach a fydd yn arwain at gau nifer o adeiladau corfforaethol; rhoi'r gorau i wasanaethau a'u newid yn radical; cyflwyno cynlluniau diswyddo gwirfoddol ac ymddeol yn gynnar; a pharhau i gyflwyno gwasanaethau digidol i'n cwsmeriaid. Mae ffrydiau gwaith trawsnewid allweddol ar gyfer 2019-20 yn cynnwys parhau i ailgynllunio'r sefydliad, gweithredu system rheoli gwybodaeth ariannol newydd, a chyflwyno mesurau i ailgynllunio prosesau busnes.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid yn parhau i ddarparu'r offer angenrheidiol i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i'w galluogi i gyflawni eu targedau lleihau costau / effeithlonrwydd. Mae Bwrdd y Rhaglen Drawsnewid, sy'n cynnwys swyddogion ac Aelodau, yn parhau i gyfarfod yn fisol,

1.4.2 Adolygu Rhaglen Drawsnewid y Cyngor

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o Raglen Drawsnewid y Cyngor ym mis Mawrth 2018 a chyhoeddodd yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2018. Datblygwyd yr adolygiad ar y gwaith "Cysoni Liferi Newid", ac edrychodd eto ar ymagwedd y Cyngor at ei raglen drawsnewid. Buont yn edrych ar y gwaith o gyflawni'r arbedion cysylltiedig a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn ceisio ateb y cwestiwn "A yw'r Cyngor yn rheoli ei raglen drawsnewid yn effeithiol i wneud yr arbedion sydd eu hangen i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig?".

Daethant i'r casgliad "Mae'r Cyngor wedi symud ymlaen gyda'i Raglen Drawsnewid, ond nid yw targedau arbedion arfaethedig wedi cael eu cyflawni ac mae problemau yn parhau o ran eglurder, cyflymder ac asesu canlyniadau". Daethant i'r casgliad hwn oherwydd bod y Cyngor wedi newid ei ymagwedd at drawsnewid a chyflwyno arbedion ariannol, ond mae angen iddo fod yn gliriach ynghylch ei fodel gweithredu dymunol a sut y cyflawnir y nod hwnnw. Mae rhai prosiectau yn y rhaglen drawsnewid wedi gwneud cynnydd, ond mae'r cyflymder cyffredinol yn parhau'n araf; ac mae cyflawni arbedion yn parhau i fethu â chyrraedd y targedau a gynlluniwyd ac nid yw'r trefniadau ar gyfer gwerthuso ac adrodd ar ganlyniadau'r rhaglen drawsnewid wedi eu datblygu'n ddigonol.

Y cynigion ar gyfer gwella oedd egluro elfennau allweddol y rhaglen drawsnewid, cryfhau'r gwaith o reoli rhaglenni a chryfhau trefniadau cynllunio ariannol.

1.4.3 Egwyddorion Patrwm Gweithredu Targed

Ym mis Chwefror 2016 cymeradwyodd y Cyngor yr egwyddorion a fydd yn llywio sut y bydd yn edrych yn y dyfodol, a beth fydd ei berthynas sylfaenol â dinasyddion, cwsmeriaid a phartneriaid. Bydd yr egwyddorion hyn yn sail i'r ffordd y caiff y sefydliad ei drawsnewid:

- **Cwsmeriaid**: Byddwn yn ehangu ystod y gwasanaethau sydd ar gael i gwsmeriaid drwy hunan-wasanaethau ar-lein. Byddwn yn safoni prosesau i'w gwneud yn haws ateb ymholiadau yn y 'swyddfa flaen'. Bydd angen inni symleiddio cofnodion cwsmeriaid.
- **Trefniadaeth**: Byddwn yn parhau i adolygu'r strwythurau presennol a symud i ffwrdd oddi wrth adrannau wedi'u trefnu o gwmpas proffesiynau. Bydd angen inni adennill mwy o gost mwy o wasanaethau. Byddwn hefyd yn mabwysiadu dull llawer mwy hyblyg o ran pwy sy'n darparu gwasanaethau, ac yn gweithio gyda neu drwy sefydliadau eraill cyhoeddus, preifat neu yn y trydydd sector.
- **Pobl**: Bydd mwy o'n gweithwyr yn gweithio mewn dull generig (caiff swyddogaethau presennol eu cyfuno). Byddwn yn cefnogi sefydliad gyda mwy o allu ac yn hwyluso gweithwyr i weithio'n fwy hyblyg ac o wahanol leoliadau.
- **Lleoliad**: Byddwn yn atgyfnerthu'r mannau rydym yn darparu gwasanaethau ohonynt, a Hwlffordd fydd y lleoliad canolog yn cael ei gefnogi gan gyfres o swyddfeydd ategol mewn mannau ar draws Sir Benfro. Byddwn hefyd yn ystyried rhannu llety gyda sefydliadau eraill sy'n bartneriaid.
- **Digidol**: Byddwn yn gwneud ymrwymiad clir i ddefnyddio technolegau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn ystyried sefydlu un cofnod cwsmeriaid ar gyfer ein cwsmeriaid er mwyn lleihau dyblygu.
- **Llywodraethiant**: Byddwn yn symleiddio gwneud penderfyniadau ac yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau. Byddwn yn gwneud swyddogaethau Swyddogion ac Aelodau yn glir ac yn parhau gyda threfniadau craffu a fydd yn cefnogi rhaglen waith y Cabinet yn y dyfodol, er enghraifft, ail-ganolbwyntio craffu ar alw partneriaethau i gyfrif. Byddwn yn annog Aelodau i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau strategol ac ar sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb yn Sir Benfro.

1.4.6 Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, dyddiedig Rhagfyr 2017, yn galluogi'r holl staff sy'n gweithio i'r Cyngor ddweud sut mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion cyffredinol y sefydliad. Gwnawn hyn drwy greu a chyhoeddi hierarchaeth o gynlluniau wedi'i halinio, gweler isod. Mae cynlluniau'r lefel uchaf yn disgrifio ein hamcanion, yn gosod y cyfeiriad strategol ac yn edrych dros gyfnod hir. I'r gwrthwyneb, caiff cynlluniau adolygu perfformiad swyddogion unigol eu hadolygu bob blwyddyn, ac mewn llawer achos ddwywaith y flwyddyn. Cyfeirir at y cysylltiad rhwng y cynlluniau hyn y aml fel y "Llinyn Aur".



1.5 RISGIAU A CHYFLEOEDD

1.5.1 Strategaeth Rheoli Risg Busnes 2018-21

Cafodd y Strategaeth Rheoli Risg Busnes 2018-21 ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015.

1.5.2 Cofrestr Risg Corfforaethol (Bygythiadau) am 2018-19

Roedd y Gofrestr Risg Corfforaethol (Bygythiadau) am 2018-19 yn nodi'r risgiau hynny a oedd yn peryglu cyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor, a chafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 10 Medi 2018. Fel dogfen fyw, caiff ei diwygio a'i diweddaru'n gyson, a chafodd ei hadolygu ddiwethaf yn ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio ar 4 Ebrill 2019. Gwelir isod y risgiau corfforaethol, eu sgôr risg a'u graddfa RAG (coch, melyngoch a gwyrdd) ar ddechrau a diwedd y flwyddyn:

Risg Corfforaethol	1 Ebrill 2017	31 Mawrth 2018
	Sgôr y Risg / RAG	Sgôr y Risg / RAG
Cynllun Ariannol Cyfnod Canolig/Trawsnewid	16	16
Galw a Demograffeg	8	16
Colli Staff Allweddol, Cof Corfforaethol ac Arbenigedd	12	12
Brexit	0	12
Diogelwch Seibor	0	12
Arian Grant	9	9
Cysylltiadau Aelodau Swyddogion	8	9
Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Rheoli Prosiectau (Band B)	6	8
Llywodraethiant Gwybodaeth	12	8
Gwarchod	8	8
Tanberfformio Cyfnod Allweddol 4	8	8
Cyflawni Rhaglen y Weinyddiaeth	0	6
Gweithio ar y Cyd a Threfniadau Partneriaeth	6	6
Argymhellion Rheoleiddio	6	6

1.5.3 Risgiau Busnes Cyfnod Hirach

Mae yna nifer o risgiau busnes dros gyfnod hirach (edrych tua'r gorwel) sydd wedi eu nodi:

- Colli Cyflogwyr Sylweddol yn y Sir

Gallai'r risgiau hyn gael eu codi i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol oherwydd newidiadau agosrwydd.

1.5.4 Risgiau Ariannol wrth Osod Cyllideb 2018-19

Amlinellir isod rai o'r risgiau allweddol a ystyriwyd gan y Cyngor wrth osod y gyllideb ar gyfer 2018-19:

- **Amcanion Llesiant**

Mae cryn waith wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i alinio cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb, sef y dylid cymeradwyo amcanion Llesiant y Cyngor cyn cymeradwyo'r gyllideb. Fodd bynnag, ar gyfer 2019-20 cymeradwywyd y Gyllideb yn gyntaf. Pe bai unrhyw amcanion llesiant na ragwelwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb yn cael eu cymeradwyo yn nes ymlaen, mae yna risg na fyddant yn cael eu hariannu'n briodol yn ystod 2019-20. Mae cyflwyno'r Rhaglen ar gyfer y Weinyddiaeth wedi rhoi eglurder ynghylch y meysydd blaenoriaeth dros dymor y CATC (MTFP) 2019-20 - 2022-23, ac mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag Aelodau'r Cabinet yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb mewn perthynas â chyllido'r gwaith o weithredu'r blaenoriaethau.

- **Ysgolion - Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol a Chyfraniad Pensiwn Cyflogwyr**

Ychwanegwyd at bwysau mewn Ysgolion gan ddyfarniad cyflog yr athrawon o hyd at 3.5% o fis Medi 2018 (er bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r cynnydd uwchlaw'r lefel a ragdybiwyd gan yr Awdurdodau Lleol o 1% ac mae hyn wedi cael ei basbortio i'r Ysgolion) a'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr ar gyfer pensiynau athrawon o 16.48% i 23.6%, gan ddechrau ar 1 Medi 2019. Mae pwysau cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn £1.6m ar gyfer 2019-20 a £3.2m dros dymor y CATC 2019-20 i 2022-23.

Bydd unrhyw gynnydd mewn dyfarniadau cyflog cenedlaethol a chyfraniadau cyflogwyr (Ysgolion a rhai nad ydynt yn Ysgolion) yn ychwanegol at yr hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer yn achosi pwysau ariannol ychwanegol oni bai ei fod yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru sy'n cael ei basbortio i'r Awdurdodau Lleol a'r Ysgolion.

- **Pwysau yn y Flwyddyn (gan gynnwys Brexit)**

Yn ystod 2018-19, cafwyd pwysau o £0.9m yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â Lleoliadau All-Sirol, gyda'r pwysau blynyddol llawn i'w deimlo yn 2019-20. Yn ystod 2018-19, profodd Allied Healthcare anawsterau ariannol difrifol, gan arwain at y Cyngor yn gorfod darparu gofal iechyd parhaus i gleientiaid ar gost o £0.3m ar gyfer 2019-20.

Nid yw effaith Brexit ar y Cyngor yn hysbys ond mae risg sylweddol y gallai'r Cyngor, yn dibynnu ar y penderfyniad a wneir gan Lywodraeth y DU, gael ei arwain at gostau ac aflonyddwch ychwanegol drwy dariffau masnachu, prisiau uwch, stociau cyfyngedig ac ati. Mae gwaith yn parhau i adolygu'r Cynllun Parhad Busnes ar gyfer pob gwasanaeth i sicrhau bod pob posibilrwydd yn cael ei ystyried a bod camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith.

Er y rhagwelir y gallai cyllid fod ar gael gan Lywodraethau'r DU neu Gymru, nid oes eglurder ar hyn o bryd ynghylch y symiau na'r amserlenni, ac eithrio £45k i bob Awdurdod Lleol i dalu cost swydd i gynorthwyo gyda'r paratoadau.

Mae cronfa wrth gefn o £1m wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2019-20, fodd bynnag, mae risg na fydd yn ddigon i liniaru'r her o ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd ac nas cynlluniwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn, talu am unrhyw effeithiau sy'n deillio o Brexit a methu â chyflawni pob un o'r gostyngiadau / arbedion effeithlonrwydd (mae gan £1.6m ohonynt sgôr RAG coch). Ystyriai'r Cyfarwyddwr Adnoddau fod swm o £2.2m wrth gefn yn ddoeth ond penderfynodd y Cabinet fod £1m yn ddigonol.

- **Casglu'r Dreth Gyngor**

Mae gan y Cyngor gyfradd gasglu dda iawn erioed, y gorau yng Nghymru yn aml. Ar gyfer 2018-19 roedd y gyfradd gasglu ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn yn 0.38% yn llai nag yn 2017-18, gyda mis Hydref yn 0.40% yn llai, Tachwedd 0.42% yn llai, Rhagfyr 0.75% yn llai ac Ionawr 0.55% yn llai. Ond roedd y duedd hon wedi newid erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd bod mwy o gwsmeriaid yn talu eu Treth Gyngor dros 12 mis. Oherwydd y gyfradd gasglu ar gyfer chwe mis cyntaf 2018-19, gosodwyd y gyfradd gasglu a ddefnyddiwyd ar gyfer Sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2019-20 ar 97.25% (98.00% ar gyfer 2018-19).

Mae risg y bydd Perchnogion Ail Gartrefi yn gadael cyfundrefn y Dreth Gyngor ac yn dychwelyd at y Dreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) gan amddifadu'r Cyngor o incwm. Mae Llywodraeth Cymru yn digolledu'r Cyngor am hyn ac oherwydd bod Band D Treth Gyngor y Cyngor yn is na CTSS (y Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol), mae'n fanteisiol, ond y mae'r Cyngor yn colli allan ar y premiwm 50% ar gyfer Ail Gartrefi.

- **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS)**

Cafodd y £244m i ariannu'r CTRS yn 2018-19 ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, ond gan fod hyn wedi aros yn sefydlog ers creu CTRS, mae'n ostyngiad blynyddol i bob pwrpas. Mae cyfran Sir Benfro o'r £244m wedi cynyddu o 2.9% i 3.0%, o £7.077m i £7.385m, ar gyfer 2019-20, ond nid yw hyn yn ddigon i dalu am wariant blynyddol y Cyngor o £8.5m (alldro 2018-19) na £9.5m (cyllideb 2019-20) ac mae'n rhaid i'r Cyngor dalu unrhyw gynnydd canlyniadol mewn taliadau CTRS, o ganlyniad i lwyth achosion hawlwyr yn cynyddu neu lefelau uwch y Dreth Gyngor.

- **Cyllid Grant**

Dangoswyd dyraniad cyllid grant ar sail Cymru gyfan yn Atodiad B o'r adroddiad "Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2019-20" i'r Cabinet ar 14 Ionawr 2019. Ni wyddys eto beth yw effaith lawn grantiau unigol, cadarnhaol neu negyddol, er bod risg bob amser o ostyngiadau sylweddol mewn rhai ardaloedd. Bydd unrhyw ostyngiad mewn cyllid grant yn arbennig o heriol i'r gwasanaethau hynny sy'n dibynnu arno, yn enwedig pan fyddant wedi bod â chyllideb wastad neu y gofynnwyd iddynt am ostyngiad o 8% yn eu cyllidebau net y gellir eu rheoli ar gyfer 2019-20. Pan dderbynnir hysbysiadau grant ychydig cyn, neu yn ystod y flwyddyn ariannol, nid yw'n gadael fawr ddim amser i wneud trefniadau amgen ar gyfer gwasanaethau.

- **Lleihau'r Gweithlu**

Cost y gweithlu yw'r gost unigol fwyaf a wynebir gan y Cyngor ac felly, er mwyn pontio ei fwlch ariannu rhagamcanol dros gyfnod CATC 2019-20 i 2022-23, mae'n anochel y bydd yn rhaid iddo leihau ei weithlu. Bydd rhywfaint o leihad yn y gweithlu sy'n gysylltiedig â'r gostyngiadau/arbedion effeithlonrwydd o £16.1m ar gyfer 2019-20, er y rhagwelir y bydd y niferoedd hyn yn gyfyngedig. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ysgolion yw'r gwasanaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn perygl o orfod lleihau eu gweithlu ac ar gyfer 2018-19, roedd gorwariant o £658k oherwydd costau gweithredu cynyddol. Mae'n ymddangos y byddai cymryd y cyfraniad presennol o £1.1m o'r gyllideb Ysgolion Unigol gyffredinol i ariannu'r risg bosibl ar gyfer 2019-20 yn opsiwn doeth ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond byddai unrhyw gyfraniad ychwanegol yn lleihau'r cyllid a ddyrannwyd i Ysgolion, a allai eu gorfodi i gwtogi ar eu gweithlu, a byddai hynny'n wrthgynhyrchiol.

Yn ystod 2018-19, mae ffrwd waith Trawsnewid Rheoli'r Sefydliad y Cyngor wedi cyflwyno nifer o fentrau gyda'r nod o leihau gweithlu'r Cyngor yn wirfoddol:

- Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol ar gyfer pobl dros 60 oed
- Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol ar gyfer pobl dros 55 oed (a gyflwynwyd ar ôl diwedd yr ymarferiad cychwynnol ar gyfer rhai dros 60 oed)
- Cynllun Diswyddo Gwirfoddol ar gyfer yr holl staff sydd ag o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth sy'n cymhwyso o fewn llywodraeth leol

Gan fod y mentrau yn rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor ac y byddant yn arwain at gostau refeniw is yn y dyfodol a /neu yn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau, defnyddir cyfarwyddeb cyfalafu i gyfalafu ymddeoliadau / diswyddiadau, a ariennir gan dderbyniadau cyfalaf. Clustnodwyd £6m at y diben hwn dros CATC 2019-20 i 2022-23. Gan y bydd derbyniadau cyfalaf yn cael eu defnyddio at y diben hwn, ac na fyddant yn ariannu rhaglen

gyfalaf y Cyngor, bydd hyn yn arwain at fenthyca darbodus ychwanegol a thaliadau cyllid cyfalaf uwch (refeniw).

- Cynllunio Gweithlu Strategol - Creu tîm sy'n ceisio adleoli ac ailhyfforddi staff presennol i lenwi swyddi gwag, gan leihau nifer y staff newydd sy'n ofynnol gan y Cyngor ac osgoi costau diswyddo posibl.

Mae cyllideb o £335k ar gyfer 2019-20 i dalu costau'r tîm ac unrhyw ailhyfforddi sydd ei angen, gyda rhagamcanion o arbedion o hyd at £5m i'r Cyngor dros gyfnod CATC 2019-20 i 2022-23 os bydd yn llwyddiannus.

- **Costau Ariannu Cyfalaf**

Bydd rhaglen gyfalaf sylweddol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf ac wrth edrych ymlaen at y dyfodol yn golygu bod angen benthyca darbodus er mwyn ei ariannu. Roedd CATC 2018-19 i 2021-22 yn cynnwys pwysau blynyddol o ryw £1.5m a arweiniodd at ystyried a oedd y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy gyda'r pwysau difrifol a pharhaus ar y gyllideb refeniw.

Roedd alldro'r costau ariannu cyfalaf ar gyfer 2018-19 yn £10.3m gyda'r amcanestyniad o gost flynyddol i godi i fwy na £16m dros CATC 2019-20 i 2022-23 os yw'r rhaglen gyfalaf arfaethedig i gael ei hariannu'n llawn. Nid ystyrir bod y pwysau parhaus yn gynaliadwy nac yn fforddiadwy os yw'r Cyngor am bontio'r bwlch ariannu rhagamcanol dros gyfnod y CATC, felly mae'r Aelod Cabinet dros faterion Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau yn credu bod angen cap o £14m y flwyddyn ar gostau ariannu cyfalaf. Bydd hyn yn arwain at y ffaith y bydd gwerth tua £30m o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn anfforddiadwy ac y bydd yn rhaid eu dileu. Bydd pob prosiect yn destun proses ddiwygio a chymeradwyo bidiau diwygiedig a chadarn.

1.5.5 Cyfleoedd

- **Premiwm Ail Gartrefi'r Dreth Gyngor** - Yn ystod 2017-18, cyflwynwyd Premiwm Ail Gartrefi'r dreth Gyngor o 50% a chynhyrchodd hyn £1.86m ychwanegol yn Incwm y Dreth Gyngor. Bydd 50% yn cael ei ddefnyddio i ddarparu tai fforddiadwy gyda'r gweddill yn cael eu defnyddio i ariannu Cynllun Grant Gwella Sir Benfro, sy'n ceisio helpu cymunedau i ymdrin â'r problemau sy'n gysylltiedig â bod â chanran uchel o ail gartrefi.
- **Premiwm Eiddo Gwag Hirdymor** – Ar 19 Hydref 2017, penderfynodd y Cyngor gyflwyno premiwm ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag a heb eu dodrefnu am fwy na thair blynedd o 1 Ebrill 2016. O 1 Ebrill 2019, bydd premiwm y Dreth Gyngor yn 25% ar gyfer eiddo sy'n wag am dair blynedd neu fwy.
- **Rhaglen Gyfalaf** - Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal rhaglen gyfalaf sylweddol, yn amodol ar gap o £14m y flwyddyn ar gostau ariannu cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys yr £106.4m ar gyfer rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain ganrif a'r gronfa gyfalaf £20m ar gyfer adfywio. Mae prosiectau cyfalaf unigol bellach yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet i'r cysyniad ac achos busnes manwl.
- **Cronfa Gyfalaf ar gyfer Adfywio** - Er mwyn mynd i'r afael a heriau tymor hir i'r economi leol, mae cronfa gyfalaf o £20m ar gyfer adfywio wedi'i chreu. Er ei bod yn y rhaglen gyfalaf sydd wedi'i chymeradwyo, bydd iddi'r un meini prawf â phob prosiect cyfalaf arall.
- **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** - Mae'r Cyngor yn bartner ym Margen Ddinesig Bae Abertawe, "Arfordir y Rhyngrwyd". Mae cynnig y Fargen Ddinesig wedi ei lunio i fynd i'r afael a thanberfformio yn yr economi ranbarthol. Os bydd yn llwyddiannus, gallai'r cynnig olygu bod y Cyngor yn cael benthyciad darbodus ychwanegol dros gyfnod y rhaglen o 15 mlynedd, y cyfalaf yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor yn gyfrifol am y llog. Mae Arweinydd y Cyngor wedi gwneud yn hollol glir y byddai'n disgwyl mai cyrff a fydd yn elwa o'r prosiectau fydd yn gyfrifol am ariannu'r llog, nid y Cyngor.

- **Cyfrif Refeniw Tai (HRA)** - Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) yn ymgorffori'r strategaeth ariannol a'r cynllunio ar gyfer stoc tai'r Cyngor am y 30 mlynedd nesaf. Cafodd Cynllun Busnes 2019-49 ei gyflwyno erbyn diwedd Mawrth 2019, er mwyn i'r Cyngor gael y tua £4.0m o grant Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (MRA) ar gyfer 2019-20. Mae'r gwaith o gysoni lefelau rhent yn raddol rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol (rhenti targed) dadgronni costau rhenti (taliadau gwasanaeth) ynghyd â'r buddion parhaus o ymadawiad system gymhorthdal CRT ym mis Ebrill 2015 wedi darparu adnoddau ychwanegol i'r Cyngor. i'w alluogi i gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), parhau i fuddsoddi yn ei ddarpariaeth gwasanaeth tai a'i gwella, ac o 2018-19 i ddechrau adeiladu tai cyngor.

1.6 DOSBARTHU STRATEGAETHAU AC ADNODDAU

1.6.1 Asesiad Gwariant Safonol (SSA) – 2018-19

Ar gyfer 2018-19, parhaodd Sir Benfro i fod â'r diffyg mwyaf rhwng ei wariant gwirioneddol a'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai angen ei wario i ddarparu ei gwasanaethau, ei SSA. Wrth gyfrifo'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF), mae Llywodraeth Cymru yn tybio bod y Dreth Gyngor yn cael ei chasglu ar yr un lefel ar gyfer pob Awdurdod. Y Dreth Gyngor Band D ar gyfer 2018-19 ar gyfartaledd yng Nghymru oedd £1,219 (Y Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol CTSS £1,170), sy'n sylweddol uwch na Sir Benfro ar £993.54. SSA 2018-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro oedd £226.403m. Cyllideb gwariant net y Cyngor ar gyfer 2018-19 oedd £215.539m, £10.864m yn llai na'r SSA, er ei fod yn welliant ar y £14.80m yn llai na'r SSA ar gyfer 2017-18. Ar gyfer 2019-20, mae cyllideb gwariant net y Cyngor £10.268m yn llai na'r SSA.

1.6.2 Treth Cyngor – 2018-19

Parhaodd y Cyngor i fod â'r Dreth Gyngor isaf (Band D) yng Nghymru ar gyfer 2018-19 ar £993.54, er gwaethaf y cynnydd mwyaf yn y Dreth Gyngor o 12.5%. Roedd Treth Gyngor (Band D) pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru ar gyfer 2018-19 yn amrywio o £1,057 i £1,571 gyda'r cyfartaledd yn £1,219. Er gwaethaf cynnydd o 9.92% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019-20, bydd y Cyngor yn dal i fod â'r Dreth Gyngor isaf (Band D) yng Nghymru.

1.6.3 Bwlch Ariannu Cronnus - 2014-15 i 2018-19

Pontiwyd y bwlch ariannu o £68.6m ar gyfer y cyfnod 2014-15 i 2018-19 trwy gyfuniad o ostyngiadau / arbedion effeithlonrwydd o £52.6m, £14.7m mewn incwm ychwanegol o gynnydd yn y Dreth Gyngor (gan gynnwys newidiadau i'r sail), cyfraniad o £0.6m o incwm ail gartrefi'r Dreth Gyngor (elfen gymunedol) * a chyfraniad unwaith ac am byth o £0.7m o gronfa cydraddoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol**.

* Oherwydd heriau wrth gyflawni'r gostyngiadau / effeithlonrwydd mewn costau yn ystod 2017-18, cynyddwyd cyfraniad incwm ail gartrefi'r Dreth Gyngor (elfen gymunedol) i £0.87m a ** dim ond £0.36m oedd ei angen ar y Gwasanaethau Cymdeithasol o'r cyfraniad am un tro yn unig ar gyfer 2018-19.

1.7 PERFFORMIAD (ARIANNOL A CHORFFORAETHOL)

1.7.1 Allbwn Refeniw 2018-19

Mae'r sefyllfa ariannol refeniw allbwn yn cadarnhau mai gwariant net y Cyngor ar gyfer 2018-19 oedd **£217.9m**, ar ôl cymryd i ystyriaeth symiau sy'n dod i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn fras yn unol â'r gyllideb wreiddiol. Adferwyd y sefyllfa allbwn P9 arfaethedig oherwydd cymorth grant ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, a moratoriwm llwyddiannus ar wariant nad oedd yn hanfodol.

	P9 Gyllideb Gyflwyno 2018-19 £m	P9 Alledro Rhagamcaned ig 2018-19 £m	Alldro Gwirioneddol 2018-19 £m
Gwariant Gros	346.5	349.5	346.5
Incwm	(134.8)	(136.4)	(138.3)
cyfraniad i / (o) gronfeydd wrth gefn	3.8	2.9	7.9
Gwariant Net	**215.5**	**216.0**	**216.1**
Ail Gyfraniad Cartref i / (o) Cronfeydd Wrth Gefn	1.9	1.9	1.9
Cyfanswm Cyllido	**217.4**	**217.9**	**217.9**

Roedd cael gwybod yn hwyr am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru/Asiantaethau Cyhoeddus yn golygu bod angen amnewid gwariant, a'r gallu i gael arian ychwanegol yn cael ei gario ymlaen i 2019-20 er mwyn cydymffurfio ag amodau grant, gwneud y mwyaf o adnoddau a sicrhau eu bod yn dal i gael eu clustnodi at eu diben penodol. Effaith hyn oedd lleihau costau craidd cyllideb refeniw yn ystod 2018-19 a chynyddu cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Mae cyllidebau refeniw Cyfarwyddiaethau wedi cael graddfa RAG am eu sefyllfa allbwn ar ddiwedd y flwyddyn 2018-19:

Graddfa RAG:	Cyrhaeddiad:
Coch	Gorwario'r gyllideb o'i gymharu â'r allbwn arfaethedig
Melyngoch	Cyllideb wedi'i bodloni o'i chymharu â'r allbwn arfaethedig
Gwyrdd	Tanwario'r gyllideb o'i gymharu â'r allbwn arfaethedig

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa allbwn o'i chymharu â sefyllfa allbwn arfaethedig Cyfnod 9 ar lefel Cyfarwyddiaeth. Dangosir y sefyllfa allbwn ar ôl cymryd symiau i mewn ac allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyfrif Cyllid	2017-18	2018-19						
		Amcangyfrif		Gwir				
	Gwir Sefyllfa £000	P9 Gyllideb Gyflwyno £000	P9 Alledro Rhagamcanedig £000	Gwariant Crynswth £000	Incwm £000	Cyfraniad at/(o) Cronfeydd wrth Gefn £000	Gwariant Clir £000	CAG Graddfa
Gwasanaethau Addysg	87,517	87,491	89,071	108,559	(21,521)	2,141	89,179	
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant	12,697	13,420	13,246	17,723	(4,484)	69	13,308	
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion	47,894	51,581	50,960	75,088	(23,218)	(173)	51,697	
Cronfa Gyffredinol Tai	1,027	1,115	1,109	36,809	(35,825)	53	1,037	
Tai'r Cyngor	-	-	-	18,571	(24,326)	5,755	-	
Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	7,713	8,205	8,104	19,596	(11,408)	128	8,316	
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	6,632	5,928	5,943	11,366	(5,363)	190	6,193	
Gwasanaethau Cynllunio	1,773	1,727	1,882	5,764	(3,898)	52	1,918	
Gwasanaethau Amgicheddol	11,033	13,690	13,680	17,820	(5,712)	917	13,025	
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill	5,602	5,908	5,983	8,633	(1,964)	(1,064)	5,605	
Cynllun Lleihau Treth Cyngor	7,682	8,643	8,563	8,528	-	-	8,528	
Gwasanaethau Llys	304	267	326	368	(34)	-	334	
Y Dreth Gyngor Cartref (Cymuned)	(871)	-	-	-	-	-	-	
Cynllun Tai Fforddiadwy*	871	950	950	22	-	908	930	
Cyfraniadau I'r Gymuned*	871	950	950	149	-	781	930	
Costau Clir Gwasanaethau	**187,794**	**199,875**	**200,767**	**328,996**	**(137,753)**	**9,757**	**201,000**	
Ardollau	7,222	7,397	7,397				7,332	
Incwm Buddsoddi Net / Costau Codi Cyfalaf	8,537	10,167	9,813				9,609	
Cyfanswm	**202,822**	**217,439**	**217,977**				**217,941**	
Ariannwyd gan:								
Grant Cynnal Cyllid a Grant Arbennig	(116,466)	(121,740)	(121,740)	-	(121,740)	-	(121,740)	
NNDR	(40,310)	(40,034)	(40,034)	-	(40,034)	-	(40,034)	
Treth y Cyngor	(47,986)	(53,765)	(53,765)	-	(54,307)	-	(54,307)	
Treth Cyngor Premiwm Ail Gartrefi*	(1,742)	(1,900)	(1,900)	-	(1,860)	-	(1,860)	
	(202,822)	**(217,439)**	**(217,439)**	**-**	**(217,941)**	**-**	**(217,941)**	

* Dangosir y Dreth Gyngor Ail Gartrefi ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi'i gyfuno yn y Tablau Datganiad Cyfrifon

Dangosir pob mater a sylw sy'n benodol i wasanaeth yng Nghyllideb y Cyngor Sir Outturn Monitoring Report fel y cyflwynwyd i'r Cabinet ar 13 Mai 2019. Ers y dyddiad hwn, gwnaed rhai mân newidiadau.

1.7.2 Lleihau Costau/Effeithlonrwydd 2018-19

Cytunwyd ar leihad costau/effeithlonrwydd o £10.8m (£8.7m + £2.8m llithriad) gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2017 fel rhan o gymeradwyo'r gyllideb refeniw am 2018-19. Ychwanegwyd £1.6m (net) o leihad costau/effeithlonrwydd o 2018-19 i roi ffigur diwygiedig o £11.6m.

Mae pob lleihad costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaethau wedi cael graddfa RAG am eu cyrhaeddiad:

Graddfa RAG:	Cyrhaeddiad:
Coch	Cyrhaeddwyd <50%
Melyngoch	Cyrhaeddwyd >50% <90%
Gwyrdd	Cyrhaeddwyd >90%

Mae'r tabl isod yn dangos y lleihad costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaethau ar lefel Cyfarwyddiaeth ynghyd â manylion am gyrhaeddiad a'r raddfa RAG ar ddiwedd 2018-19.

Lleihad costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaethau gan Gyfarwyddiaethau:	Cynlluniw £000's	Cyrhaeddw £000's	Gwahaniae £000's
Gwasanaethau Addysg			54
Gofal Cymdeithasol – Plant			0
Gofal Cymdeithasol – Oedolion			909
Cronfa Gyffredinol Tai			25
Priffyrdd a Gwasanaethau Cludiant			1
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig			85
Gwasanaethau Cynllunio a Datblygiad			164
Gwasanaethau Amgylcheddol			152
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidc Eraill			525
Is-gyfanswm Lleihau costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaet 2018-19	**1**		**1,915**
Incwm Ychwanegol Treth Cyngor			
Treth Cyngor Ail Gartrefi			
Cyfanswm 2018-19	**1**	**1**	

Ar y cyfan gwnaed cynnydd da yn ystod y flwyddyn i gyrraedd targedau lleihau a chyrhaeddwyd 83.5%. Bydd y £1.915m o leihad costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaethau na chyrhaeddwyd yn 2018-19 yn cael ei gario ymlaen i 2019-20.

1.7.3 Tai Cyngor (Cyfrif Refeniw Tai)

Yn y tabl isod gwelir y sefyllfa allbwn derfynol ar gyfer 2018-19.

Y Cyfrif Cyllid Tai	2017-18 Gwir Sefyllfa £000	2018-19 Amcangyfrif Gwreiddiol £000	2018-19 Amcangyfrif Diwygiedig £000	2018-19 Gwir Sefyllfa £000
Incwm				
Rhenti - Anheddau	(21,571)	(22,757)	(22,730)	(22,860)
Arall	(1,541)	(1,360)	(1,295)	(1,466)
Cyfanswm Incwm	**(23,112)**	**(24,117)**	**(24,025)**	**(24,326)**
Gwariant				
Rheoli a Chynnal	11,815	13,469	13,431	13,554
Neilltuo Arian i Gronfeydd Cyfalaf	5,158	4,116	4,079	5,478
Costau Codi Cyfalaf	5,593	6,074	6,059	5,019
Arall	546	458	456	275
Cyfanswm y Gost	**23,112**	**24,117**	**24,025**	**24,326**

Mae gweddill gweithio'r Cyfrif Refeniw Tai yn dal heb newid ar £752,000.
Cynyddwyd rhenti 4.0% (CPI 3.0% a 1.5%) a £0.60 yr wythnos am 2018-19, yn amodol ar fod lefelau rhenti'n is na'r rhent targed.

Caiff y Cynllun Busnes (BP) HRA 30 mlynedd ei ddiwygio bob blwyddyn a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cynnig am Grant Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (MRA). Mae angen hwn i gadw Safon Ansawdd Tai Cymru (a gyrhaeddwyd ym mis Mawrth 2013) ac i wneud gwelliannau pellach. Priodolir y BP ar barhau i gael y Grant MRA, polisi rhent ac amrywiol feini prawf cynllunio eraill (nifer y tai cyngor a werthir, caffael ac amrywiol ffactorau economaidd eraill).

Mae costau a buddiannau ariannol gadael y system cymhorthdal HRA wedi eu hadlewyrchu yn y BP ynghyd â'r ffrydiau refeniw ychwanegol a ddaw o dynnu taliadau gwasanaeth allan o gronfeydd a pharhau i newid i lefelau rhenti targed sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Bil Tai (Cymru).

Yn 2018-19 cynyddodd tablau rhent targed LIC ar gyfer ardal Sir Benfro 5%, felly roedd yn rhaid i'r awdurdod ddefnyddio elfen o gynnydd trosiannol i gynnal nifer yr eiddo ar y rhent targed

Ar ôl caniatáu ar gyfer codiadau rhent oherwydd chwyddiant, codwyd hyd at £0.60 yr wythnos yn ychwanegol ar denantiaid oedd â'u rhent yn is na lefelau rhenti targed. Er bod hyn yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Awdurdod, mae iddo'r potensial o gael effaith sylweddol ar Denantiaid a'u gallu i dalu eu rhent. Bydd y sefyllfa hon yn parhau yn y tymor canolig oherwydd y nifer fawr o dai sy'n is na'r rhenti targed a'r amser y disgwylir i bob eiddo allu cyrraedd y lefelau rhenti targed

Roedd ôl-ddyledion rhent ar gyfer tenantiaid presennol ar ddiwedd 2018-19 yn £0.758m, sef cynnydd o £0.116m ar gyfer sefyllfa diwedd blwyddyn 2017-18 . Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.33% mewn ôl-ddyledion, fel canran o gyfanswm yr incwm rhent. Mae hyn yn gynnydd llai na'r disgwyl oherwydd prosesau casglu effeithlon a'r oedi cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn Sir Benfro yn 2018-19. Yn ogystal, bydd effeithiau diwygio Budd-daliadau Lles ac effaith barhaus y cynnydd mewn lefelau rhent yn ystod y newid i lefelau rhent targed LIC yn effeithio ar allu tenantiaid i dalu yn y tymor hir, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei fonitro'n agos.



Mae taliadau gwasanaeth yn cael eu 'dad-gyfuno' o rent ar gyfer yr holl ardaloedd gofynnol, gyda thaliadau cynnal a chadw tiroedd yn cael eu heithrio o'r broses yn Sir Benfro yn dilyn dadansoddiad manwl o'r dadansoddiad cost / budd o wneud hynny. Mae rhagdybiaethau ynghylch ffrydiau incwm tâl gwasanaeth disgwyliedig wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes CRT (HRA) a gyflwynwyd at ddibenion MRA

1.7.4 Alldro Cyfalaf 2018-19

Gwariant cyfalaf gwirioneddol y Cyngor am 2018-19 oedd £51.440m o'i gymharu ag alldro a ddisgwylid o £64.822m, fel y gwelir yn y tabl isod. Mae pob elfen yn y rhaglen gyfalaf, ar lefel Cyfarwyddiaeth a lefel prosiectau unigol, wedi cael graddfa RAG ar sail meini prawf manwl nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Costau Diswyddo a Therfynu Arall (Y Flwyddyn Gyfredol)	2017-18				2018-19			
Haen	Niferoedd			£000	Niferoedd			£000
	Gorfodol	Arall	Cyfanswm		Gorfodol	Arall	Cyfanswm	
£0 - £20,000	19	78	97	**742**	22	72	94	**824**
£20,001 - £40,000	2	19	21	**600**	4	13	17	**418**
£40,001 - £60,000 *	-	10	10	**490**	-	10	10	**455**
£60,001 - £80,000	-	-	-	-	-	3	3	**219**
£80,001 - £100,000	-	-	-	-	-	-	-	-
£100,001 - £150,000	-	-	-	-	-	-	-	-
£150,001 - £200,000	-	-	-	-	-	-	-	-
£200,001 - £250,000	-	-	-	-	-	-	-	-
£250,001 - £300,000	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	**21**	**107**	**128**	**1,832**	**26**	**98**	**124**	**1,916**

Cost Pensiynau - Setliad Cyfalafol (Y Flwyddyn Gyfredol)	2017-18		2018-19	
Haen	Niferoedd	£000	Niferoedd	£000
£0 - £20,000	22	130	40	315
£20,001 - £40,000	9	245	10	273
£40,001 - £60,000	1	40	3	157
Cyfanswm	**32**	**415**	**53**	**745**
Cost Pensiynau - Cyfraniad Blynyddol	**2017-18 £000**		**2018-19 £000**	
Cyfraniad Blynyddol	927		1,181	
Cyfanswm	**927**		**1,181**	

Cymeradwywyd y rhaglen buddsoddi cyfalaf am 2019-20 a'r rhaglen ddangosol am 2020-21 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2018 am symiau o £98.2m a £99.8m yn y drefn honno. Bydd pob prosiect cyfalaf yn cael ei adolygu i asesu ei gostau presennol a'i gynnydd, a chaiff y rhaglen a gymeradwywyd ei diwygio i adlewyrchu'r newidiadau sy'n dilyn:

- Lle nad yw prosiectau yn 2018-19 wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth, gall yr adnodd gael ei gario ymlaen i 2019-20;
- Cymeradwyo a diwygio tybiaethau grant cyfalaf a wnaed yn ystod cylch y gyllideb;
- Newid cyfnod a newid proffil y gwariant ar rai prosiectau;
- Dileu prosiectau nad oes eu hangen mwyach; a
- Chynnwys prosiectau newydd sydd â blaenoriaeth uchel.

1.7.5 Casglu Refeniw 2018-19

Gwelir isod y ffigurau casglu refeniw terfynol hyd at 31 Mawrth 2019 ynghyd â ffigurau cymharol am 2017-18. Mae pob casgliad refeniw mewn arian parod wedi cael graddfa RAG am berfformiad:

Graddfa RAG:	Perfformiad:
Coch	Gwaeth na'r disgwyl
Melyngoch	Fel y disgwylid
Gwyrdd	Gwell na'r disgwyl

1.7.5.1 Treth Cyngor

Roedd yr arian parod a gasglwyd hyd at 31 Mawrth 2019 yn £61.79m yn erbyn dyled i'w chasglu o £63.07m. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd gasglu o 97.97% yn ystod y flwyddyn, a oedd yn is na chyfradd gasglu 2017-18 o 98.29%. Rhagwelir y bydd y raddfa gasglu yn parhau'n un o'r rhai gorau yng Nghymru am y chweched blwyddyn yn olynol.

1.7.5.2 Treth Cyngor Ail Gartrefi

2018-19 oedd blwyddyn gyntaf y Premiwm Treth Cyngor Ail Gartrefi. Casglwyd £ 1.86mo arian parod yn 2018-19 o'i gymharu â £ 1.74m ar gyfer 2017-18

1.7.5.3 Trethi Busnes (NNDR)

Roedd yr arian parod a gasglwyd hyd at 31 Mawrth 2019 yn £52.86m yn erbyn dyled i'w chasglu o £54.09m. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd gasglu o 99.72% yn ystod y flwyddyn, a oedd yn is na chyfradd gasglu 2017-18 o 98.81%.

Mawrth	2018-19				2017-18
	Swm Dyledus £m	Swm a Gasglwyd £m	%	CAG Graddfa	%
Treth y Cyngor	63.07	61.79	97.97	Melyngoch	98.29
NNDR	54.09	52.86	97.72	Melyngoch	98.81

1.7.5.4 Rhenti Tai

Roedd ôl-ddyledion rhent tenantiaid presennol hyd at 31 Mawrth 2019 yn £757,582, o'u cymharu â £642,389 ar 31 Mawrth 2018.

Ôl-ddyledion Rhent	2018-19 £	Graddfa RAG	2017-18 £
Mawrth	757,582	Melyngoch	642,389

Caiff pob achos gydag ôl-ddyledion rhent eu monitro bob wythnos ac maent yn agored i achosion o adfeddiannu sy'n briodol i lefel yr ôl-ddyledion. Bydd hyn yn parhau. Mae camau ychwanegol wedi'u cymryd i sicrhau taliad uniongyrchol cychwynnol ar gyfer achosion newydd o Gredyd Cyffredinol. Daeth Sir Benfro yn faes Credyd Cynhwysol llawn ar 5 Medi 2018 ac mae effaith hyn yn cael ei fonitro'n agos

1.7.6 Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi 2018-19

Yn y tabl isod gwelir crynodeb o'r cronfeydd wrth gefn y gall y Cyngor eu defnyddio:

CRONFEYDD A GLUSTNODWYD	Swm Agoriadol 31 Mawrth 2018 £000	Symudiad Clir yn y Flwyddyn £000	Gweddill 31 Mawrth 2019 £000
Gweddillion Gweithredol - Cronfa Gyffredinol	(7,000)	-	(7,000)
Gweddillion Gweithredol - HRA	(752)	-	(752)
Cronfeydd a Glustnodwyd	(39,825)	2,145	(37,680)
Gweddillion CYU Ysgolion	(1,782)	(743)	(2,525)
Arall Cysylltiedig ag Ysgolion (gan gynnwys PFI)	(3,316)	(374)	(3,690)
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	(4,887)	(6,009)	(10,896)
CYFANSWM CRONFEYDD YSGOLION A CHYSYLLTIEDIG	**(57,562)**	**(4,981)**	**(62,543)**

Derbyniwyd incwm grant ychwanegol o £3.152m yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. O'r cyfanswm hwn, dyrannwyd £0.860m i gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Gostyngodd yr adnodd ychwanegol hwn y pwysau ar y gyllideb refeniw yn sylweddol. Er yn gyffredinol nad oeddem yn cyfrifo ar gyfer incwm grant yn ystod y flwyddyn hyd nes y byddai ei dderbyn wedi'i gadarnhau, mae'n amlwg bod rhai cyfarwyddiaethau yn rhagweld grantiau ychwanegol.

Cafodd y Strategaeth ar gyfer Dal a Defnyddio cronfeydd wrth gefn ei chytuno gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2016 ac mae i'w gweld ar ein gwefan drwy'r ddolen hon link.

1.7.7 Dangosyddion Rheolaeth y Trysorlys 2018-19

Cafodd Strategaeth Rheolaeth a Strategaeth Buddsoddi y Trysorlys ar gyfer 2018-19 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 8 Mawrth 2018 a'l ddwiweddaru a'l gymeradwyo gan y Cygnor ar 21 Chwefror 2019. Dylai Dangosyddion Rheolaeth y Trysorlys bob amser gael graddfa RAG o Wyrdd - "cydymffurfio â therfynau a dangosyddion wedi'u cytuno". Yn ystod 2018-19 yr oedd cydymffurfio llawn â phob graddfa RAG yn Wyrdd, yn ddieithriad.

Roedd trafodion benthyca o fewn terfynau wedi'u cymeradwyo, a'r holl fuddsoddiadau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer teilyngu credyd ar y dyddiad adneuo yn ystod y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2019.

- Gostyngodd benthyca allanol o £200.63m i £204.83m
- Roedd y portffolio benthyca ar gyfartaledd yn £44m gydag incwm buddsoddi o £0.34m
- Cyfanswm y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2019 oedd £51.06m

Mae'r tabl isod yn dangos y Gofyniad Ariannu Cyfalaf o'i gymharu â Dyled Allanol.

	Balans Rhagamcanol 31/03/2019 £m	Gwir 31/03/2019 £m
Ad-daliad Ariannu Cyfalaf		
Cronfa Gyffredinol	168.5	161.8
HRA	75.1	74.3
Cyfanswm y Gofyniad Cyllido Cyfalaf	**243.6**	**236.1**
Dyled Allonol		
Benthyca Gros	203.9	204.8
Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	6.6	6.6
Cyfanswm Dyled Allanol Gros	**210.5**	**211.4**

Bydd HRA MRP yn symud i 2% gan leihau'r gweddill o 2019-20 yn unol â'r Gronfa Gyffredinol.

1.7.8 Data Perfformiad Cenedlaethol a Lleol 2018-19

Caiff mesuriadau perfformiad cenedlaethol a lleol eu monitro gan y Tîm Rheolaeth Gorfforaethol, y Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu bob chwarter neu bob blwyddyn, a chymerir camau cywiro i fynd i'r afael â meysydd sy'n perfformio'n wael. Mae'r rhain yn creu "swît" o fesuriadau perfformiad sy'n cael eu monitro i sicrhau cynnal perfformiad, ac unrhyw broblemau'n cael eu nodi a'u cywiro. Mae pob mesur perfformiad wedi cael graddfa RAG am ei berfformiad cyfredol:

Graddfa RAG:	Perfformiad:
Coch	Gwaeth na'r disgwyl (Chwartel is)
Melyngoch	Fel y disgwylid (Chwartel canol)
Gwyrdd	Cyrhaeddwyd y targed neu ragori arno (Chwartel uchaf)

Isod mae crynodeb o Berfformiad diwedd y flwyddyn:

Nod Llesiant	Cyfanswm Mesuriadau	Mesuriadau am l graddfa RAG	Graddfa RAG
Cymru ffyniannus	3 (Bob chwar 33 (Bob blwyc	11 11 11 3	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cymru wydn	5 (Q) 1 (Y)	4 2 0 0	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cymru lachach	13 (Q) 15 (Y)	11 10 2 5	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cymru fwy cyfartal	3 (Q) 2(Y)	5 0 0 0	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cymru o gymunedau cydlynol	5 (Q) 9 (Y)	5 3 3 3	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus	0 (Q) 6 (Y)	3 0 1 2	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cymru sy'n gyfrifol ar draws y byd	0 (Q) 2 (Y)	1 0 1 0	Gwyrdd Melyngoch Coch NA
Cyfanswm	**29 (Q)** **68 (Y)**	**38** **24** **18** **17**	Gwyrdd Melyngoch Coch NA

1.8 RHAGOLWG

1.8.1 Bwlch Ariannu a Ragwelir 2019-20

Cafodd y rhagdybiaethau blaengynllunio yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) 2018-19 i 2021-22, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2019, eu goddiweddyd gan gynnydd sylweddol yn chwyddiant y gweithlu, chwyddiant nad yw'n ymwneud â'r gweithlu, a phwysau demograffig a deddfwriaethol. Mae darparu gofal iechyd i gleientiaid yn dilyn ailstrwythuro Allied Healthcare a darparu cronfa wrth gefn i liniaru'r ansicrwydd ynghylch effaith Brexit, y risg sylweddol o bwysau nas rhagwelwyd a heb ei gynllunio ar y gyllideb yn digwydd yn ystod y flwyddyn a'r heriau parhaus wrth gyflawni'r holl ostyngiadau cost / effeithlonrwydd a dargedwyd wedi cynyddu'r pwysau. O'i gyfuno â'r cynnydd o 0.2% yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau i'r setliad a'r newidiadau i sail y Dreth Gyngor), arweiniodd at fwlch ariannu o £21.4m ar gyfer 2019-20.

Ar gyfer 2019-20, bu'n ofynnol i'r Cyllidebau Ysgolion Unigol (ISB) a'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys yr holl bwysau chwyddiant, demograffig a deddfwriaethol ar eu lefel cyllideb wreiddiol ar gyfer 2018-19 (cyllideb llinell wastad)*. Bu'n ofynnol i bob gwasanaeth arall ** nodi gostyngiadau / arbedion cost sy'n dod i gyfanswm o 8% o'u cyllideb gwariant net y gellir ei reoli ar gyfer 2019-20. Ar gyfer o 2020-21 ymlaen, bwriedir gwneud lefel cyllideb wreiddiol 2019-20 yn gyllideb sail ar gyfer y dyfodol fel bod angen i bob gwasanaeth gynnwys yr holl bwysau chwyddiant, demograffig a deddfwriaethol (cyllidebau llinell wastad).

Mae'r strategaeth hon yn tybio y bydd y cyfuniad o AEF a'r Dreth Gyngor yn ddigonol i ariannu'r gyllideb sail. Byddai angen unrhyw AEF neu Dreth y Cyngor ychwanegol a gynhyrchir i ariannu cynnydd blynyddol mewn cyllidebau fel y Cynllun Cwtogi ar y Dreth Gyngor, ardollau a chostau cyllido cyfalaf. Gellid dosbarthu unrhyw warged i wasanaethau, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i geisiadau am dwf mewn cyllidebau.

* Mae cyllideb llinell wastad ISB wedi cynyddu £0.5m ar gyfer 2019-20 oherwydd bod cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol yn cael ei basbortio i Ysgolion.
** TGCh wedi'i diogelu rhag nodi gostyngiadau mewn costau ac effeithlonrwydd ar gyfer 2019-20.

1.8.2 Bwlch Ariannu a Ragwelir 2019-20 i 2022-23

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2019, yn manylu ar fwlch ariannu rhagamcanol o £52.5m yn seiliedig ar ragdybiaeth ddarbodus o AEF llinell wastad o 0% ar gyfer 2020-21 i 2022-23 (gostyngiad blynyddol o 1.5% yn flaenorol).

1.8.3 Bwlch Ariannu a Ragwelir 2019-20 i 2022-23 (y Sefyllfa Fwyaf Tebygol)

Pressures	18-19 £m	19-20 £m	20-21 £m	21-22 £m	22-23 £m
Symudiad mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF)*	(5.0)	(0.7)	0.0	0.0	0.0
Trosglwyddiadau i'r AEF	4.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Gweithlu a Thâl	4.1	4.6	2.0	2.6	2.1
Chwyddiant / Arall	1.0	1.8	1.2	0.5	0.5
Wrth gefn	0.0	1.0	0.0	0.0	0.0
Contractau	2.3	3.1	1.8	1.8	1.8
Demograffeg	2.7	2.0	1.5	1.3	1.3
Llithriad mewn Lleihau Costau ers y flwyddyn flaenorol	1.3	2.2	0.0	0.0	0.0
Cyllideb Ysgolion Unigol (ISB)	3.0	5.0	2.3	1.9	1.8
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	1.3	0.9	0.8	0.8	0.9
Costau Ariannu Cyfalaf	1.5	1.3	0.4	1.5	1.7
Ardollau	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2
Bwlch Ariannu a Ragwelir	**16.4**	**21.4**	**10.2**	**10.6**	**10.3**
Bwlch Ariannu a Ragwelir y MTFP		**52.5**			

***0% ar gyfer 2020-21 i 2022-23**

1.8.4 Treth Cyngor – 2019-20

Parhaodd y Cyngor i fod â'r Dreth Gyngor isaf (Band D) yng Nghymru ar gyfer 2018-19, er gwaethaf y cynnydd mwyaf yn y Dreth Gyngor o 12.5%. Mae bod â'r Dreth Gyngor isaf (Band D) yn golygu bod unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn Sir Benfro yn cynhyrchu llai na'r cynnydd cyfatebol mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Bydd y cynnydd o 9.92% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019-20, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2019, yn cynhyrchu £5.3m yn ychwanegol ac yn gam cadarnhaol tuag at ddarparu'r incwm ychwanegol sydd ei angen i gynnal a diogelu gwasanaethau lleol a symud y Cyngor tuag at lefel gyfartalog y Dreth Gyngor ar (Band D) ar gyfer Cymru. Mae'r cynnydd o 9.92% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019-20 yn dal i olygu bod gan Sir Benfro'r Dreth Gyngor (Band D) isaf yng Nghymru.

1.8.5 Treth Cyngor – 2020-21 i 2022-23

Mae CATC 2019-20 i 2022-23 hefyd yn rhagdybio cynnydd yn y Dreth Gyngor (Band D) o £1.76 yr wythnos ar gyfer 2020-21, £1.80 yr wythnos ar gyfer 2021-22 ac £1.88 yr wythnos ar gyfer 2022-23, er bod y cynnydd yn y dreth yn benderfyniad blynyddol gan y Cyngor.

1.8.6 Asesiad Gwariant Safonol (SSA) ar gyfer 2019-20

SSA terfynol Llywodraeth Cymru 2018-19 ar gyfer Sir Benfro oedd £231.734m. Golygodd y cynnydd o 9.92% mewn Treth Cyngor fod gan y Cyngor gyllideb gwariant net o £221.466m ar gyfer 2019-20, £10.268m yn llai na SSA, er yn welliant ar yr £10.864m yn llai nag SSA ar gyfer 2018-19 a £14.80m yn llai na SSA ar gyfer 2017-18.

1.8.7 Lleihau Costau/Effeithlonrwydd 2018-19

Bydd y Cyngor yn ceisio pontio rhywfaint o'r bwlch ariannu o £21.4 a ragwelir ar gyfer 2019-20 a'r bwlch ariannu o £52.5m a ragwelir ar gyfer yr MTFP 2019-20 i 2022-23 drwy ei gwneud yn ofynnol lleihau costau/effeithlonrwydd.

O'r £16.1m o leihau costau/effeithlonrwydd arfaethedig sydd wedi'u nodi ar gyfer 2019-20, mae gan fwy na £1.6m (10%) raddfa RAG goch, sy'n golygu y bydd eu darparu neu eu cyrraedd yn heriol, ac mae gan £9.5m (59%) raddfa RAG melyngoch a £5.0m (31%) RAG raddfa werdd. At ddibenion yr MTFP ac er mwyn bod yn ddoeth, tybiwyd na fydd y lleihau costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaethau a gynlluniwyd yn digwydd yn ystod 2020-21 i 2022-23.

1.8.8 Pontio Bwlch Ariannu 2019-20 i 2022-23

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos sut bydd y bwlch ariannu 2019-20 i 2022-23 a ragwelir yn cael ei bontio, ac mae'n tybied y canlynol:

- Cynnydd mewn Treth Cyngor o £1.89 yr wythnos (9.92%) am 2019-20, £1.76 yr wythnos am 2020-21,£1.80 yr wythnos am 2021-22 a £1.88 yn wythnos am 2022-23
- Dim ond 80% o'r lleihau costau/effeithlonrwydd/trawsnewid gwasanaethau a gynlluniwyd a fydd yn digwydd yn ystod 2019-20 i 2021-22.

Wynebu'r Her Ariannol	18-1 £m	19-2 £m	20-2 £m	21-2 £m	22-2 £m	Cyfansw £m
Bwlch Ariannu a Ragwelir						
Treth Cyngor (Gan dybied dim cynnydd yn sail y Dreth Cyngor 2 i 22-23)						
Adnabod Costau/Effeithlonrwydd						
80% yn Bosibl 2020-21 i 2022-23						
Un Cyfraniad Unigol o'r Gronfa Wrth Gefn						
Cyfanswm						
(Gwarged)/Diffyg						

Gan y rhagwelir gwarged dros gyfnod y CATC 2019-20 i 2022-23, gellid lleihau lefel y gostyngiadau /arbedion effeithlonrwydd gofynnol neu ostwng lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor, ond **dylid bod yn ofalus** yn hyn o beth nes bod ail-gyfrifo'r bwlch ariannu rhagamcanol ar gyfer cyllidebau gwastad (gwasanaethau) a'r gostyngiadau / arbedion cost sydd eu hangen i'w pontio wedi'i gwblhau.

1.8.9 Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi

Caiff defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ei rheoli gan y Strategaeth ar gyfer Dal a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2016. Er ein bod yn bwriadu defnyddio £ 0.7m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i bontio'r bwlch ariannu ar gyfer 2018-19, dim ond £ 0.36m oedd ei angen, un taliad unigol yw hwn ac ni ragwelir defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi i bontio'r bwlch ariannu yn ystod yr MTFP.

1.8.10 Gweddill Gweithio Cronfa'r Cyngor

Mae Gweddill Gweithio Cronfa'r Cyngor o £7.0m, sy'n cael ei chynnal i leddfu effaith achosion argyfwng, ateb effaith llif arian anwastad a digwyddiadau annisgwyl, wedi'i osod ar lefel ddoeth, ac nid argymhellir ei ddefnyddio i bontio'r bwlch ariannu.

1.9 SAIL PARATOI A CHYFLWYNO

Mae unrhyw faterion a all effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu ei Gynlluniau Corfforaethol (gan gynnwys amcanion Llesiant) dros y cyfnod byr, canolig a hir, wedi eu nodi yng nghorff yr Adroddiad Naratif hwn.

1.10 DIGWYDDIADAU AR ÔL PARATOI'R FANTOLEN

Bydd unrhyw ddigwyddiadau rhwng 30 Mai 2018 a 26 Gorffennaf 2018, sef y dyddiad y caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Cyllid, eu cyflwyno i'r Cyngor llawn a'u cymeradwyo ganddo. Ar 26 Gorffennaf 2018 un digwyddiad felly yn unig oedd.

Os bydd arnoch angen unrhyw wybodaeth ychwanegol am ein Datganiad Cyfrifon, byddwch cystal â chysylltu â'r Cyfarwyddwr Cyllid, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd SA61 1TP. Bydd ein Datganiad Cyfrifon ar gael hefyd ar safle mewnrwyd y Cyngor.

Jonathan Haswell FCCA
Cyfarwyddwr Cyllid

2.0 ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL AR YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR BENFRO

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Sir Penfro sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Anthony J Barrett
For and on behalf of the Auditor General for Wales
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ
2019

3.0 DATGANIAD O GYFRIFON

3.1 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae gofyn i'r Cyngor wneud y canlynol:

- Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb dros weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Cyfarwyddwr Cyllid.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnyddio adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol a gwarchod ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyllid

Y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr awdurdod yn unol ag arferion priodol ar sail Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- barnu a gwneud amcangyfrifon oedd yn rhesymol a doeth;
- cydymffurfio â Cod yr awdurdod lleol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cyfrifon priodol oedd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y CYFARWYDDWR CYLLID

Mae Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Penfro am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 yn Adrannau 4-14, a chaiff ei gynhyrchu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Diwygio). Mae'r Rheoliadau'n pennu cynnwys y Datganiad Cyfrifon ac ar y cynnwys yn unig y caiff barn yr Archwiliad ei mynegi.

Tystiaf fod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Penfro fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a gwariant am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 ac atodaf fy llofnod i'r Datganiad yn unol â Rheoliad 10(1).

J HASWELL FCCA
Cyfarwyddwr Cyllid

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2019

HYSBYSU A CHYMERADWYO

Bydd y cyfrifon hyn, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 30 Mai 2019, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo'n dilyn gorffen yr Archwiliad Blynyddol ar 18 Gorffennaf 2019. Mae tystysgrif yr archwiliad i'w gweld yn adran 2.0.

Cadeirydd y Cyngor

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2018

4.0 DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD - EGWYDDORION SYLFAENOL

Caiff y safonau cyfrifyddu, cysyniadau, barnau beirniadol a pheryglon cynhenid, a pholisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol craidd eu cyflwyno yn Adran 8.0.

4.1 SAFONAU CYFLWYNO ADRODDIADAU ARIANNOL

Cymhwyswyd y Safonau Adroddiadau Ariannol ac Eraill Rhyngwladol a gyhoeddwyd yn ôl gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

- Mabwysiadodd y cyngor safon gyfrifyddu Offerynnau Ariannol IFRS 9 a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2018. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys ailddosbarthu a mesur asedau ariannol, y gydnabyddiaeth gynharach o amharu ar asedau ariannol.
- Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r darpariaethau trosiannol yn IFRS 9 i beidio ag ailddatgan datganiadau ariannol y flwyddyn flaenorol, ac yn lle hynny dangosir effaith yr ail-fesur yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae'r Cod Ymarfer yn gofyn bod yr Awdurdod yn dadlennu gwybodaeth berthnasol i effaith newid cyfrifyddol fydd yn ofynnol oherwydd safon newydd a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae tri newid allweddol i reolau cyfrifyddu a fydd yn effeithio ar yr awdurdod dros y tair blynedd nesaf:

- Bydd prydlesau IFRS 16, effeithiol 2019-20, yn disodli'r prydlesi cyfredol safon IAS 17. Y newid allweddol yw ei fod yn bennaf yn dileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a chyllid ar gyfer lesseiswyr trwy gyflwyno model cyfrifo prydlesai sengl sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydlesai adnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles gyda thymor o fwy na 12 mis, oni bai fod yr ased sylfaenol o werth isel. Bydd yn arwain at gydnabod yr holl brydlesi ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl i ddefnyddio' gydag atebolrwydd cyfatebol ar gyfer rhenti yn y dyfodol. Mae hwn yn newid sylweddol yn y cyfrifydd prydlesai.
- Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a ddiwygiwyd gan OS (SI) 2018 Rhif 91 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru ddwyn ymlaen y gwaith o gau'r cyfrifon a'r amserlen cyhoeddi. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoeddi ddigwydd erbyn 31 Gorffennaf o 2021. Mae'r awdurdod wedi bod yn cynhyrchu ei Ddatganiad o Gyfrifon yn gynharach na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau presennol, am sawl blwyddyn.

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon yn Adrannau 4-14 i gydymffurfio â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2018-19.

5.0 CYSYNIADAU CYFRIFYDDU

Defnyddiwyd y cysyniadau cyfrifyddu treiddiol canlynol wrth baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd:

- Sail croniadau
- Busnes hyfyw

Mae nodweddion ansoddol gwybodaeth ariannol ddefnyddiol yn dal i gael eu defnyddio:

- Perthnasedd
- Cymaroldeb
- Gwiriadwyedd
- Amseroldeb
- Eglurder
- Perthnasedd
- Cynrychiolaeth Ffyddlon
    - Cyflawnder
    - Amhleidioldeb
    - Rhydd o wallau
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol

6.0 BARNAU BEIRNIADOL WRTH GYMHWYSO POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIF PERYGLON

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu yn nodyn 8.0 mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau ynghylch y trafodion cymhleth a'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd yn y blynyddoedd a ddaw.

- Er bod llawer o ansicrwydd ynghylch faint o gymorth ariannol a gaiff llywodraeth leol yn y dyfodol, nid oes digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad y gall hyn amharu ar unrhyw rai o asedau'r Cyngor o ganlyniad.
- Dan rai amgylchiadau bu angen amcangyfrif y taliadau a wnaed yn y cyfrifon trwy ddefnyddio profiad hanesyddol, tueddiadau presennol ac ati. Fe all yr union ganlyniadau fod yn wahanol i'r hyn a dybiwyd ac effeithio, o ganlyniad, ar y taliadau a wneir yng nghyfrifon blynyddoedd a ddaw.
- Cytunwyd ar fuddsoddiad arfaethedig o £106.4m ar gyfer Rhaglen Ysgolion Band B yr 21ain Ganrif mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2024-25. Mae gofyniad i ddod o hyd i uchafswm o £37.2m o arian cyfatebol yn dal i fod yn fater allweddol. Cynyddwyd y gyfradd ymyrryd wreiddiol o 50% i 65% ym mis Tachwedd 2018, gyda chyfradd ymyrryd o 75% ar gyfer darpariaeth anghenion arbennig.
- Llofnodwyd Trefniant Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cynnwys Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot Cyngor Sir a Chyngor Dinas Abertawe gan Brif Weinidog y DU ar 20 Mawrth 2017. Mae'n golygu gwario £1.3bn o fuddsoddiad preifat a chyhoeddus dros 15 mlynedd. Ni chadarnhawyd union gyfraniad Cyngor Sir Penfro eto, ac mae'n gofyn am gadarnhad llawn y Cyngor.
- Arweiniodd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017 at benodi Arweinydd a Chabinet newydd. Ailbenodwyd yr arweinydd am 2 flynedd arall yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 11 Mai 2019. Mae'r Cabinet bellach wedi cyhoeddi rhaglen ar gyfer gweinyddu a fydd yn dylanwadu ar y strategaethau MTFP a gosod cyllideb ar gyfer yr awdurdod yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu y bydd yr holl gyllidebau refeniw ar linell wastad (arian parod) o fis Ebrill 2020, gyda gwasanaethau'n cael eu gwahodd i wneud cais am arian ar gyfer pwysau chwyddiant a thwf.
- Bydd £532k o dderbyniadau menter ar y cyd sy'n cael eu dal gan Gyngor Sir Penfro, a glustnodwyd yn flaenorol i ddatblygu Cei'r De, yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu'r safle yn y dyfodol ac efallai y bydd angen ei ad-dalu.
- Crëwyd cronfa gyfalaf ar gyfer adfywio gwerth £20m, ond er ei bod yn y rhaglen gyfalaf gymeradwy, bydd yn destun yr un meini prawf fforddiadwyedd â phob prosiect cyfalaf arall. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisi i gapio ei gostau ariannu cyfalaf cyffredinol ar £14m y flwyddyn i sicrhau fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf yn y dyfodol.
- Daeth tollau Pont Cleddau i ben ar 28 Mawrth 2019, gyda Llywodraeth Cymru yn cynnig grant iawndal o £60m dros 20 mlynedd yn ogystal ag ad-dalu costau ailstrwythuro seilwaith a thaliadau diswyddo staff. Nid yw'r grant yn cydnabod risg chwyddiant dros amser. Mae trafodaethau ar y gweill rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru ynghylch manylion y cynnig grant.
- Yn ystod y flwyddyn prynodd CRT (HRA) yr Awdurdod £5.12m o dir ac eiddo o Gronfa'r Cyngor at ddibenion adeiladu tai Cyngor newydd. Cafodd yr eiddo eu prisio'n annibynnol gan y Prisiwr Dosbarth a chofnodwyd trafodion drwy'r Rhaglen Gyfalaf HRA gymeradwy, a ariannwyd o'r gronfa Cyfalaf HRA.

Mae'r prif feysydd peryglon i'w gweld yn y tabl canlynol:

Materion perthnasol i eitemau yn y casgliad cyfrifon cyfredol:		
Eitem	**Perygl**	**Effaith Bosibl**
Ymrwymiadau Cytundebol	Meintoliad anghywir a sialens gyfreithiol	Tâl ychwanegol ar drethdalwyr yn dyfodol
Darpariaethau	Meintoliad anghywir	Tâl ychwanegol ar drethdalwyr yn dyfodol
Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band Band B)	Tybiaethau costau anghywir Cynnydd mewn cyfraddau llog uwchlaw cyfraddau LGBI	Costau cytundebol uwch Taliad dyled uwch gan gostio mwy i drethdalwr
Asedau Di-gyfredol	Bywyd Defnyddiol	Tâl dibrisiad anghywir
Atebolrwydd Pensiwn	Tybiaethau actiwaraidd yn anghywir	Mwy o gyfraniadau Cyflogwr yn y dyfodol / tâl ychwanegol i drethdalwr yn y dyfodol
Mesur Diwygio Lles	Tybiaethau anghywir	Cynyddiad mewn costau gwasanaeth gan gynnwys dyledion drwg
Newidiadau demograffig	Tybiaethau anghywir	Costau gwasanaeth a chytundebol uwch
Cymorth Grant	Colli grantiau Llywodraeth Cymru ac Ewrop	Darparu llai o wasanaeth
Llywodraethu	Penderfyniad heb ei wneud neu heb ei wneud mewn pryd	Gorwario / tanwario'r gyllideb a cholli cymorth grant
Trefniadau Cytundebol	Sefydliad mawr yn y sector preifat yn mynd mewn i Weinyddiaeth.	Oedi I ddarpariaeth gwasanaeth a chostau cynyddol.
Gweddnewid / Cyflenwi Gwasanaethau'n Wahanol	Ffyrdd newydd o weithio heb ddod arbediadau ariannol a dybiwyd	Gorwario / tanwario'r gyllideb Trefniadau cyfrifyddu ar wahân

Materion a allai effeithio ar y cyfrifon yn y dyfodol:		
Eitem	**Perygl**	**Effaith Bosibl**
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Heb ystyried y ddeddf wrth wneud penderfyniadau	Cost camau unioni
Dinas-ranbarth Bae Abertawe	Pwysau ychwanegol yn MTFP	Gofyniad cyllideb / gorwario
Ad-drefnu Ysgolion / Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	Methu darparu'r gwasanaeth o fewn cyllidebau presennol Tybiaethau costau anghywir	Gorwario cyllidebol Costau cytundebol uwch
Pensiynau Athrawon a Thâl Athrawon	Nid yw cynnydd mewn Pensiwn / Tâl Athrawon yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru	Pwysau sylweddol ar gyllideb yr Awdurdod a'r Ysgolion, a allai pe baent yn cael eu hariannu arwain ofyniad i leihau costau ychwanegol yn sylweddol, a fyddai'n arwain at ostyngiad mewn safonau addysg.
Ad-drefnu rhenti tai	Tybiaethau cynllun busnes anghywir	Costio mwy i denantiaid yn y dyfodol
BREXIT	Risg cyfradd gyfnewid. Risg o dariffau masnach.	Costau cynyddol i wasanaethau yn arwain at oedi wrth ddarparu gwasanaethau oherwydd prinder cyflenwad nwyddau a gwasanaethau
Trefniadau Cytundebol	Sefydliad mawr yn y sector preifat yn mynd I Weinyddiaeth.	Oedi I ddarpariaeth gwasanaeth a chostau cynyddol.
Cymorth Grant	Colli grantiau Llywodraeth Cymru ac Ewrop	Darparu llai o wasanaeth

7.0 DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD – CYDRANNAU A MANYLION

Y datganiadau ariannol craidd, a baratowyd gan ddefnyddio Safonau Rhyngwladol Cyflwyno Adroddiadau Ariannol, (IFRS) yw'r canlynol:

- Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – sy'n dangos y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol (sail IFRS) yn hytrach na'r gost a gyllidwyd mewn gwirionedd o drethiant. Caiff y cysoniad â'r sefyllfa drethiant, fel sy'n cael ei gynrychioli gan y gwir gyllid ar gael i'r Cyngor, ei ddangos yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid.
- Y Datganiad Symudiad Cronfeydd – sy'n dangos y symudiad yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr awdurdod, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd defnyddiadwy a chronfeydd annefnyddiadwy sy'n cael eu dal at ddibenion cyfrifyddu ariannol.
- Y Fantolen – sy'n dangos y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth o ran gwerth asedau a dyledion cydnabyddedig gan y Cyngor a'r cronfeydd sydd gan y Cyngor.
- Y Datganiad Llif Arian – sy'n crynhoi mewnlifoedd ac all-lifoedd arian a chywerthoedd arian parod gydag eraill yn deillio o drafodion cyllid a chyfalaf.

Nodiadau Esboniadol a Datganiadau Ariannol Atodol

Y rhain yw:

- Y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid.
- Nodiadau ar y datganiadau ariannol craidd.
- Cyfrifon eraill sy'n cael eu paratoi neu reoli gan y Cyngor.
- Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Cyllid Tai, Symudiad ar Ddatganiad y Cyfrif Cyllid Tai a nodiadau esboniadol sy'n crynhoi'r trafodion cysylltiedig â Thai'r Cyngor.

Cyfrifon Grŵp

Pan fo hynny'n briodol, rhaid paratoi cyfrifon grŵp i adlewyrchu cyfanswm cost darparu gwasanaethau trwy gynnwys gwariant, incwm ac asedau a rhwymedigaethau priodol cyrff "atodol" y mae gan y Cyngor fudd a dylanwad perthnasol ynddynt.

Ers 2014-15, ymgorfforwyd incwm a gwariant crynswth Pwll Dinbych-y-pysgod a'r gwerthoedd asedau sefydlog yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r newidiadau i'r Cod.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau'r Cyngor ar y cyd yn cael eu cyflwyno yn nodiadau 10.8.4.4.

7.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Dengys y datganiad hwn y cysoniad rhwng sut gaiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i gyllido o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti, treth y cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol fel yr hysbyswyd i'r rheolwyr mewn cymhariaeth â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau, yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol (sail IFRS). Mae hefyd yn dangos sut gaiff y gwariant hwn ei neilltuo at ddibenion penderfynu rhwng gwasanaethau'r Cyngor. Caiff incwm a gwariant a gyfrifwyd dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2017-18				2018-19		
Gwariant Clir Taladwy i'r Gronfa Gyffredinol a Gweddill HRA £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a Chyfrifyddu (Nodyn 9.1) £'000	Gwariant Clir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000		Gwariant Clir Taladwy i'r Gronfa Gyffredinol a Gweddill HRA £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a Chyfrifyddu (Nodyn 9.1) £'000	Gwariant Clir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
87,517	7,371	94,888	Gwasanaethau Addysg***	89,179	5,384	94,563
12,697	1,150	13,847	Gwasanaethau Plant	13,308	899	14,207
47,894	1,579	49,473	Gwasanaethau Oedolion***	51,697	2,098	53,795
1,027	593	1,620	Gwasanaethau Tai***	1,037	337	1,374
-	1,289	1,289	Tai'r Cyngor	-	1,212	1,212
7,713	5,237	12,950	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	8,316	6,158	14,474
6,632	2,410	9,042	Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig***	6,193	2,787	8,980
1,773	4,143	5,916	Gwasanaethau Cynllunio***	1,918	626	2,544
11,033	1,308	12,341	Gwasanaethau Amglycheddol	13,025	1,573	14,598
5,602	(239)	5,363	Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill***	5,605	12,673	18,278
7,682	-	7,682	Cynllun Lleihau Treth Cyngor	8,528	-	8,528
304	8	312	Gwasanaethau Llys	334	8	342
(871)	871	-	Y Dreth Gyngor Cartref (Cymuned)	-	-	-
871	(871)	-	Cynllun Tai Fforddiadwy*	930	(908)	22
871	(871)	-	Cyfraniadau I'r Gymuned*	930	(781)	149
190,745	**23,978**	**214,723**	**Costau Clir Gwasanaethau (gan gynnwys HRA) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol**	**201,000**	**32,066**	**233,066**
7,222	13,097	20,319	Gwariant Gweithredu Arall	7,332	14,468	21,800
8,537	5,954	14,491	Cyllido a Buddsoddiad Incwm a Gwariant	9,609	4,356	13,965
(206,504)	(38,133)	(244,637)	Incwm trethiant a grantiau amhenodol	(217,941)	(40,544)	(258,485)
-	**4,896**	**4,896**	**Gwarged neu Ddiffyg**	**-**	**10,346**	**10,346**

* Dangosir y Dreth Gyngor Ail Gartrefi ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi'i gyfuno yn y Tablau Datganiad Cyfrifon
***ailddatgan gweler tabl 11.2.3 Addasiadau Blwyddyn Blaenorol

	2017-18	2018-19
	Gwariant Clir £'000	Gwariant Clir £'000
Cronfa Gyffredinol Agoriadol a Gweddill HRA	(7,752)	(7,752)
Llai / ynghyd â Gwarged neu (Ddiffyg) yn y Gronfa Gyffredinol a Gweddill HRA yn y flwyddyn	-	-
Cronfa Gyffredinol Derfynol a Gweddill HRA ar 31 Mawrth**	(7,752)	(7,752)

**Ar gyfer rhaniad o'r cydbwysedd hwn rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r HRA gweler nodyn 7.3 Symudiad yn y Datganiad Cronfeydd Wrth Gefn

7.2 DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost economaidd o ddarparu gwasanaethau yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w gyllido o drethiant. Bydd awdurdodau'n codi trethi yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Caiff y sefyllfa drethiant ei dangos yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd isod.
Mae modd crynhoi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel a ganlyn:

7.2.1.1 Gwarged / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol – sy'n dadansoddi yn ôl grwpiau gwasanaethau, yr incwm a gwariant arferol ar eitemau fel talu cyflogeion, costau cynnal gwasanaethau, taliadau cyfalaf, grantiau penodol i wasanaeth, rhenti, ffïoedd a thaliadau.
Yn unol â gofynion y Cod, mae incwm a gwariant gweithredu gwasanaethau'n cynnwys y canlynol. Nid yw'r rhain yn ffurfio rhan o'r amcangyfrifon at ddibenion codi treth, heb beri unrhyw gost glir uniongyrchol i'r trethdalwr yn y flwyddyn, ond sy'n ofynnol i fesur cost economaidd sylfaenol gwasanaethau yn unrhyw flwyddyn:

- derbyniadau dan 10k yn deillio o werthu asedau. Caiff swm o £18k ei gynnwys yn incwm Craidd Corfforaethol a Democrataidd a neilltuwyd i Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn unol â pholisïau cyfrifyddu
- miscellaneous receipts not related to disposal of assets. Caiff swm o £40k ei gynnwys yn incwm Craidd Corfforaethol a Democrataidd a neilltuwyd i Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn unol â pholisïau cyfrifyddu
- caiff y costau "tybiannol" canlynol eu cynnwys hefyd sy'n cael eu "gwyrdroi allan" yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd:
  - gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud a grantiau
  - costau dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog
  - costau pensiynau gwasanaeth presennol
  - buddiannau cyflogeion cronedig

7.2.2 Gwariant Gweithredu Arall ac Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi – sy'n ychwanegu'r canlynol at y Gwarged / Diffyg mewn Gweithrediadau Parhaol:

- archebiannau ac ardollau
- gweithgareddau asiantaeth
- llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau allanol a llog a dalwyd ar fenthyciadau allanol
- cost gostwng premiymau a gostyngiadau cysylltiedig ag ad-drefnu'r portffolio benthyciadau
- Yn ogystal, mae'r Cod yn gofyn bod y costau canlynol, nad oes cyllideb ar eu cyfer naill ai am eu bod yn dybiannol neu nad ydynt yn peri unrhyw gost glir uniongyrchol i'r trethdalwr yn y flwyddyn, yn cael eu hychwanegu hefyd:
- cost glir llogau pensiynau
- enillion neu golledion ar wared asedau a chostau gwerthiannau.

7.2.3 Trethiant a Grantiau Amhenodol – sy'n dangos yr incwm a ddaw o drethiant cyffredinol ar ffurf cymorth cyllid ac incwm grantiau amhenodol eraill, trethi annomestig cenedlaethol a threth y cyngor. Caiff grant cyfalaf cyffredinol a chyfraniadau at ddibenion cyfalafol eu cydnabod fel incwm cyllidol dan y Cod.

7.2.4 Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall – sy'n dangos y gwarged neu ddiffyg yn deillio ailbrisio asedau sefydlog ac ariannol ac ailfesur asedau a rhwymedigaethau pensiynau.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR	Nodyn	2017-18			2018-19		
		Cyfanswm Cost Crynswth £000	Incwm £000	Cyfanswm Cost / Gwariant Clir £000	Cyfanswm Cost Crynswth £000	Incwm £000	Cyfanswm Cost / Gwariant Clir £000
Gwasanaethau Addysg*		118,305	(23,417)	94,888	119,164	(24,601)	94,563
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant		18,565	(4,718)	13,847	18,690	(4,483)	14,207
Gofal Cymdeithasol -		72,979	(23,506)	49,473	77,053	(23,258)	53,795
Gwasanaethau Tai*		38,911	(37,291)	1,620	38,456	(37,082)	1,374
Tai'r Cyngor		24,400	(23,111)	1,289	25,538	(24,326)	1,212
Gwasanaethau Priffyrdd a		26,921	(13,971)	12,950	26,179	(11,705)	14,474
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig*		14,220	(5,178)	9,042	14,338	(5,358)	8,980
Gwasanaethau Cynllunio*		10,273	(4,357)	5,916	7,989	(5,445)	2,544
Gwasanaethau Amgylcheddol		20,795	(8,454)	12,341	20,622	(6,024)	14,598
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill*		11,769	(6,406)	5,363	21,170	(2,892)	18,278
Cynllun Lleihau Treth Cyngor		7,682	-	7,682	8,528	-	8,528
Gwasanaethau Llys*		337	(25)	312	376	(34)	342
Y Dreth Gyngor Cartref		-	-	-	171	-	171
(Gwarged) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol		**365,157**	**(150,434)**	**214,723**	**378,274**	**(145,208)**	**233,066**
Gwariant Gweithredu Arall							
Archebiannau ac Ardollau	10.2			20,909			21,856
Enillion a Cholledion o Wared Asedau Anghyfredol				(590)			(56)
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi							
Llog Taladwy				11,101			10,936
Llog ac Incwm o Fuddsoddiad				(313)			(325)
Llog Pensiynau Clir	10.5.1			3,703			3,354
Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol							
Grant Cynnal Cyllid (gan gynnwys Grant Arbennig)	10.1.1			(116,466)			(121,740)
Cyfran Cronfa NNDR				(40,310)			(40,034)
Trethdalwyr Lleol	10.1.3			(61,172)			(68,328)
Treth Cyngor Premiwm Ail Gartrefi				(2,243)			(2,363)
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cyffredinol	10.1.5			(24,446)			(26,020)
(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				**4,896**			**10,346**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall							
(Gwarged) / Diffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol	12.13.3			(2,989)			(2,865)
Ailfesur Rhwymedigaethau ac Asedau Pensiynau	12.13.7			(34,340)			17,459
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				**(37,329)**			**14,594**
CYFANSWM INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR				**(32,433)**			**24,940**

*ailddatgan gweler tabl 11.2.3 Addasiadau Blwyddyn Blaenorol

7.2.5 Eitemau Eithriadol - Nid oedd unrhyw eitemau incwm neu wariant eithriadol yn 2018-19.

7.3 DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

Dengys y Datganiad hwn y symudiad yng ngwahanol gronfeydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd defnyddiadwy (y rhai y mae modd eu defnyddio i dalu am wariant neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd annefnyddiadwy eraill. Mae'r cronfeydd annefnyddiadwy'n cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion heb eu sylweddu a cholledion sydd ond yn cael eu sylweddu pan gaiff asedau eu gwerthu a chronfeydd sy'n dal gwahaniaethau cyfrifyddu sydd eu hangen i gysoni'r gwahaniaethau rhwng cyflwyno adroddiadau ar sail gyfrifyddu IFRS a'r sail gyllido statudol. Mae'r (Gwarged) / Diffyg ar ddarparu gwasanaethau'n adlewyrchu cost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda rhagor o fanylion ohonynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y dudalen ganlynol. Mae hyn yn wahanol i'r "sefyllfa drethiant" (symiau sy'n cael eu penderfynu wrth bennu treth y cyngor a rhenti tai) a godir ar Weddill y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Cyllid Tai sy'n cael ei ddangos gan y Cynnydd / Gostyngiad Clir cyn llinell y rosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd

Gwirioneddol 2018-19	**Gweddill Gweithredol y Gronfa Gyffredinol**	**Adnoddau'r Gronfa Gyffredinol a Glustnodwyd**	**Gweddill Gweithredol HRA**	**Adnoddau HRA a Glustnodwyd**	**Adnoddau Derbyniadau Cyfalaf a Grantiau**	**Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy**	**Cronfeydd Annefnyddiadwy**	**Cyfanswm Cronfeydd**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Gweddill ar 1 Ebrill 2018	**(7,000)**	**(40,519)**	**(752)**	**(8,794)**	**(4,887)**	**(61,952)**	**(345,828)**	**(407,780)**
Addasiadau i'r Swm Agoriadol yn y Flwyddyn *	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	48	**48**
Ailddatganiad o'r Gweddill	**(7,000)**	**(40,519)**	**(752)**	**(8,794)**	**(4,887)**	**(61,952)**	**(345,780)**	**(407,732)**
(Gwarged) / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	9,507	-	839	-	-	10,346	-	**10,346**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	-	-	-	-	-	-	14,594	**14,594**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gwelwch 7.2.4)	**9,507**	-	**839**	-	-	**10,346**	**14,594**	**24,940**
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Gyllido Dan Reoliad (gwelwch 11.1)	(8,316)	-	3,218	-	(6,009)	(11,107)	10,907	**(200)**
(Cynnydd) a Gostyngiad Clir cyn Trosglwyddo (i) / o Gronfeydd	**1,191**	-	**4,057**	-	**(6,009)**	**(761)**	**25,501**	**24,740**
Trosglwyddiadau (i) / o Gronfeydd	(1,191)	1,084	(4,057)	4,334	-	170	(170)	-
(Cynnydd) / Gostyngiad yn y Flwyddyn	-	1,084	-	4,334	(6,009)	(591)	25,330	**24,739**
Gweddill ar 31 Mawrth 2019 (gwelwch 11.2.1 & 11.2.2)	**(7,000)**	**(39,435)**	**(752)**	**(4,460)**	**(10,896)**	**(62,543)**	**(320,450)**	**(382,993)**

Gwirioneddol 2017-18	**Gweddill Gweithredol y Gronfa Gyffredinol**	**Adnoddau'r Gronfa Gyffredinol a Glustnodwyd**	**Gweddill Gweithredol HRA**	**Adnoddau HRA a Glustnodwyd**	**Adnoddau Derbyniadau Cyfalaf a Grantiau**	**Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy**	**Cronfeydd Annefnyddiadwy**	**Cyfanswm Cronfeydd**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Gweddill ar 1 Ebrill 2017	**(7,000)**	**(39,952)**	**(752)**	**(8,247)**	**(2,055)**	**(58,006)**	**(317,339)**	**(375,345)**
Addasiadau i'r Swm Agoriadol yn y Flwyddyn *	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**(2)**	**(2)**
Ailddatganiad o'r Gweddill	**(7,000)**	**(39,952)**	**(752)**	**(8,247)**	**(2,055)**	**(58,006)**	**(317,341)**	**(375,347)**
(Gwarged) / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	3,405	-	1,491	-	-	4,896	-	**9,286**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	-	-	-	-	-	-	**(37,329)**	**(37,329)**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gwelwch 7.2.4)	**3,405**	-	**1,491**	-	-	**4,896**	**(37,329)**	**(32,433)**
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Gyllido Dan Reoliad (gwelwch 11.1)	(3,821)	-	(2,286)	-	(2,832)	(8,939)	8,939	-
(Cynnydd) a Gostyngiad Clir cyn Trosglwyddo (i) / o Gronfeydd	**(416)**	-	**(795)**	-	**(2,832)**	**(4,043)**	**(28,390)**	**(32,433)**
Trosglwyddiadau (i) / o Gronfeydd	416	(567)	795	(547)	-	97	(97)	-
(Cynnydd) / Gostyngiad yn y Flwyddyn	-	(567)	-	(547)	(2,832)	(3,946)	(28,487)	**(32,433)**
Gweddill ar 31 Mawrth 2018 (gwelwch 11.2.1 & 11.2.2)	**(7,000)**	**(40,519)**	**(752)**	**(8,794)**	**(4,887)**	**(61,952)**	**(345,828)**	**(407,780)**

*Ailddatganwch gweler tabl 12.13.2 CAA ar gyfer Addasiadau Blynyddoedd Blaenorol

7.4 Y FANTOLEN

Dengys y Datganiad hwn gwerth asedau a rhwymedigaethau cydnabyddedig y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau clir (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r canlynol:

- Cronfeydd defnyddiadwy sy'n cynnwys y gweddillion gweithredol a chronfeydd a glustnodwyd.
- Cronfeydd annefnyddiadwy sy'n cynnwys cronfeydd yn dal enillion a cholledion heb eu sylweddu, lle byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau ond os caiff asedau eu gwerthu; a chronfeydd yn hwyluso'r addasiadau gofynnol rhwng y sail gyfrifyddu sy'n cael ei defnyddio wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon a'r sail gyllido statudol dan reoliad sy'n cael ei defnyddio i bennu treth y cyngor a rhenti tai.

Y FANTOLEN FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH	Nodyn	2017-18		2018-19	
		£000	£000	£000	£000
ASEDAU ANGHYFREDOL:					
Eiddo, Cyfarpar ac Offer	**12**				
Eiddo Tai'r Cyngor	12.1.1.3	199,110		200,739	
Tir ac Adeiladau Eraill	12.1.1.3	325,128		397,048	
Isadeiledd	12.1.1.3	117,567		119,707	
Cerbydau / Cyfarpar / Offer	12.1.1.3	8,010		10,621	
Asedau Treftadaeth	12.1.1.6	535		531	
Asedau Cymunedol	12.1.1.3	991		579	
Asedau'n Cael eu Hadeiladu	12.1.1.3	59,353		269	
Asedau Dros Ben		6,837		2,259	
Asedau Sefydlog			**717,531**		**731,753**
Asedau Anniriaethol	12.1.3		96		320
Dyledwyr Hirdymor	12.6.1		3,126		4,243
CYFANSWM ASEDAU HIRDYMOR			**720,753**		**736,316**
ASEDAU CYFREDOL:					
Buddsoddiadau Byrdymor	12.5	32,772		46,100	
Rhestri Eiddo a Gwaith ar y Gweill	12.4	1,152		1,268	
Dyledwyr Byrdymor a Rhagdaliadau*	12.6.1	36,631		30,468	
Arian a Chywerthoedd Arian	12.7	4,057		6,127	
Asedau Mewn Llaw i'w Gwerthu	12.8	103		338	
Cyfanswm Asedau Cyfredol			**74,715**		**84,301**
CYFANSWM ASEDAU			**795,468**		**820,617**
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL:					
Benthyca Byrdymor Arall	12.6.2	(4,126)		(4,460)	
Credydwyr Byrdymor	12.6.2	(28,497)		(30,831)	
Derbyniadau Grantiau Cyllid o Flaen Llaw	12.6.2	(770)		(1,143)	
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw	12.6.2	(7,753)		(9,542)	
Darpariaethau	12.9.1	(1,440)		(1,748)	
Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol			**(42,586)**		**(47,724)**
CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL			**752,882**		**772,893**
Benthyca Hirdymor	12.10.1	(199,664)		(203,545)	
Rhwymedigaethau Gohiriedig	12.11	(8,641)		(8,401)	
Rhwymedigaeth Glir y Gronfa Bensiynau	12.13.7	(136,797)		(177,954)	
CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR			**(345,102)**		**(389,900)**
ASEDAU CLIR			**407,780**		**382,993**
Cronfeydd Defnyddiadwy					
- Gweddill Gweithredol y Gronfa Gyffredinol	11.2.1		(7,000)		(7,000)
- Gweddill Gweithredol HRA	11.2.1		(752)		(752)
- Cronfeydd a Glustnodwyd a Derbyniadau Cyfalaf	11.2.1 & 11.2.2		(54,200)		(54,791)
Cronfeydd Annefnyddiadwy	12.13		(345,828)		(320,450)
CYFANSWM CRONFEYDD			**(407,780)**		**(382,993)**

*ailddatgan gweler tabl 11.2.3 Addasiadau Blwyddyn Blaenorol

7.5 DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian parod yn ystod cyfnod yr adroddiad, gan ddangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod trwy ddosbarthu llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.

Mae maint y llifau arian clir sy'n deillio o weithgareddau gweithredu clir yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau eu cyllido drwy drethiant ac incwm grant neu drwy dderbynwyr gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Awdurdod.

Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y deilliodd llifau arian o adnoddau y bwriadwyd iddynt gyfrannu at gyflenwi gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.

Mae llifau arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol ar gyfer rhagweld hawliadau ar lifau arian y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf i'r Cyngor.

Mae'r nodiadau ar y Llif Arian isod:

Symudiad Gweddillion Arian Parod	Fel yr oedd ar 31 Mawrth		Symudiad yn y Flwyddyn
	2018 £000	2019 £000	£000
Arian yn y Banc / (Dyledus)	-	-	-
Cywerth Arian Parod	1,918	4,994	3,076
Arian yn y Banc / Mewn Llaw	2,139	1,133	(1,006)
	4,057	**6,127**	**2,070**

Mae'r llifau arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu'n cynnwys yr eitemau canlynol:	2017-18 £000	2018-19 £000
Llog a Dalwyd	9,887	10,922
Llog a Dderbyniwyd	(414)	(343)

DATGANIAD LLIF ARIAN	2017-18 £000	2017-18 £000	2018-19 £000	2018-19 £000
Cysoni Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â Llif Arian Cyllid Clir				
(Gwarged) / Diffyg Clir ar ddarparu gwasanaethau		**4,896**		**10,346**
Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg clir ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau heblaw arian				
Dibrisiad	(19,211)		(19,408)	
Amhariad a phrisiadau gostyngol	(11,987)		(8,603)	
Addasiadau i'r gronfa bensiwn	(15,739)		(23,698)	
Addasiadau eraill i offerynnau ariannol heblaw arian	(32)		(31)	
Cyfraniadau at ddarpariaethau	(488)		(308)	
Swm cario o asedau anghyfredol a werthwyd	(2,672)		(7,200)	
Symudiad arall heblaw arian	-		-	
Symudiadau mewn dyledwyr cyllid, credydwyr, stociau ac ati	6,900		(9,330)	
		(43,229)		**(68,578)**
Addasiad ar gyfer eitemau sydd yn y gwarged neu ddiffyg clir ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido				
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	3,336		7,331	
Grantiau Cyfalaf	24,446		26,020	
Premiwm a dalwyd ar adbrynu dyled	-		-	
		27,782		**33,351**
Llif Arian Clir o Weithgareddau Gweithredu	**-**	**(10,551)**	**-**	**(24,881)**
GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI				
Prynu eiddo, cyfarpar ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	69,547		48,634	
Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor	394,115		371,601	
Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	-		-	
Derbyniadau o werthu eiddo, cyfarpar ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(3,336)		(7,331)	
Derbyniadau o fuddsoddiadau byrdymor a hirdymor	(430,236)		(358,267)	
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	(21,834)		(27,805)	
Derbyniadau arian cyfalaf arall	-		-	
Llif Arian Clir o Weithgareddau Buddsoddi	**-**	**8,256**	**-**	**26,832**
GWEITHGAREDDAU CYLLIDO				
Derbyniadau arian o fenthyca byrdymor a hirdymor	(3,000)		(6,000)	
Derbyniadau eraill o weithgareddau cyllido	-		-	
Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau dyledus cysylltiedig â phrydlesi cyllidol a chontractau PFI ar y Fantolen	256		280	
Ad-daliadau benthyca byrdymor a hirdymor	4,509		1,699	
Taliadau eraill am geithgareddau cyllido			-	
Llif arian clir o weithgareddau cyllido		**1,765**	**-**	**(4,021)**
(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD CLIR MEWN ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN PAROD		**(530)**		**(2,070)**
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod hysbusu	3,527		4,057	
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod hysbysu	4,057		6,127	
CYNNYDD / (GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN PAROD		**530**		**2,070**

8.0 POLISÏAU CYFRIFYDDU

Adolygwyd y polisïau cyfrifyddu sy'n cael eu defnyddio i baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd a'r Nodiadau Esboniadol a Datganiadau Ariannol Atodol sy'n dilyn trwy ddefnyddio Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2018-19.

8.1 EGWYDDORION CYFFREDINOL

Amcan y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd fydd sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi darlun "cywir a theg" o sefyllfa ariannol y Cyngor.

Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi'n unol â'r Cod Ymarfer diweddaraf ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), (y Cod) a chadw at y Safonau ac Arferion Cyflwyno Adroddiadau Ariannol perthnasol, os na fydd yn dweud yn wahanol.

Bydd ffigurau'n cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol gan ddefnyddio'r confensiwn costau a bennwyd yn y safon gyfrifyddu briodol.

Bydd y polisïau cyfrifyddu'n cael eu hadolygu yn ôl y gofyn o rai'r flwyddyn flaenorol i adlewyrchu newidiadau yng ngofyniad cyflwyno adroddiadau gydag unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu datgelu.

8.2 INCWM A GWARIANT

8.2.1 Costau a Buddiannau Cyflogeion

Bydd cyflogau'n cael eu codi ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt ac, os bydd angen, bydd amcangyfrifon o groniadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio cyfnodau cyflog blaenorol fel sail. Bydd addasiad yn cael ei wneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyfrif hawl absenoldeb cronedig.

8.2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau ac ati

Mae'r Cyngor yn gweithredu trefn o groniadau a thaliadau cyfnewidiedig. Bydd credydwyr yn cael eu cronni erbyn diwedd cyfnod penodedig o'r flwyddyn ddilynol a thrwy gynnwys amcangyfrifon ar gyfer eitemau arwyddocaol sy'n dal heb eu talu bryd hynny ar sail dyfynbrisiau neu gostau'r gorffennol. Mae eithriad i'r egwyddor hon yn berthnasol i drydan a thaliadau cyfnodol tebyg sy'n cael eu codi ar ddyddiad darlleniad mesurydd yn hytrach na chael eu dosrannu rhwng blynyddoedd ariannol. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson bob blwyddyn ac, felly, nid yw'n cael effaith sylweddol ar gyfrifon unrhyw flwyddyn.

8.2.3 Gwasanaethau Cymorth

Yn gyffredinol bydd y seiliau canlynol yn cael eu defnyddio i godi ar gyfrifon cyllid gwasanaethau:

- Bydd costau gwasanaethau cymorth yn cael eu codi ar wasanaethau ar sail amcangyfrif o'r amser a dreuliwyd neu'r sail fwyaf priodol.
- Bydd costau cysylltiedig â swyddfeydd yn cael eu dyrannu ar sail meddiannu.
- Bydd costau eraill yn cael eu dyrannu ar sail gwariant cyfredol crynswth os nad oes unrhyw sail fwy gwrthrychol ar gael.
- Bydd y dyraniad costau i wasanaethau'n cael ei adolygu'n unig pan fu ad-drefnu sylweddol ar ddarparu gwasanaethau.

8.2.4 Archebiannau ac Ardollau

Bydd holl archebiannau ac ardollau'n ffurfio rhan o Warged / Diffyg y Cyngor ar ddarparu Gwasanaethau ac yn cael eu hysbysu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.2.5 Incwm

Bydd holl incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael ei gyfrif amdano ar y dyddiad penodedig a'i gydnabod yn ôl gwerth teg. Bydd incwm Treth y Cyngor yn cael ei ddwyn i gyfrif ar sail cofnodion yn y Rhestr Brisio.

Cyfran yr Awdurdod o Gronfa Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) sy'n cael ei hysbysu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r hyn sy'n cael ei hysbysu gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd NNDR sy'n cael ei gasglu ar ran Llywodraeth Cymru'n ffurfio rhan o incwm y Cyngor a dyledwyr a chredydwyr cysylltiedig ar y Fantolen. Caiff holl gofnodion cysylltiedig eu cyfuno i gyfrif cronfa NNDR.

8.2.6 Llog Taladwy

Bydd llog ar fenthyca'n cael ei gronni a chyfrif amdano yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn briodol pan fo'r effaith economaidd yn cael ei hadlewyrchu yn y cyfrifon heblaw i'r graddau y mae'n cael ei gyfalafu dan bolisi cyfrifyddu 8.16.

Bydd unrhyw addasiad cyfradd log effeithiol sy'n cael ei wneud o ran benthyciadau'r farchnad (gwelwch bolisi cyfrifyddu 8.10.2) yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

8.2.7 Llog Derbyniadwy

Bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol i log derbyniadwy:

Bydd llog a dderbyniwyd ar arian dros ben a fuddsoddwyd yn allanol yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac oddi yno bydd arian yn cael ei neilltuo i'r canolynol:

- Y Cyfrif Cyllid Tai yn unol â'r gyfradd a bennwyd yn y rheoliadau
- Gweddillion Cronfa Ddirprwyedig Ysgolion yn unol â Chynllun y Cyngor ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Leol
- Adnoddau wrth gefn a glustnodwyd os yw'n cael ei dybio'n briodol.

8.2.8 Dyledwyr Cyffredinol

Bydd dyledwyr yn cael eu cydnabod ar y Fantolen a'u mesur yn ôl gwerth teg y swm derbyniadwy pan fo derbyniadau wedi cael eu cydnabod. Ym mwyafrif yr achosion, gwerth teg fydd y gwerth ariannol ond, yn achos dyledwyr hirdymor, bydd y gwerth yn cael ei ddisgowntio yn ôl y gyfradd briodol i adlewyrchu gwerth teg. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Cronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

Lle mae refeniw wedi'i gydnabod ond nad yw arian wedi'i dderbyn, cofnodir dyledwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Lle na ellir setlo dyledion, ysgrifennir cydbwysedd dyledwyr a chodir tâl am refeniw ar gyfer yr incwm na allai gael ei gasglu.

8.2.9 Credydwyr Cyffredinol

Bydd credydwyr yn cael eu cydnabod ar y Fantolen a'u mesur yn ôl gwerth teg y swm taladwy pan gafodd nwyddau eu cyflenwi neu wasanaethau eu rhoi. Ym mwyafrif yr achosion, gwerth teg fydd y gwerth ariannol ond, yn achos credydwyr hirdymor, bydd y gwerth yn cael ei ddisgowntio yn ôl y gyfradd briodol i adlewyrchu gwerth teg. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

8.3 GWEITHREDIADAU CAFFAELEDIG A DARFODEDIG

Bydd incwm a gwariant mewn cysylltiad â gweithrediadau caffaeledig a darfodedig perthnasol yn cael eu dangos ar wahân ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw rwymedigaethau'n cael eu henwi mewn nodiadau ar y Fantolen.

8.4 ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN PAROD

Yn cael eu cynrychioli gan gronfeydd sy'n cael eu dal ar gyfer ymrwymiadau arian parod byrdymor yn hytrach na'u buddsoddi at ddibenion eraill, ac sy'n hawdd eu newid i symiau hysbys o arian parod. Bydd faint o arian parod a chywerthoedd arian parod sy'n cael eu diffinio felly'n cael eu pennu trwy gyfeirio at y rhagolygon llif arian dyddiol.

8.5 BUSNES HYFYW, EITHRIADOL, EITEMAU ANGHYFFREDIN, ADDASIADAU'R FLWYDDYN CYNT

Bydd y Datganiadau Ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw oni bai fod bwriad gan y llywodraeth na fydd y gwasanaethau'n cael eu darparu mwyach.

Eitemau anghyffredin - Ni fydd unrhyw eitemau incwm neu wariant yn cael eu trin fel anghyffredin. Felly, bydd holl eitemau'n cael lle ar un o linellau penodedig y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu'r Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Eitemau eithriadol – pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, bydd eu natur a'u maint yn cael ei ddatgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Oni bai y cymeradwywyd fel arall gan y Cod, bydd addasiadau cyfnod blaenorol perthnasol yn peri ailddatgan ffigurau'r flwyddyn cynt a datgelu'r effaith.

8.6 DIGWYDDIADAU AR ÔL CYFNOD YR ADRODDIAD

Os yw'n berthnasol ar ddyddiad y Fantolen, bydd digwyddiadau perthnasol ar ôl diwedd cyfnod yr adroddiad yn newid y Datganiad Cyfrifon. Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu datgelu gydag amcangyfrif o'r effaith ariannol debygol. O'i newid ar ôl ei gyhoeddi cyn cwblhau archwiliad, bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn ailardystio bod y Datganiad Cyfrifon diwygiedig yn disodli'r un a gyhoeddwyd o'r blaen. Bydd perthnasedd yn cael ei ddiffinio fel y swm a amcangyfrifwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn unrhyw flwyddyn, sef 1% o wariant crynswth ac eitemau sy'n cael eu hystyried o natur sensitif.

8.7 COSTAU AR GYLLID AM ASEDAU ANGHYFREDOL

8.7.1 Enillion wrth Ailbrisio

At ddibenion cyfrifo enillion a cholledion, y gost hanesyddol fydd gwerth presennol asedau unigol ar 31ain Mawrth 2007. Ym mwyafrif yr achosion bydd enillion wrth ailbrisio'n cael eu credydu i'r Gronfa Ailbrisio heblaw pan fo amhariad blaenorol wedi cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dan yr amgylchiadau hyn bydd y cynnydd yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'i gymhwyso i weddill y golled gysylltiedig a gofnodwyd yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill heb ei gymhwyso'n cael ei gredydu i'r Gronfa Ailbrisio.

8.7.2 Colledion Ailbrisio ac Amhariad

Caiff asedau eu hasesu bob blwyddyn am arwyddion o amhariad ac, os oes arwyddion a'r gwahaniaeth mewn gwerth cario'n berthnasol, caiff colled amhariad ei chydnabod (yn unol â'r paragraff isod).

Caiff colledion sy'n deillio o ailbrisiadau ac amhariadau nad oes modd eu llyncu gan enillion ailbrisio cronedig eu codi ar wasanaethau. Heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor bydd hyn yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.7.3 Dibrisiad

Ac eithrio Eiddo Buddsoddi ac Asedau Treftadaeth sydd â bywydau amhenodol, ac Asedau'n Cael eu Hadeiladu nad ydynt mewn defnydd gweithredol, bydd dibrisiad ar holl asedau anghyfredol gyda bywyd defnyddiol cyfyngedig a, phan fo hynny'n berthnasol, bydd cydrannau ar wahân o'r ased yn cael eu nodi at ddibenion dibrisiad.

Bydd gwerth disgowntiedig clir Tai'r Cyngor yn cael ei ddosrannu rhwng tir ac adeiladau cyn cyfrifo dibrisiad.

Bydd y dull llinell syth yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif dibrisiad sydd i'w godi o'r dyddiad pan ddaw'r ased ar gael i'r gwasanaeth priodol i'w ddefnyddio yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor bydd hyn yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.8 BUDDIANNAU CYFLOGEION

8.8.1 Buddiannau yn Ystod Cyflogaeth

Bydd costau cydnabyddiaeth arferol yn cael eu codi fel traul yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Bydd croniad diwedd y flwyddyn yn cael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o unrhyw gostau perthnasol yn deillio o hawl i wyliau heb eu cymryd. Fodd bynnag, heb fod yn daliad at ddibenion trethu, bydd yn cael ei wyrdroi allan yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.8.2 Buddiannau Terfyniad

Bydd buddiannau terfyniad yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Cyngor yn ymroddi'n amlwg i derfynu cyflogaeth.

8.8.3 Cost Pensiynau

8.8.3.1 Cronfa Bensiynau Dyfed – Bydd y polisïau cyfrifyddu perthnasol i'r Gronfa'n cael eu pennu gan yr Awdurdod Gweinyddu, Cyngor Sir Gâr, sy'n cadw cyfrifon y Gronfa ac yn trefnu darparu gwybodaeth actiwaraidd i'r awdurdodau cyfrannog.
Fel awdurdod cyflogi, bydd Cyngor Sir Penfro'n cynnwys costau cyfredol gwasanaethu pensiynau fel y cyfrifwyd gan actiwari'r Gronfa yng nghost gwasanaethau yn unol â gofynion Safon Adroddiadau Ariannol IAS19 oherwydd bod hyn yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiant diffiniedig.
Bydd y taliadau hyn yn cael eu gwyrdroi allan yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd a chynnwys y gwir gyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa er mwyn sicrhau bod y gost gywir yn cael ei chodi ar drethdalwyr y cyngor. Bydd costau pensiynau'n cael eu cynnwys yn y Cyfrif Cyllid Tai i adlewyrchu gofynion IAS19 mor bell ag y bo modd penderfynu'n ddibynadwy.
Bydd asedau a dyledion yn ymwneud â'r Cyngor yn cael eu datgelu ar y Fantolen.

8.8.3.2 Cynllun Pensiynau Athrawon – Yn achos athrawon, mae pensiynau "heb gronfa" a chânt eu talu o gyfraniadau blynyddol ac, felly, ni fydd unrhyw gyfrifoldeb dros fuddiannau'r dyfodol yn cael ei gydnabod ym Mantolen y Cyngor. Mae'r cynllun yn cael ei gyfrif amdano fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chaiff cyfraniadau taladwy'r Cyngor eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfunol.

8.9 STOCIAU A GWAITH AR Y GWEILL

Bydd stociau yn storfeydd y Cyngor yn cael eu prisio fel yr isaf o gost a gwerth gwireddadwy net. Bydd gwaith ar y gweill, gyda'r Cyngor fel contractwr, yn cael ei brisio yn ôl gwerth teg swm y contract sy'n dderbyniadwy.

8.10 FINANCIAL INSTRUMENTS

Dosbarthiad Offerynnau Ariannol
Mabwysiadodd yr Awdurdod Offerynnau Ariannol IFRS 9 o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae 3 newid allweddol:

- **Ail-fesur benthyciadau wedi'u haddasu**

Mae'r Cyngor yn amorteiddio cost premiwm a gostyngiadau sy'n gysylltiedig ag aildrefnu dyledion gan ddefnyddio'r *override* statudol gydag unrhyw symiau heb eu hamorteiddio yn cael eu dangos yn y cyfrif *override* statudol (FIAA). Adolygwyd y driniaeth hon fel rhan o fabwysiadu IFRS 9. Mae'r Cyngor wedi defnyddio triniaeth gyfrifo briodol ac o ganlyniad nid oes angen newid triniaeth wrth drosglwyddo i Offerynnau Ariannol IFRS 9.

- **Amhariad ar Asedau Ariannol**

Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd llif arian yn digwydd oherwydd y gallai'r benthyciwr fethu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau. Cydnabyddir hyn yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaeth fel amhariad ar enillion neu golled.
Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd syml tuag at amhariad yn unol â'r Cod ac mae'n mesur y golled ar gyfer Dyledwyr Masnach yn ôl swm sy'n hafal i golled oes ddisgwyliedig gan

ddefnyddio darpariaeth yn seiliedig ar gyfuniad o oed dyled a chyfraddau casglu hanesyddol. Mae'r dull hwn yn sicrhau cydnabyddiaeth gynnar o amhariad ar yr ased ariannol.
Mae benthyciadau i Drydydd Parti wedi'u hadolygu'n ofalus o dan y model colled credyd disgwyliedig newydd i sicrhau bod unrhyw golled credyd yn cael ei gydnabod yn gynnar. O ystyried gwybodaeth hanesyddol, gyfredol a blaengar nid oes gofyniad i gydnabod unrhyw golled credyd.
Ni fu unrhyw newid o ganlyniad i weithredu IFRS 9.

- **Dosbarthiad Offerynnau Ariannol**

Mae dosbarthiad Asedau Ariannol bellach yn cael eu pennu gan eu nodweddion a'r model busnes y cawsant eu caffael oddi tanynt. Mae yna 3 model:

a) Cost Amorteiddiedig

Mae'r ased ariannol yn cael ei ddal mewn model busnes a'i nod yw dal asedau ariannol er mwyn "casglu llif arian cytundebol". Taliadau o brif [gyfrifon] a llog yn unig yw llif arian.

b) Gwerth Teg Trwy Incwm Cynhwysfawr Arall

Mae'r ased ariannol yn cael ei ddal o fewn model busnes y mae ei amcan yn cael ei gyflawni trwy "gasglu llif arian cytundebol a gwerthu asedau ariannol"

c) Gwerth Teg Trwy Elw a Cholled

Pob cyfuniad arall o fodel busnes a llif arian cytundebol.

Offerynnau Ariannol	Cost Amorteiddiedig	Gwerth Teg (CI)	Gwerth Teg (P&L)
Asedau Ariannol			
Buddsoddiadau Tymor Byr	✓		
Galwad Banc / Cyfwerth ag Arian Parod	✓		
Dyledwyr			✓
Rhwymedigaethau Ariannol			
Benthyca Tymor Byr	✓		
Benthyca Hirdymor	✓		

Ar ôl yr adolygiad, nid oes angen newid triniaeth wrth drosglwyddo i IFRS 9.

8.10.1 Ymrwymiadau Ariannol

8.10.1.1 Cydnabod a Mesur

Bydd benthyca'n cael ei gydnabod pan gaiff yr arian parod ei dderbyn oddi wrth y rhoddwr benthyg a bydd yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl gwerth teg, sef amcangyfrif o gost adbrynu'r ddyled.
Yn gyffredinol, bydd portffolio dyledion y Cyngor yn cael ei ddosbarthu a'i gofnodi ar y Fantolen fel ymrwymiad ariannol yn cael ei ddal am y gost wedi'i hamorteiddio. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd y ddyled a gododd y Cyngor o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn cael ei chofnodi fel y prifswm ad-daladwy ynghyd â'r llog cronedig ar ddyddiad y Fantolen. O ran benthyciadau'r farchnad bydd y gwerth wedi'i amorteiddio'n cael ei amcangyfrif trwy addasu y gwerth aeddfedu i gyfrif llog cronedig ynghyd ag addasiad (addasiad cyfradd log effeithiol) i lyfnu effaith unrhyw daliadau llog neu bremiwm grisiog sy'n ddyledus dros fywyd y benthyciadau. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud drwy'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a, heb fod wedi'i gyllido o adnoddau cyllid, bydd y swm yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.
Yn achos benthyciadau Opsiynau Rhoddwyr a Chymerwyr Benthyg (LOBO) bydd yn cael ei gymryd yn ganiataol y bydd y benthyciad yn parhau am eu cyfnod cytundebol llawn wrth gyfrifo'r addasiad, oni bai y cafwyd rhybudd gan y rhoddwr benthyg y bydd y benthyciad yn cael ei alw'n ôl yn gynharach.
Bydd y portffolio dyledion, wedi'i fesur yn ôl gwerth teg, yn cael ei hysbysu mewn nodyn ar y Fantolen yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn.
Bydd unrhyw fenthyciadau di-log neu fenthyciadau a gymrwyd islaw cyfraddau'r farchnad yn cael eu hysbysu yn unol â pholisi cyfrifyddu 8.10.2.

8.10.1.2 Datgydnabod, Enillion a Cholledion Adbrynu Cynnar

Pan gaiff benthyciad ei adbrynu a/neu ei ddisodli / addasu'n sylweddol, bydd yr ymrwymiad yn cael ei drin fel pe bai wedi'i ddiddymu a'r benthyciad yn cael ei ddileu o'r Fantolen. Bydd unrhyw enillion a cholledion wrth ad-dalu neu dalu benthyciadau'n ôl yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr adbrynu / setliad.

Fodd bynnag, mae rheoliadau'n caniatáu gwasgaru'r effaith ar Weddill y Gronfa Gyffredinol dros flynyddoedd a ddaw. Bydd y cynnydd / golled yn cael ei wasgaru dros y cyfnodau a bennwyd yn y rheoliadau. Bydd cysoni rhwng symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r taliad clir sy'n ofynnol yn ôl rheoliad yn erbyn Gweddill y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Pan fo ad-daliad wedi digwydd fel rhan o ad-drefnu'r portffolio benthyciadau sy'n golygu newid neu gyfnewid offerynnau presennol nad yw'n sylweddol, bydd y premiwm neu ostyngiad yn cael ei dynnu o neu ychwanegu at gost y benthyciad newydd neu addasedig wedi'i hamorteiddio a bydd y trosglwyddiad i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei wasgaru dros fywyd y benthyciad a newidiwyd trwy addasiad i'r gyfradd log effeithiol.

Diffiniad wedi'i addasu'n sylweddol fydd pan fo gwerth presennol llif arian clir (gan gynnwys premiymau a gostyngiadau) y trefniant newydd o leiaf 10% yn wahanol i werth presennol disgowntiedig gweddill y llifau arian dan y trefniant gwreiddiol.

Bydd addasiadau priodol yn deillio o adennill dyledion yn cael eu gwneud i Ddatganiadau'r Cyfrif Cyllid Tai yn unol â'r penderfyniad statudol perthnasol.

8.10.2 Benthyciadau Meddal

8.10.2.1 Benthyciadau

Pan fo'r Cyngor yn rhoi benthyciadau sy'n ddi-log neu islaw cyfraddau'r farchnad, bydd y benthyciad yn cael ei gofnodi i ddechrau yn ôl gwerth teg yn y cyfrifon trwy ddisgowntio derbyniadau arian parod y dyfodol yn ôl cyfradd gyfredol y farchnad a chodi'r gwahaniaeth rhwng yr arian a fenthycwyd a'i werth yn y farchnad (colli llog) ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Bydd llog y farchnad sy'n ddyledus ymhob blwyddyn yn cael ei gyfrifo ar y gweddill disgowntiedig gan ddefnyddio cyfradd y farchnad a'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Bydd cynnydd yn y llog a llog y farchnad, neu'r gwahaniaeth rhwng llog y farchnad a chytundebol, heb fod yn gostau priodol ar Gronfa'r Cyngor, yn cael eu gwyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

8.10.2.2 Cymryd benthyg

Pan fo'r Cyngor yn cymryd benthyg arian yn ddi-log neu islaw cyfraddau'r farchnad, bydd y benthyciad yn cael ei gofnodi i ddechrau yn ôl gwerth teg yn y cyfrifon trwy ddisgowntio'r ad-daliadau arian parod yn y dyfodol yn ôl cyfradd gyfredol y farchnad a chredydu'r gwahaniaeth rhwng y benthyciad a'i werth yn y farchnad (ennill llog) i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Bydd llog y farchnad sy'n ddyledus ymhob blwyddyn yn cael ei gyfrifo ar y gweddill disgowntiedig gan ddefnyddio cyfradd y farchnad a'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Bydd y disgownt a llog y farchnad, neu'r gwahaniaeth rhwng llog y farchnad a chytundebol, heb fod yn gostau priodol ar Gronfa'r Cyngor, yn cael eu gwyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

8.10.3 Buddsoddiadau

8.10.3.1 Cydnabod a Mesur

Bydd buddsoddiad yn cael ei gydnabod pan fo gan bwy bynnag sydd i dderbyn yr arian parod hawl gytundebol i'r ased a bydd yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl gwerth teg, sef amcangyfrif o'r swm derbyniadwy pe bai'r buddsoddiad yn cael ei sylweddu. Bydd y portffolio buddsoddiadau, yn cael ei

fesur yn ôl gwerth teg, yn cael ei hysbysu mewn nodyn ar y Fantolen yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn.
Yn gyffredinol bydd portffolio buddsoddiadau'r Cyngor yn cael ei ddosbarthu fel benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd y buddsoddiadau sydd gan y Cyngor gydag eraill cymeradwy yn cael eu hysbysu yn ôl gwerth wedi'i amorteiddio trwy addasu'r prifsymiau a fuddsoddwyd i ganiatáu cyfartalu'r ddychweleb dros fywyd y buddsoddiad. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud drwy'r Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

Bydd unrhyw fuddsoddiadau ar gael i'w gwerthu'n cael eu hysbysu yn ôl gwerth teg yn unol ag IFRS13.

8.10.3.2 Datgydnabod, Enillion a Cholledion

Pan fo buddsoddiad yn cael ei sylweddu bydd yr ased yn cael ei ddileu o'r Fantolen. Nid yw'r mathau o fuddsoddiad sy'n gymeradwy i'r Cyngor yn caniatáu unrhyw gynnydd neu golled ar y farchnad. Os digwydd colled yn deillio o fethiant gwrthbarti, bydd darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae rheoliad yn caniatáu.

8.10.4 Sail Taliadau ar gyfer Ad-dalu Dyledion

Bydd y lleiafswm (MRP) sy'n cael ei farnu'n ddoeth yn cael ei godi ar y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r HRA yn unol â chanllawiau statudol ac ar sail y Polisi Blynyddol Isafswm Darpariaeth Refeniw i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

8.10.5 Contractau Gwarantu Benthyciadau Ariannol

8.10.5.1 Cydnabod

Bydd gwarantau perthynol i allu rhywun arall i ad-dalu dyled yn cael eu cydnabod yn ôl gwerth teg trwy godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a sefydlu Cronfa Atebolrwydd Ariannol.

8.10.5.2 Mesur

Os na chaiff premiwm ei godi ar bwy bynnag sy'n ceisio'r warant, bydd y swm yn cael ei amcangyfrif trwy ystyried tebygolrwydd galw ar y warant. Caiff unrhyw swm sy'n cael ei warantu ei ailasesu a/neu ei amorteiddio bob blwyddyn i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.

8.11 DYLEDION GOHIRIEDIG

Bydd dyledion sydd, trwy drefniant, yn daladwy rywbryd yn y dyfodol trwy swm blynyddol dros gyfnod yn cael eu dangos ar wahân a'u dosbarthu fel dyledion hirdymor ar y Fantolen.

8.12 TROSI ARIAN TRAMOR

Pan fo'r Awdurdod wedi cyfranogi mewn trafodiad a nodwyd mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar y dyddiad yr oedd y trafodiad yn effeithiol. Pan fo symiau mewn arian tramor yn aros yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn, cânt eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid ar 31 Mawrth. Caiff enillion neu golledion canlyniadol eu cydnabod ar linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.13 GRANTIAU'R LLYWODRAETH A CHYFRANIADAU ERAILL

8.13.1 Cyffredinol

Bydd grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill yn cael eu cyfrif amdanynt ar sail croniadau, ar ôl cydymffurfio ag amodau eu derbyn a phan fo sicrwydd rhesymol y bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei dderbyn.

8.13.2 Grantiau a Chyfraniadau Cyllid

Pan fo grant neu gyfraniad cyllid wedi'i dderbyn, ac amodau'n disgwyl sylw ar ddyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei gydnabod fel derbyniad o flaen llaw. Pan fo amodau'r grant yn cael eu cyflawni bydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel incwm a'i gyfateb yn y cyfrifon cyllid gwasanaethau gyda'r gwariant y mae'n berthnasol iddo. Bydd grantiau a chyfraniadau cyffredinol, e.e. Grant Cynnal Cyllid, ailddosbarthiad NNDR yn cael eu datgelu fel un neu fwy o eitemau ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.13.3 Grantiau a Chyfraniadau at Ddibenion Cyfalafol

Pan fo grant neu gyfraniad cyfalaf wedi'i dderbyn, ac amodau'n disgwyl sylw ar ddyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei gydnabod fel rhan o'r Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw. Pan fo'r amodau wedi cael eu cyflawni, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei drosglwyddo o'r Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw a'i gydnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel incwm grantiau amhenodol.

Nid yw grantiau a chyfraniadau sy'n cyllido gwariant cyfalaf ac Asedau Rhoddedig a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn incwm priodol i'r Gronfa Gyffredinol neu'r Cyfrif Cyllid Tai a bydd cyfrif am y symiau hyn fel a ganlyn:

- Os gwnaed y gwariant sydd i'w gyllido o'r grant neu gyfraniad hwnnw erbyn dyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol (neu'r Cyfrif Cyllid Tai) i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, gan adlewyrchu cymhwyso adnoddau cyfalaf i gyllido gwariant. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.
- Pan na wnaed y gwariant sydd i'w gyllido o'r grant neu gyfraniad hwnnw erbyn dyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig (yn adran cronfeydd defnyddiadwy'r Fantolen), gan adlewyrchu ei statws fel adnodd cyfalafol ar gael i gyllido gwariant. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Rywbryd yn y dyfodol, pan fydd y gwariant yn digwydd, bydd y grant neu gyfraniad (neu ran ohono) yn cael ei drosglwyddo o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, gan adlewyrchu cymhwyso adnoddau cyfalaf i gyllido gwariant. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.13.4 Ad-dalu

Bydd unrhyw ad-daliad yn cael ei gymhwyso'n gyntaf i unrhyw dderbyniad neu gyfraniad a gafwyd o flaen llaw. I'r graddau y mae'r ad-daliad yn fwy nag unrhyw dderbyniad o'r fath o flaen llaw, neu os nad oes unrhyw dderbyniad o flaen llaw'n bodoli, bydd yr ad-daliad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul. Bydd ad-daliad grant cyfalaf yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol (neu'r Cyfrif Cyllid Tai) i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.14 ASEDAU ANGHYFREDOL

8.14.1 Cydnabyddiaeth

Bydd holl wariant ar gaffael, creu neu wella asedau anghyfredol yn cael ei gyfalafu yn y cyfrifon ond bod yr ased anghyfredol yn dod â buddiannau economaidd i'r Awdurdod yn y dyfodol a'r gwasanaethu sy'n cael eu darparu ganddo'n para am gyfnod o fwy na blwyddyn a bod modd ei fesur yn ddibynadwy. Bydd y costau hyn yn cynnwys gwariant dilynol sy'n gwella, disodli (rhan neu'r cyfan) neu wasanaethau'r ased.

Bydd cost gwaith atgyweirio a chynnal arferol sydd heb fod yn adeileddol cysylltiedig â gweithredu'r asedau sefydlog yn cael ei godi'n uniongyrchol ar gyfrifon cyllid gwasanaethau.

- Rhaid cyfrif am gydrannau tir ac adeiladau asedau anghyfredol ar wahân. Bydd asedau'n cael eu cydnabod ar sail cydrannau pan fo:
- cydran unigol yn berthnasol i gost a/neu weithredu'r ased hwnnw a bod amcangyfrif o fywyd defnyddiol y gydran honno'n sylweddol wahanol i gydrannau eraill yr ased.

Pan gaiff cydrannau eu disodli neu adfer, bydd y symiau cario presennol ar y Fantolen yn cael eu hanghydnabod cyn cydnabod y gydran newydd.

8.14.2 Dosbarthiad

Eiddo, Peiriannau ac Offer – yn cwmpasu holl asedau gyda sylwedd diriaethol (asedau diriaethol) sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, ar rent i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, a disgwyl eu defnyddio yn ystod mwy nag un cyfnod.
Eiddo Buddsoddi – yn cael ei ddal yn unig i ennill rhenti neu at ddibenion cynnydd cyfalaf neu'r ddau, i gael ei ddosbarthu fel Eiddo Buddsoddi.
Asedau Treftadaeth – yn cael eu dal a'u cynnal yn bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant, a'u cadw mewn ymddiried ar ran cenedlaethau a ddaw.
Asedau Rhoddedig – i gael eu cynnwys yn y dosbarth asedau priodol ar sail defnydd.

8.14.3 Prisio Dechreuol

Gwerthoedd Asedau Anghyfredol – i gael eu cydnabod i ddechrau am y gost gan gydnabod holl wariant ar sail croniadau sydd i'w briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'w ddefnydd arfaethedig (RIBA cyfnod 3 ymlaen fel arfer).
Asedau Rhoddedig neu Asedau a Gyfnewidiwyd am Gydnabyddiaeth Heblaw Arian. Pan nad oes unrhyw amodau cysylltiedig â'r ased yn aros i'w cyflawni, bydd gwerth teg yr ased yn cael ei gydnabod ar y Fantolen ac yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yr olaf yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf trwy'r Datganiad Symudiad Cronfeydd. Pan fo amodau ar ased rhoddedig, bydd yr ased yn cael ei gydnabod ar y Fantolen ac yn y Cyfrif Asedau Rhoddedig hyd nes caiff yr amodau eu cyflawni.
Asedau Treftadaeth – i gael eu prisio am y gost neu werth, trwy ddull priodol, os oes un ar gael.

8.14.4 Prisio Dilynol

Bydd mesur ar ôl cydnabyddiaeth ar y sail a argymhellwyd gan CIPFA ac yn unol â'r Egwyddorion Datganiadau Prisio Asedau a Nodiadau Esboniadol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS):

- Bydd gwerth presennol Eiddo'n cael ei gynnwys ar y Fantolen, i'w ddiffinio fel yr isaf o werth gwireddadwy net yn ei ddefnydd presennol neu, yn absenoldeb marchnad weithredol oherwydd natur arbenigol yr ased, y gost amnewid ddibrisiedig.
- Bydd cost hanesyddol Peiriannau ac Offer yn cael ei gario am fel dirprwy dros werth presennol.
- Bydd gwerth presennol Tai'r Cyngor yn cael ei gynnwys ar y Fantolen yn eu defnydd presennol fel tai cymdeithasol sydd i'w ddeillio trwy ostwng gwerth y farchnad yn ôl ffactor sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng rhenti masnachol a chymdeithasol.
- Bydd gwerth teg Eiddo Buddsoddi'n cael ei gynnwys ar y Fantolen, i'w ddiffinio fel faint fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd uchaf a gorau llai cost ei werthu yn unol â gofynion IFRS13. Bydd asedau'n cael eu hailbrisio i werth teg cyn cael eu hailddosbarthu'n Eiddo Buddsoddi neu Asedau Mewn Llaw i'w Gwerthu.
- Bydd gwerth teg asedau dros ben yn cael ei gynnwys ar y fantolen, i'w ddiffinio fel faint fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd uchaf a gorau llai cost ei werthu yn unol â gofynion IFRS13.
- Bydd cost hanesyddol glir o ddibrisiad pan fo hynny'n briodol isadeiledd, asedau cymunedol, ac asedau'n cael eu hadeiladu at ddefnydd gweithredol, yn cael ei chynnwys ar y Fantolen.
- Bydd gwerth presennol unrhyw asedau a gafwyd am gydnabyddiaeth heblaw arian yn cael ei gynnwys ar y Fantolen.
- Yn gyffredinol bydd Asedau Treftadaeth yn cael eu prisio am eu cost hanesyddol neu drwy ddefnyddio'u gwerth a yswiriwyd fel dirprwy dros werth presennol.
- Ni fydd ailbrisio'n digwydd ar adeg gwared.

Bydd prisio'n digwydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd dreigl gyda newidiadau mewn gwerthoedd yn cael eu gwneud yn y flwyddyn pan fyddant yn digwydd, a 31ain Mawrth fel y dyddiad gweithredol. Bydd newidiadau sylweddol ym mhatrwm treuliant economaidd sy'n digwydd i unrhyw ased sylweddol neu grŵp o asedau yn unrhyw flwyddyn yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn honno.
Bydd yr asedau'n cael eu prisio gan brisiwr penodedig y Cyngor a fydd â chymwysterau priodol.

8.14.5 Bywyd Asedau

Bydd gweddill bywyd defnyddiol asedau, wedi'i amcangyfrif ar sail cydrannau os yw hynny'n briodol, yn adlewyrchu cyfnod gweddill defnydd disgwyliedig yr ased i'r Awdurdod a bydd yn cael ei benderfynu trwy ystyried y defnydd disgwyliedig, traul ffisegol, oed, anarferiant, math o adeiledd, cyflwr, atgyweiriad a gwelliant, a chyfyngiadau cyfreithiol neu debyg ar ddefnyddio'r ased (e.e. terfyn prydlesi).
Bydd amcangyfrifon o weddill bywydau defnyddiol yn cael ei wneud bob blwyddyn, os yw hynny'n briodol, a phob tro y caiff yr ased ei ailbrisio.

8.14.6 Mân Wariant

Bydd gwariant mwy na £10,000 neu wariant ar asedau gyda bywyd defnyddiol uwchlaw 12 mis yn cael ei gyfalafu.

8.15 ASEDAU ANNIRIAETHOL

Yn gyffredinol, bydd gwariant ar bethau anniriaethol a brynwyd yn allanol ac asedau anniriaethol a ddatblygwyd yn fewnol yn cael eu codi ym mlwyddyn ei wario dan bennawd y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, yn achos asedau a ddatblygwyd yn fewnol, os oes tystiolaeth bod marchnad barod yn bodoli ac, yn y ddwy enghraifft, bod modd sicrhau amcangyfrif o fywyd defnyddiol cyfyngedig, bydd gwerth presennol yr ased yn cael ei hysbysu ac mae modd ei ddileu dros gyfnod sy'n gyson â threuliant buddiannau economaidd; bydd priodoldeb y cyfnod amorteiddio'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

8.15.1 Ymchwil a Datblygiad

Bydd gwariant ar ymchwil a datblygiad yn cael ei ystyried fel rhan o weithrediadau sy'n parhau a'i ddileu fel arfer pan fydd yn digwydd.

8.16 CYFALAFU COSTAU BENTHYCA

Mae modd cyfalafu costau benthyca sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chomisiynu ased sy'n cymryd mwy na 12 mis i fod yn barod ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig. Heblaw benthyca a glustnodwyd yn benodol ar gyfer prosiect, bydd y costau benthyca perthnasol yn cael eu penderfynu trwy gyfrifo cyfradd gyfalafu, sef cyfartaledd pwysol y costau benthyca cysylltiedig sydd heb eu talu am y cyfnod dan sylw.

Bydd unrhyw gostau benthyca sy'n cael eu cyfalafu yn unrhyw flwyddyn yn cael eu datgelu ar wahân.

8.17 CYLLIDO GWARIANT CYLLIDOL O GYFALAF TRWY STATUD

Bydd taliadau sydd dan ddeddfwriaeth yn cael eu cyllido o adnoddau cyfalaf ond heb greu unrhyw asedau sefydlog yn cael eu codi ar y gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Oherwydd nad yw'n cael ei gyllido o adnoddau cyllid, bydd y swm yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd gyda swm cyfartal yn cael ei godi ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.18 ASEDAU MEWN LLAW I'W GWERTHU

Bydd asedau sy'n cyrraedd pob un o'r meini prawf canlynol yn cael eu dangos fel asedau cyfredol ar y Fantolen:

Mae'r ased (neu grŵp gwared) ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol yn amodol ar delerau sy'n arferol ac arferedig ar gyfer gwerthu asedau (neu grwpiau gwared) o'r fath.
Mae'r gwerthiant yn debygol dros ben; yr haen reoli briodol yn ymrwymo i gynllun i werthu'r ased (neu grŵp gwared) a rhaglen weithredol i leoli prynwr a chwblhau'r cynllun wedi'i ddechrau.
Mae'r ased (neu grŵp gwared) cael ei farchnata'n weithredol i'w werthu am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i werth teg.
Mae disgwyl i'r gwerthiant gael ei gydnabod fel gwerthiant cyflawn cyn pen blwyddyn o ddyddiad ei ddosbarthu a'r camau gofynnol i gwblhau'r cynllun yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r cynllun neu y bydd y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl.
Os nad yw'r meini prawf uchod yn cael eu cyrraedd bydd yr ased yn dal i gael ei gyfrif yn y categori asedau anghyfredol priodol.

8.19 GWARED ASEDAU

Bydd enillion gwaredu a'r gwerth cario'n cael eu cofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn ôl eu trefn. Bydd unrhyw weddill ar y Gronfa Ailbrisio o ran yr ased a waredwyd yn cael ei ddileu'n uniongyrchol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.
Yn achos Asedau Rhoddedig, bydd unrhyw weddill ar y Cyfrif Asedau Rhoddedig yn cael ei gydnabod fel diffyg neu warged yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel Gwariant Gweithredu Arall. Heb fod yn cael ei gyllido o adnoddau cyllid neu incwm cyllid bydd y swm yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd gyda swm cyfartal yn cael ei godi ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.
Bydd y derbyniadau o wared asedau Tai'r Cyngor yn cael ei roi o'r neilltu fel darpariaeth ar gyfer ad-dalu dyledion HRA yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd arian a dderbyniwyd o werthu tai cyngor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddogaethau'r Cyfrif Cyllid Tai yn unig.
Bydd llog a enillwyd ar fuddsoddi derbyniadau cyfalaf mewn llaw yn cael ei gredydu i Gronfa'r Cyngor.
Nid oes modd trin derbyniadau dan £10,000 a derbyniadau amrywiol heb fod yn perthyn i werthu asedau fel eitemau cyfalaf a byddant yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'u neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.20 PRYDLESI A THREFNIADAU PRYDLESOL

8.20.1 Cydnabod a Dosbarthu

Bydd prydlesi a threfniadau ariannol tebyg yn cael eu dosbarthu naill ai fel prydlesi cyllidol neu brydlesi gweithredol. Diffiniwyd prydlesi cyllidol fel trefniadau lle bydd holl beryglon a gwobrau sy'n cyd-fynd â pherchenogaeth yn trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai ond bod teitl yn gallu trosglwyddo maes o law neu beidio. Bydd prydlesi gweithredol yn cael eu diffinio fel holl drefniadau prydlesol eraill. Wrth ystyried prydlesi eiddo, bydd tir ac adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân at ddibenion dosbarthu, gyda thir sydd â bywyd bythol yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel prydles weithredol.

8.20.2 Caffaeliadau (y Cyngor fel prydlesai)

Prydlesi Cyllidol – fydd yn cael eu cofnodi ar y Fantolen fel asedau a dyledion cyfartal yn y categori priodol yn ôl gwerth teg yr eiddo neu, os yw'n is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles – y gyfradd ddisgowntio berthnasol yw'r un ymhlyg yn y brydles. Ar ôl hynny mae asedau'n agored i ailbrisio a dibrisio yn unol â Pholisi Cyfrifyddu 8.14.
Bydd y ddyled gyfalafol sydd heb ei thalu'n cael ei lleihau yn ôl elfen gyfalaf y tâl rhentu. Bydd swm cyfartal â'r ad-daliad cyfalaf blynyddol yn cael ei gynnwys yn yr isafswm darpariaeth refeniw sy'n cael ei neilltuo o'r cyfrif cyllid bob blwyddyn.
Bydd y taliad cyllid yn cael ei godi ar gyfrif cyllid y gwasanaeth ar sail gyson dros gyfnod y brydles.
Prydlesi Gweithredol – bydd cyfan y rhent taladwy dan brydlesi gweithredol yn cael ei godi ar gyfrif cyllid y gwasanaeth priodol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

8.20.3 Gwarediadau (y Cyngor fel prydleswr)

Prydlesi Cyllidol – bydd asedau sy'n cael eu gwared dan brydlesi cyllidol yn cael eu dileu o'r Fantolen a chydnabod swm ar y Fantolen fel dyled dderbyniadwy sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad clir yn y brydles yn ôl diffiniad y safon gyfrifyddu briodol.

Bydd elfen gyfalaf unrhyw rent dyladwy dan brydles gyllidol yn cael ei gyfrif fel derbyniad cyfalaf, y dyledwr a'r ddyled gyfartal yn cael eu lleihau'r un faint. Bydd yr elfen gyllid yn cael ei thrin fel incwm cyllid.

Prydlesi Gweithredol – bydd asedau ar rent dan brydlesi gweithredol yn cael eu dangos yn y categori priodol ar y Fantolen a'u dibrisio yn unol â pholisi cyfrifyddu arferol.

Bydd incwm dyledus dan brydlesi gweithredol yn cael eu trin fel incwm cyllid a'i gydnabod ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

8.20.4 Trefniadau Gwerthu a Phrydlesu'n Ôl

Os caiff ased ei werthu a'i brydlesu'n ôl bydd y polisi canlynol yn berthnasol:

Os dosbarthwyd y trefniant prydlesu'n ôl fel prydles gyllidol, nid oes modd ystyried y trafodiad fel gwarediad gwirioneddol, a bydd unrhyw dderbynion gwerthiant sydd uwchlaw swm cario'r ased yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y brydles ar y sail bod y prydleswr yn darparu cyllid i'r Cyngor.

Os dosbarthwyd y trefniant prydlesu'n ôl fel prydles weithredol, a'r ddau drafodiad yn ôl gwerth teg, bydd unrhyw dderbynion gwerthiant uwchlaw ased a brisiwyd yn ôl gwerth teg yn cael ei gydnabod fel incwm ym mlwyddyn y gwarediad. Os yw'r pris gwerthu uwchlaw gwerth teg, bydd unrhyw dderbynion gwerthiant uwchlaw swm cario'r ased yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y brydles. Os yw'r pris gwerthu islaw gwerth teg, bydd unrhyw golled yn cael ei chydnabod ar unwaith.

8.20.5 Trefniadau'n Cynnwys Prydles

Bydd trefniadau, heblaw'r rhai a wnaed yn benodol dan drefniadau Menter Cyllid Preifat neu Bartneriaeth Cyhoeddus Preifat, sy'n trawsgludo hawl i ddefnyddio ased yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn cynnwys trefniant prydlesu cynhenid gyferbyn â meini prawf yr ased sydd angen ei ddefnyddio i gyflawni telerau'r trefniant a bod y trefniant yn trawsgludo'r hawl i ddefnyddio'r ased hwnnw. Os mai'r farn yw bod trefniant yn cynnwys prydles, yna bydd y polisïau uchod ar brydlesu'n berthnasol.

8.21 CYNLLUNIAU MENTER CYLLID PREIFAT

O ran y cynllun PFI yr aethpwyd iddo yn ystod 2000-01, pan gaiff ei ystyried bod yr asedau dan reolaeth y Cyngor, byddant yn cael eu cydnabod ar y Fantolen dan y categori asedau priodol a'u hamharu a'u dibrisio yn unol â pholisi 8.14 uchod. Bydd dyled gyfalafol gysylltiedig yn cael ei chydnabod ar yr un pryd a'i lleihau yn ôl elfen gyfalaf y taliad i weithredwr y PFI. Bydd y swm hwn yn cael ei ddefnyddio fel dirprwy dros ddibrisio'r ased a bydd swm cyfartal yn cael ei gynnwys yn yr isafswm darpariaeth refeniw a neilltuwyd o gyfrif cyllid y gwasanaeth bob blwyddyn.

Bydd yr elfen gyllid sy'n ddyledus i'r gweithredwr yn cael ei deillio o'r gyfradd log ymhlyg yn y contract ac, ynghyd â thaliadau eraill sy'n daladwy i'r gweithredwr, bydd yn cael ei chodi ar adran gwasanaeth priodol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw daliadau adnewyddu ar ddiwedd bywyd y mae modd eu nodi'n ddibynadwy yn y contract yn cael eu cydnabod fel rhagdaliad ar y Fantolen hyd nes bydd gwariant gan y gweithredwr. Bydd addasiad rhwng gwir gost a thaliad yn cael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw gontractau yn y dyfodol yn cael eu hasesu yng ngoleuni'r safonau ac arferion cyfrifyddu perthnasol i benderfynu a oes angen i'r Cyngor gydnabod ased a dyled gyfalafol yn ei gyfrifon neu beidio.

8.22 CYFRIFON GRŴP

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn adolygu ei fuddiannau a dylanwad ymhob math o endid gan gynnwys, ond heb fod wedi ei gyfyngu i, awdurdodau lleol eraill a chyrff statudol tebyg, Cronfeydd Ymddiried er lles pawb, cwmnïau, Cydbwyllgorau a threfniadau eraill ar y cyd. Pan fo hynny'n briodol, bydd cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi'n unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

8.23 GWEITHREDIADAU AR Y CYD

Gweithrediadau ar y cyd yw trefniadau lle mae gan y partïon sy'n rheoli'r trefniant ar y cyd hawliau i'r asedau a thros y rhwymedigaethau cysylltiedig â'r trefniant. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan yr Awdurdod ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r gweithredwyr ar y cyd hynny. Mewn cysylltiad â'i fudd mewn gweithrediad ar y cyd, mae'r Awdurdod fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod y canlynol:

- Ei asedau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau sy'n cael eu dal ar y cyd
- Ei rwymedigaethau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau ar y cyd
- Ei dderbyniadau o werthu ei gyfran o'r hyn sy'n deillio o'r gweithrediad ar y cyd
- Ei gyfran o'r derbyniadau o werthu'r hyn sy'n deillio trwy'r gweithrediad ar y cyd
- Ei dreuliau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw dreuliau ar y cyd.

8.24 PARTÏON PERTHYNOL

Bydd y datgeliadau canlynol yn cael eu gwneud o ran trafodion busnes perthnasol gyda phartïon perthynol na ddatgelwyd yn unman arall yn y Datganiad Cyfrifon:
Natur y berthynas a'r dylanwad gan neu ar y Cyngor
Croniad y trafodion yn ystod y flwyddyn yn dangos symiau taladwy a derbyniadwy ar wahân
Gweddillion sy'n ddyledus ar 31ain Mawrth.

8.25 PENADUR AC ASIANT

Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel asiant, ni fydd unrhyw drafodion yn ymddangos yn ei Ddatganiadau Ariannol oni bai fod y Cyngor yn casglu a dosbarthu arian parod ar ran y penadur, pan fydd y trafodion ariannol priodol yn cael eu hadlewyrchu ar y Fantolen

8.26 GWEDDILLION A CHRONFEYDD GWEITHREDOL

8.26.1 Dosbarthiad

Bydd cronfeydd yn cael eu dosbarthu fel defnyddiadwy, trwy fod ar gael i gynnal gwariant yn y dyfodol, neu annefnyddiadwy, sef y rhai sydd eu hangen at ddibenion cyfrifyddu ariannol.

8.26.2 Cronfeydd Defnyddiadwy

Cronfa'r Cyngor fydd gweddill ac adnoddau wrth gefn y Gronfa Gyffredinol, gweddill ac adnoddau wrth gefn y Cyfrif Cyllid Tai, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau a chyfraniadau defnyddiadwy a gweddillion RhYLl (Ysgolion).
Bydd gweddillion gweithredol yn cael eu cynnal yn y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Cyllid Tai o feintiau sy'n cael eu hystyried yn ddoeth ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.
Bydd gweddillion gweithredol yn cael eu cynnal ar gyfer ysgolion yn unol â chynllun a rheoliadau RhYLl cymeradwy'r Cyngor.
Y Strategaeth ar Ddal a Defnyddio Cronfeydd fydd yn llywodraethu creu, rheoli a defnyddio holl gronfeydd.
Bydd y gwariant a gyllidwyd o gronfeydd yn cael ei ddangos, pan fydd yn cael ei wario, yn adran y gwasanaeth priodol Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Bydd yr amgylchiadau canlynol yn caniatáu neilltuo symiau o refeniw:

- Ymrwymiadau perthnasol yn bodoli ar gyfer nwyddau a gwasanaethau heb eu derbyn na thalu amdanynt erbyn 31ain Mawrth.
- Hwyluso treiglo cyllid i flynyddoedd a ddaw er mwyn sicrhau defnyddio adnoddau'n gost-effeithiol a chaniatáu ar gyfer amrywiad yn y galw am wasanaeth o flwyddyn i flwyddyn.
- Neilltuo adnoddau ar gyfer datblygiadau i ddod neu bethau annisgwyl.

8.26.3 Cronfeydd Annefnyddiadwy

Bydd y cronfeydd ariannol canlynol yn cael eu cynnal:

- Cronfa Ailbrisio – i gofnodi unrhyw gynnydd clir wrth ailbrisio asedau sefydlog ar ôl 1af Ebrill 2007.
- Cyfrif Addasu Cyfalaf – i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a'r cyfalaf a neilltuwyd i dalu amdanynt.
- Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol – i adlewyrchu'r disgowntio ac addasiadau eraill a gymhwyswyd i offerynnau ariannol i gyrraedd y gost wedi'i hamorteiddio sydd ar y Fantolen.
- Cronfa Gylchred Bywyd PFI – i adlewyrchu amcangyfrif o'r symiau i'w talu i'r contractwr PFI am gadw'r ased mewn cyflwr "newydd" ac i gael ei gyfateb gyda rhagdaliad ar y Fantolen. Bydd y ddau gyfrif i gael lleihau ar sail gwybodaeth a ddaw oddi wrth y contractwr am y gwariant cylchred bywyd yn y flwyddyn.
- Cronfa Bensiynau – i adlewyrchu sefyllfa Cronfa'r Cynllun.
- Cyfrif Absenoldebau Cronedig – i adlewyrchu cost hawl i absenoldeb taladwy ond na chymrwyd fel y mae pethau ar 31ain Mawrth.
- Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig – i adlewyrchu derbynion gwerthiant o ran asedau a werthwyd ar sail ohiriedig.

8.26.4 Hysbysu

Bydd gweddillion cronfeydd defnyddiadwy'n ffurfio rhan o Gronfa'r Cyngor. Bydd arian sy'n cael ei neilltuo i ac o gronfeydd yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd gan nodi cronfeydd defnyddiadwy a gymeradwywyd gan y Cyngor at ddibenion cyllid a chyfalaf, cronfeydd yn nwylo ysgolion a chronfeydd annefnyddiadwy ar wahân.

8.27 DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau eu gwneud pan fu digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol ar yr Awdurdod sy'n gofyn setliad yn ôl pob tebyg trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu obeithion gwasanaeth, a bod modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul ar linell y gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a'u mesur fel yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried peryglon ac ansicrwydd perthnasol.

Pan gaiff taliadau eu gwneud maes o law, cânt eu codi ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario ar y Fantolen. Caiff amcangyfrif o setliadau eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – pan fydd yn llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd bellach (neu wneud setliad is nag a ragwelwyd), caiff y ddarpariaeth ei gwrth-droi a chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol. Pan fo disgwyl adennill rhan neu'r cyfan o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth oddi ar rywun arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), ni chaiff hwn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os nad yw fwy neu lai'n sicr y bydd ad-daliad yn dod os bydd yr Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

8.27.1 Cynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru a'r Cynllun Lleihau Carbon

Bydd darpariaeth ar gyfer unrhyw gosbau / rhwymedigaethau sy'n daladwy dan y Cynlluniau neu, pan fo'r Cyngor yn ystyried ei bod yn annhebygol y bydd y gosb yn cael ei gorfodi, bydd yn datgelu dosbarth ar wahân o rwymedigaeth amodol. Bydd unrhyw daliadau a wnaed o flaen llaw yn cael eu dangos fel asedau.

8.28 ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

8.28.1 Rhwymedigaethau Amodol

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi pan fu digwyddiad sy'n rhoi posibilrwydd rhwymedigaeth ar yr Awdurdod y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau'n unig os bydd digwyddiadau ansicr y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod yn digwydd neu beidio. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd dan amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen defnyddio adnoddau neu nad oes modd mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon.

8.28.2 Asedau Amodol

Mae ased amodol yn codi pan fu digwyddiad sy'n rhoi posibilrwydd ased i'r Awdurdod y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau'n unig os bydd digwyddiadau ansicr y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod yn digwydd neu beidio. Ni chaiff asedau amodol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon pan fo'n debygol y daw buddiannau economaidd neu bosibilrwydd gwasanaeth i'r Awdurdod.

8.29 TAW

Bydd trafodion yn cael eu dangos heb gynnwys TAW i'r graddau y mae'n adenilladwy / daladwy.

8.30 CRONFEYDD YMDDIRIED A CHYFRIFON ERAILL

Bydd cyfrifon ar wahân yn cael eu cadw ar gyfer Ymddiriedau a chyllid arall sy'n cael ei weinyddu gan y Cyngor. Fodd bynnag, pan fo gan yr Awdurdod reolaeth lawn fel yr unig Ymddiriedolwr byddai cyfrifon grŵp yn ofynnol ond, os nad yw'r trafodion / gweddillion yn unigol berthnasol, byddant yn cael eu cyfuno o fewn Datganiadau Ariannol endid unigol y Cyngor (er enghraifft Pwll Dinbych-y-pysgod).

8.31 IFRS 15 REFENIW O GONTRACT

Mae'n berthnasol o 1 Ebrill 2018, gan amnewid IAS 18 ac IAS11 Chontractau Adeiladu Refeniw. Mae IFRS 15 yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cydnabod refeniw ac yn newid y sail ar gyfer penderfynu a yw refeniw yn cael ei gydnabod ar adeg benodol neu dros gyfnod o amser. Mae IFRS 15 wedi cyflwyno 5 cam ar gyfer cydnabod refeniw, ond gan fod gan y Cyngor ffrydiau incwm cymharol ragweladwy ystyrir yr effaith yn amherthnasol.

9.0 NODIADAU AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

9.1 NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Gwir Wariant 2018-19	Addasiadau at Ddibenion Cyfalafol £'000	Newid Clir ar yr Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaeth au Statudol Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Gwahaniaeth au Anstatudol Eraill £'000	Cyfanswm yr Addasiadau £'000
Gwasanaethau Addysg	5,759	2,578	(812)	**7,525**	(2,141)	**5,384**
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant	56	998	(84)	**970**	(71)	**899**
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion	518	1,409	-	**1,927**	171	**2,098**
Gwasanaethau Tai	207	183	-	**390**	(53)	**337**
Tai'r Cyngor	11,484	552	(5,068)	**6,968**	(5,756)	**1,212**
Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	4,983	1,589	(286)	**6,286**	(128)	**6,158**
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig	2,208	783	(14)	**2,977**	(190)	**2,787**
Gwasanaethau Cynllunio	91	588	-	**679**	(53)	**626**
Gwasanaethau Amgylcheddol	1,666	825	-	**2,491**	(918)	**1,573**
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill	1,114	10,429	125	**11,668**	1,005	**12,673**
Gwasanaethau Llys	-	8	-	**8**	-	**8**
Cynllun Tai Fforddiadwy*	-	-		**-**	(908)	**(908)**
Cyfraniadau I'r Gymuned*	-	-	-	**-**	(781)	**(781)**
Costau Clir Gwasanaethau (gan gynnwys HRA) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol	**28,086**	**19,942**	**(6,139)**	**41,889**	**(9,823)**	**32,066**
Gwariant Gweithredu Arall	(56)	-	-	**(56)**	14,524	**14,468**
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	(61)	3,354	1,032	**4,325**	31	**4,356**
Trethdalwyr incwm a gwariant grant penodol*	(26,020)	-	-	**(26,020)**	(14,524)	**(40,544)**
Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth Ddarparu Gwasanaethau	**1,949**	**23,296**	**(5,107)**	**20,138**	**(9,792)**	**10,346**

* Dangosir y Dreth Gyngor Ail Gartrefi ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi'i gyfuno yn y Tablau Datganiad Cyfrifon

Gwir Wariant 2017-18	Addasiadau at Ddibenion Cyfalafol £'000	Newid Clir ar yr Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaeth au Statudol Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Gwahaniaeth au Anstatudol Eraill £'000	Cyfanswm yr Addasiadau £'000
Gwasanaethau Addysg	5,477	3,741	(812)	**8,406**	(1,035)	**7,371**
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant	167	1,094	(84)	**1,177**	(27)	**1,150**
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion	446	1,522	-	**1,968**	(389)	**1,579**
Gwasanaethau Tai	556	200	-	**756**	(163)	**593**
Tai'r Cyngor	11,705	600	(5,583)	**6,722**	(5,433)	**1,289**
Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	4,581	1,741	(186)	**6,136**	(899)	**5,237**
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig	2,040	850	(14)	**2,876**	(466)	**2,410**
Gwasanaethau Cynllunio	3,542	644	-	**4,186**	(43)	**4,143**
Gwasanaethau Amgylcheddol	1,474	900	-	**2,374**	(1,066)	**1,308**
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill	1,213	846	142	**2,201**	(2,440)	**(239)**
Gwasanaethau Llys	-	8	-	**8**	-	**8**
Treth Gyngor Ail Gartrefi (Cymuned)	-	-		**-**	871	**871**
Cynllun Tai Fforddiadwy*	-	-		**-**	(871)	**(871)**
Cyfraniadau I'r Gymuned*	-	-	-	**-**	(871)	**(871)**
Costau Clir Gwasanaethau (gan gynnwys HRA) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol	**31,201**	**12,146**	**(6,537)**	**36,810**	**(12,832)**	**23,978**
Gwariant Gweithredu Arall	(590)	-	-	**(590)**	13,687	**13,097**
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	(3)	3,703	2,403	**6,103**	(149)	**5,954**
Trethdalwyr incwm a gwariant grant penodol*	(24,446)	-	-	**(24,446)**	(13,687)	**(38,133)**
Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth Ddarparu Gwasanaethau	**6,162**	**15,849**	**(4,134)**	**17,877**	**(12,981)**	**4,896**

* Dangosir y Dreth Gyngor Ail Gartrefi ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi'i gyfuno yn y Tablau Datganiad Cyfrifon

Addasiadau at Ddibenion Cyfalafol

Addasiadau at ddibenion cyfalafol – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac adbrisio yn y llinell wasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – sy'n addasu am warediadau cyfalafol gyda throsglwyddiad o incwm wrth gael gwared ar asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – y taliadau statudol am godi cyfalaf h.y. caiff lsafswm Darpariaeth Refeniw a chyfraniadau cyllidol eraill eu didynnu o incwm a gwariant arall am nad yw'r rhain yn daladwy dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol.
- Incwm a gwariant trethiant a grantiau amhenodol – caiff grantiau cyfalaf eu haddasu am incwm nad yw'n daladwy dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol. Caiff grantiau cyllid eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai hynny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu y bodlonwyd eu hamodau drwy gydol y flwyddyn. Caiff y llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grantiau Amhenodol ei chredydu gyda grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu y bodlonwyd eu hamodau yn y flwyddyn.

9.1.1 Newid Clir ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau

Newid clir ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm cysylltiedig â phensiynau Buddiannau Cyflogeion IAS 19:

- O ran gwasanaethau mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y caniatawyd trwy statud a disodli hynny gan gostau cyfredol gwasanaethau a chostau gwasanaethu'r gorffennol.
- O ran incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – caiff y llog clir ar y rhwymedigaeth budd-dal diffiniedig ei godi ar y CIES.

9.1.2 Gwahaniaethau Statudol Eraill

Gwahaniaethau statudol eraill rhwng symiau a ddebydwyd / a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau sy'n daladwy / sy'n dderbyniadwy i'w cydnabod trwy statud:

- O ran incwm a gwariant cyllido a buddsoddi mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol am y gwahaniaethau amseriad rhwng premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r taliad dan incwm a gwariant trethiant a grantiau amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n daladwy dan reoliadau statudol am dreth y cyngor a NDR a ragamcanwyd a fyddai'n cael ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm cydnabyddedig dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol yn y Cod. Gwahaniaeth amseriad yw hwn oherwydd y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen yng Ngwargedion neu Diffygion y dyfodol ar y Gronfa Gasglu.

9.1.3 Gwahaniaethau Anstatudol Eraill

Mae addasiadau anstatudol eraill yn cynrychioli symiau a ddyrannwyd / credydwyd i segmentau gwasanaeth y mae angen eu haddasu yn erbyn y 'Incwm a gwariant arall o'r llinell Gwariant a Dadansoddiad Cyllido' i gydymffurfio â'r gofynion cyflwyno yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ee trafodion wrth gefn:

- Ar gyfer cyllido a buddsoddi incwm a gwariant, mae'r golofn addasiadau anstatudol arall yn cydnabod addasiadau i segmentau gwasanaeth ee ar gyfer incwm a gwariant llog.
- Ar gyfer incwm a gwariant trethiant ac an-benodol, mae'r golofn addasiadau anstatudol arall yn cydnabod addasiadau i segmentau gwasanaeth ee ar gyfer grantiau llywodraeth heb eu ffonio.

9.2 SYMIAU A HYSBYSWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU

Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei baratoi trwy ddefnyddio'r polisïau cyfrifyddu sy'n cael eu hamlinellu yn nodyn 8.0 i ateb gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

Caiff penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau eu gwneud gan y Cyngor ar sail adroddiadau ar y gyllideb a baratowyd ar wahanol sail trwy ddefnyddio'r grwpiau gwasanaethau sy'n cael eu manylu yn y Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau. Yn arbennig:

Ni chaiff dim ei godi mewn cysylltiad â gwariant cyfalaf (tra caiff colledion dibrisio, ailbrisio ac amhariad uwchlaw'r gweddill ar y Gronfa Ailbrisio ac amorteiddiadau eu codi ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).
Seiliwyd cost budd-daliadau ymddeol ar lifau arian (talu cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr) yn hytrach na chost gyfredol budd-daliadau a gronnwyd yn y flwyddyn i wasanaethau.

Caiff neilltuadau arian i gronfeydd a glustnodwyd y mae modd eu priodoli i wasanaeth arbennig eu hysbysu ar lefel gwasanaeth.

9.3 DADANSODDIAD O WARIANT AC INCWM YN ÔL EI NATUR

Gwariant / Incwm	2017-18 £'000	2018-19 £'000
Gwariant		
Costau Cyflogeion	156,199	165,586
Costau Gweithredu Eraill	177,760	184,677
Gwasanaethau Cefnogi	-	-
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad	31,198	28,011
Llog a Dalwyd	14,804	14,290
Archebiannau ac Ardollau	20,909	21,856
Ennill neu golled wrth gael gwared ar asedau	(590)	(56)
Gwariant Llawn	**400,280**	**414,364**
Incwm		
Rhenti, ffioedd a thaliadau ac ati	(60,630)	(60,423)
Llog ac incwm o fuddsoddiad	(313)	(325)
Incwm o dreth y cyngor	(63,415)	(70,691)
Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth	(271,026)	(272,579)
Cyfanswm Incwm	**(395,384)**	**(404,018)**
Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	**4,896**	**10,346**

*ailddatgan gweler tabl 11.2.3 Addasiadau Blwyddyn Blaenorol

10.0 NODIADAU AR Y DATAGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

10.1 INCWM O DRETHIANT A GRANTIAU AMHENODOL

10.1.1 Grant Cynnal Cyllid a Grant Arbennig

Y swm yn yr adroddiad yw'r hyn a hysbysir gan Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol dan sylw.

10.1.2 Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Pennwyd y dreth fusnes unedig ar gyfer 2018-19 gan Lywodraeth Cymru ar 51.4c yn y £1 gyda gwerth ardrethol cyfartalog o £130,434,804 o'i gymharu â 49.9c gyda gwerth ardrethol cyfartalog o £129,170,064 yn 201,76-1,87. Gwnaeth y Cyngor gyfraniad net i'r gronfa NNDR o £12.646m yn 2018-19 a £8.051m 2017-18.

Band D Treth y Cyngor	2017-18	2018-19
Cyngor Sir Penfro	£883.15	£993.54
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	£213.87	£224.56
Cyngor Tref a Chymuned ar Gyfartaledd	£30.88	£34.31
Sylfaen Drethu Niferoedd Cywerth Band D		
Taladwy	56,884.37	57,074.89
Casgladwy	55,919.65	56,103.15

* Ffigwr casglu cyfan sy'n cynnwys sylfaen treth gosod cyllideb 54,114.58 ynghyd ag ail gartrefi 1,988.59.

10.1.3 Treth y Cyngor

Pennodd y Cyngor Sir y Dreth Gyngor ganlynol ar gyfer y Cyngor Sir a hefyd ar ran Awdurdod Heddlu Dyfed Powys a Chynghorau Tref a Chymuned.

Band Treth	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Cywerth Band D Eiddo Taladwy	3,550	6,431	10,987	10,257	13,815	7,976	3,254	594	211

Seiliwyd biliau Treth y Cyngor ar niferoedd a lluosyddion y bandiau eiddo canlynol:

Roedd y symiau canlynol yn ddyledus gan drethdalwyr y cyngor ar gyfer gwariant y Sir, yr Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned:

Incwn Treth y Cyngor	2017-18 £000	2018-19 £000
Treth y Cyngor dyledus yn y flwyddyn	(61,038)	(68,565)
Treth y Cyngor Dibynadwy ym Mlwyddyn - Ail Premiwm Cartref	-	(2,243)
Llai lwfans diffyg casglu	(134)	237
Swm dyledus gan drethdalwyr cyn ad-daliadau	**(63,415)**	**(70,691)**
Neilltuwyd i:	-	-
Archebiant Heddlu Dyfed Powys	(11,960)	(12,599)
Cyngor Sir Penfro	(49,728)	(56,167)
Archebiannau Cynghorau Tref a Chymuned	(1,727)	(1,925)
Cyfanswm	**(63,415)**	**(70,691)**

10.1.4 Derbyniadau – Grantiau Amhenodol a Chyfraniadau Eraill y Llywodraeth

Yr incwm a chyfraniadau grantiau a hysbyswyd yw'r rhai a hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyllido eraill.

	2017-18 £000	2018-19 £000
Credydwyd i Wasanaethau		
Taliadau Cymhorthdal DWP a Grantiau Eraill DWP*	(33,696)	(33,318)
Grant Darpariaeth ôl-16	(4,184)	(3,628)
Grant Amddifadedd Disgyblion	(2,975)	(3,027)
Grant Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf**	(3,908)	(3,838)
Grant Gwella Addysg	(5,128)	(4,882)
Grant Cefnogi Pobl	(2,720)	(2,714)
Grant Datblygu Amgylcheddol a Chynaliadwy***	(2,716)	(959)
Asiantaeth Cefnffyrdd	(5,006)	(2,674)
Grantiau'r Gymuned Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Lleol	(1,234)	(1,681)
Intermediate Care Fund	(947)	(946)
Substance Misuse Action Fund	(846)	(925)
Contribution from Health Board	(7,612)	(8,370)
Refunded Direct Payments	(172)	(796)
Contributions from PTA / Parents	(480)	(783)
Contributions from ERW and Welsh Government	(514)	(743)
Contributions to Transport	(755)	(639)
Concessionary Fares	(1,284)	(1,383)
WG Transitional Education Grant	(295)	(591)
Grantiau Eraill a Gredydwyd i Wasanaethau	(15,332)	(12,888)
Cyfanswm Grantiau Cyllid a Gredydwyd i Wasanaethau	**(89,804)**	**(84,785)**

*Ffigurau wedi'u hailddatgan i symud 2017-18 Cyfraniad Cymorth Canser McMillan o Grantiau Eraill DWP i Grantiau Eraill a Gredydwyd i Wasanaethau

**Grant Gwella Addysg a enwyd yn flaenorol.

***Grant Datblygu Amgylcheddol a Chynaliadwy a enwyd yn flaenorol. Nawr yn cynnwys dau grant ar wahân

Rhoddwyd cyfrif am y grantiau a chyfraniadau cyllid uchod fel a ganlyn yn ystod y flwyddyn:

	2017-18 £000	2018-19 £000
Grantiau a Chyfraniadau a Dderbyniwyd	(90,574)	(85,928)
Grantiau a ddaliwyd o flaen llaw lle na chyflawnwyd amodau	770	1,143
Grantiau a Chyfraniadau a Gredydwyd fel Incwm yn y Flwyddyn	**(89,804)**	**(84,785)**

10.1.5 Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf

Cydnabu'r Awdurdod y grantiau a chyfraniadau cyfalaf canlynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2017-18 £000	2018-19 £000
Credydwyd i Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	(827)	(3,002)
Ysgolion yr 21ain Ganrif	(10,432)	(10,815)
Cydgyfeiriant	(97)	(62)
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	(3,986)	(3,995)
Llywodraeth Cymru - Cludiant (Cronfa Cludiant Lleol, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Diogelwch ar Ffyrdd Lleol, Bulford Road a Llwybr Strategol y De)	(4,730)	(2,258)
Llywodraeth Cymru - Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol	(384)	(141)
Grantiau Eraill	(3,698)	(5,754)
Cyfraniadau Datblygwyr	(292)	7
	(24,446)	**(26,020)**
Cymhwyswyd i Gyllido Gwariant Cyfalaf	(24,446)	(26,020)
Trosglwyddwyd i Gronfa Grant Cyfalaf heb ei Gymhwyso	-	-
	(24,446)	**(26,020)**

10.2 ARCHEBIANNAU AC ARDOLLAU

	2017-18 £000	2018-19 £000
Archebiannau		
Heddlu Dyfed Powys	11,960	12,599
Cynghorau Tref a Chymuned	1,727	1,925
Ardollau		
Tân ac Achub Gorllewin Cymru	6,237	6,399
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	985	933
Cyfansymiau	**20,909**	**21,856**

10.3 CYFRIFON MEMORANDWM

10.3.1 Gwasanaethau Masnachu Allanol

Yn unol â'r Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau (SeRCOP), mae'r Cyngor wedi nodi'r gwasanaethau canlynol fel gweithgareddau masnachu a chânt eu hysbysu o ganlyniad at ddibenion cyfrif terfynol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nodwyd y mathau canlynol o wasanaeth masnachu:

- Gwasanaethau i'r cyhoedd sydd o natur fasnachol
- Gofyniad cyfreithiol i gadw cyfrif masnachu (rheoli adeiladu'n ennill ffi)
- Gofyniad dan safonau cyfrifyddu i gyflwyno adroddiad ar wahân (eiddo buddsoddi)
- Gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ysgolion dan Gytundebau Lefel Gwasanaethu mewn amgylchedd cystadleuol – rhyddid i ysgolion brynu gwasanaethau gan ddarparwyr allanol eraill ac sydd wedi "contractio" gydag adrannau priodol o'r Cyngor i gyflenwi'r gwasanaethau gofynnol.

Caiff trafodion y cyfrif masnachu eu crynhoi yn y tabl canlynol lle mae deunydd. Caiff y (gwarged) / diffyg masnachu, sy'n ffurfio rhan o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor, ei addasu o'r sail gyfrifyddu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd fel yr hysbyswyd uchod, i gyrraedd y sail ariannol at ddibenion pennu treth.

Gwasanaethau Masnachu Allanol	2017-18	2018-19		
	Gwariant Net £000	Trosiant £000	Gwariant £000	Gwariant Net £000
Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant				
Pont Cleddau *	(1,308)	(3,130)	1,749	(1,381)
Meysydd Parcio (heblaw CPE)**	(35)	(1,725)	1,453	(272)
Gorfodi Rheolau Parcio Sifil	(61)	(448)	438	(10)
Chynllunio				
Amlosgfa Gorllewin Cymru	(308)	(999)	928	(72)
Marchnadoedd	270	(66)	118	52
Stadau Diwydiannol ***	12	(935)	712	(223)
Hyfforddiant**/*****	8	(852)	1,004	152
Rheoliadau Adeiladu Taladwy	84	(369)	403	34

* Y Cyngor yw perchennog Pont Cleddau (PC), gan gynnwys Pont Westfield Pill, a chaiff ei rheoleiddio dan Ddeddf Dyfed 1987 (DD) sydd ag amrywiaeth o ofynion statudol ar gyfer pennu tollau'r bont, defnyddio derbyniadau (gwariant a ganiateir), defnyddio llog ar ddiffygion a rheoli cronfa wrth gefn.

Cafodd y tollau ar Bont Cleddau eu dadgomisiynu ar 28 Mawrth 2019. Dychwelwyd llyfrau rhagdaledig a rhoddwyd ad-daliadau.

Y cofnodion a datgeliadau cyfrifyddu statudol yn y Datganiad Cyfrifon (SoA) ar gyfer 2018-19 yw'r ased sefydlog (£19.1m), un benthyciad allanol (£1.7m), cronfa a glustnodwyd (£1.7m) a gwarged masnachol (£1.9m), ar ôl cymhwyso costau tybiannol ar gyfer dibrisiant, pensiynau IAS, cyfradd log effeithiol benthyciadau meddal, cymhwyso MRP a neilltuad arian o adnoddau wrth gefn. I gydymffurfio â gofynion statudol y Ddeddf Dyfed, nid yw'r gwargedion masnachol blynyddol a gyllidebwyd yn cael eu trosglwyddo i gronfa Pont Cleddau a glustnodwyd, ond cyfrif amdanynt yng Nghronfa Gyffredinol y Cyngor a'u defnyddio i gynnal ei gyllideb Priffyrdd a Chludiant. Caiff unrhyw wargedion ar ben y rhai a gyllidebwyd eu trosglwyddo i gronfa Pont Cleddau a glustnodwyd.

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y dylai tollau Pont Cleddau ddod i ben ar 1 Ebrill 2019 (daethant i ben mewn gwirionedd ar 28 Mawrth 2019) mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig grant iawndal o £60m (heb fod yn gysylltiedig â'r mynegai) sy'n daladwy dros 20 mlynedd. Yn ogystal, maent wedi cynnig taliad unwaith ac am byth i dalu am ad-drefnu'r briffordd ac unrhyw gostau staffio yr aethpwyd iddynt mewn perthynas â diddymu tollau. Ni fydd Pont Cleddau bellach yn cael ei hystyried yn wasanaeth masnachu o 1 Ebrill 2019.

** Mae colled ailbrisio yn 2018-19 yn cyfrif am y symudiad net yn Amlosgfa Gorllewin Cymru
*** Mae colled ailbrisio ac amhariad yn 2017-18 yn cyfrif am y symudiad ym Marchnadoedd ac Ystadau Diwydiannol 2018-19

10.4 GWARIANT CYLLIDOL A GYLLIDWYD O GYFALAF TRWY STATUD

Caiff taliadau o natur gyfalafol lle na chrëwyd unrhyw ased sefydlog eu dileu o'r cyfrifon yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	2017-18 £000	2018-19 £000
Gwariant yn y Flwyddyn	2,477	3,366
Grant a Chyfraniadau a Dderbyniwyd yn y Flwyddyn	(2,477)	(3,355)
Gwariant Cyllidol Clir a Gyllidwyd o Gyfalaf Trwy Statud	**-**	**11**

10.5 COSTAU PENSIWN

Mae'r Awdurdod yn cyfranogi mewn dau gynllun pensiwn:

10.5.1 Cynllun Pensiynau Dyfed.

Gweinyddir gan Gyngor Sir Gâr, fel cynllun buddiant diffiniedig gyda chronfa y mae cyflogeion, aelodau a'r Awdurdod fel cyflogwyr yn talu cyfraniadau iddo. Mae'r cynllun yn gweithredu dan y ddeddfwriaeth berthnasol i Bensiynau Llywodraeth Leol.

Cyfrifwyd cyfradd gyfansawdd cyfraniad y cyflogwr a ddefnyddiwyd yn 2018-19 gan actiwari'r Gronfa ar sail y prisiad fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2016 ar gyfer holl gyflogeion y Cyngor Sir sy'n aelodau o'r cynllun.
Prisiwyd y Gronfa fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2016 a chaiff canlyniadau'r prisiad hwn eu hadlewyrchu yng Nghyfrifon 2018-19.

Caiff y datgeliadau isod, sy'n ofynnol yn ôl Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19) ac sy'n defnyddio tybiaethau ychydig yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd ym mhrisiad yr actiwari, eu cynhyrchu hefyd gan Actiwari'r Gronfa ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Mae IAS 19 yn gofyn prisio'r rhan fwyaf o asedau ar "werthoedd sylweddoladwy" h.y.: gwerthoedd cynnig, yn hytrach na "gwerthoedd teg" (i bob diben, gwerthoedd canolog y farchnad).

Trafodion Cyllidol

Cofnodion y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd yn y Gwariant Gweithredu Clir	**2017-18**		**2018-19**	
	£000	**£000**	**£000**	**£000**
Llog ar Rwymedigaethau Pensiynau	17,231		17,853	
Llog ar Asedau'r Cynllun	(13,528)		(14,499)	
		3,703		**3,354**
Costau Gweinyddol		405		424
Gwasanaeth yn y Gorffennol (Cynnydd) / Cost *		37		10,103
Cwtogiad (Cynnydd) / Colled		355		467
Setliad (Cynnydd) / Colled		-		-
Cost Gwasanaeth Presennol		23,143		22,521
		27,643		**36,869**
Cofnodion Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor				
Gwrthdroi Cofnodion IAS 19 Uchod:		(27,643)		(36,869)
Gwir Daliadau a Wnaed yn y Flwyddyn				
Gwir Swm a Godwyd am y Cyfnod	11,110		12,374	
Cost Ychwanegiadau a Godwyd yn y Flwyddyn	794		797	
		11,904		13,171
		(15,739)		**(23,698)**
Cyfraniadau Cyflogeion		5.5%-12.5%		5.5%-12.5%
Cyfraniadau'r Cyflogwyr		15.8%		16.9%
* mae'n cynnwys (enillion) / costau oherwydd newid ym muddiannau'r cynllun				

Asedau a Rhwymedigaethau Cynllun Pensiynau Dyfed Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

	Cyfanswm Rhwymedigaethau 2017-18 £000	Rhwymedigaethau a Gyllidir 2018-19 £000	Rhwymedigaethau nas Cyllidir 2018-19 £000	Cyfanswm Rhwymedigaethau 2018-19 £000
Rhwymedigaeth ar 1 Ebrill	**702,626**	687,258	13,460	**700,718**
Symudiadau yn y Flwyddyn:				
Cost Gwasanaeth Presennol	**23,143**	22,521	-	**22,521**
Llog ar Rwymedigaethau Pensiynau	**17,231**	17,514	339	**17,853**
Cyfraniadau Aelodau	**4,231**	4,388	-	**4,388**
Gwasanaeth yn y Gorffennol (Cynnydd) / Cost	**37**	10,103	-	**10,103**
Ailfesuriadau (rhwymedigaethau) *yn cynnwys* :				
Profiad (cynnydd) / colled	-	-	-	-
(Cynnydd) / Colled ar dybiaethau ariannol	**(28,191)**	39,460	450	**39,910**
(Cynnydd) / Colled ar dybiaethau demograffig	-	-	-	-
Cwtogiadau	**355**	467	-	**467**
Setliadau	-	-	-	-
Buddiannau / Trosglwyddiadau a Dalwyd	**(18,715)**	(18,239)	(797)	**(19,036)**
Rhwymedigaeth ar 31 Mawrth	**700,717**	**763,472**	**13,452**	**776,924**

Cysoni Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

	2017-18 £000	2018-19 £000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill	547,228	563,920
Symudiadau yn y Flwyddyn:	-	-
Llog ar Asedau'r Cynllun	13,528	14,499
Ailfesuriadau (asedau)	6,149	22,452
Costau Gweinyddol	(405)	(424)
Setliadau	-	-
Cyfraniadau'r Cyflogwr	11,904	13,171
Cyfraniadau'r Aelodau	4,231	4,388
Buddiannau / Trosglwyddiadau a Dalwyd	(18,715)	(19,036)
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun ar 31 Mawrth	**563,920**	**598,970**

Asedau'r Gronfa Bensiynau wedi'u rhanu yn ôl category

	31 Mawrth 2018 £000	31 Mawrth 2019 £000
Ecwitïau	398,127	413,889
Llywodraeth	55,265	36,537
Bondiau Eraill	54,136	63,491
Eiddo	53,008	81,460
Arian Parod / Hylifedd	1,692	3,593
Asedau Cyfredol Clir	1,692	-
Cyfanswm	**563,920**	**598,970**

Nodiadau ar y tablau:
Anwybyddwyd trethiant gohiriedig.

Cynhwyswyd buddiannau Blynyddoedd Ychwanegol Digolledu, sy'n cael eu codi ar yr Awdurdod, yn y rhwymedigaethau a chyfraniadau at ddibenion y cyfrifiadau.

Ni chynhaliwyd ymchwiliad penodol mewn cysylltiad â chynnydd yn oed aelodau'r cynllun ar gyfartaledd, ond ni roddwyd unrhyw reswm dros awgrymu y bu unrhyw newidiadau sylweddol ers prisiad yr actiwari yn 2016.

Ni hysbyswyd unrhyw ddigwyddiadau arbennig i'r actiwari mewn cysylltiad â chynhyrchu'r ffigurau uchod.

Seiliwyd gwerth yr asedau a hysbyswyd ar sail cyfran o wir werth yr asedau, er mwyn gwahanu cyfran yr Awdurdod o un ERW.

Mae cost ychwanegol gwasanaeth blaenorol (£9.9m) wedi ei chynnwys yn y tablau oherwydd ganlyniad y ddafarniad McCloud, mae hyn wedi cynyddu'r rhwymedigaeth pensiwn gros.
Mae'r ffigwr a gyfrifwyd yn sensitif i broffil oedranol yr aelodaeth, mae amcangyfrif ledled y CPLIL wedi ei gymhwyso i ein rhwymedigaeth weithredol ac mae'n bosibl y gallai hyn newid

Tybiaethau Actiwaraidd

	Dechrau'r Flwyddyn %	Diwedd y Flwyddyn %
Tybiaethau Ariannol		
Cyfradd chwyddiant CPI	2.1	2.2
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.6	3.7
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.2	2.3
Cyfradd Ddisgowntio	2.6	2.4
Disgwyliad Einioes (Blynyddoedd)		
Pensiynwr y dyfodol 65 oed ymhen 20 mlynedd	25.1	25.2
Pensiynwraig y dyfodol 65 oed ymhen 20 mlynedd	27.9	28.1
Pensiynwr presennol 65 oed	22.9	23.0
Pensiynwraig bresennol 65 oed	25.6	25.7

Nodiadau ar y Tybiaethau Actiwaraidd

- Cyfrifwyd ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer gwerth yr asedau ar y farchnad a rhaniad yr asedau rhwng categorïau buddsoddi fel yr oedd pethau ar 31 Rhagfyr 2018. Cyfrifwyd rhaniad cyfatebol yr asedau ar ddechrau'r flwyddyn fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2018.
- Seiliwyd y tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo rhwymedigaethau Mantolen diwedd y flwyddyn ar dybiaethau prisio actiwaraidd 2016, heblaw'r tybiaethau ariannol, sy'n cael eu dangos uchod.
- Ni thynnwyd treuliau o'r elw disgwyliedig uchod. Caiff didyniad o £1,608k o ran treuliau ei wneud wrth gyfrifo'r elw disgwyliedig am y flwyddyn.
- Seiliwyd y ffigur a ddefnyddiwyd ar gyfer y gyfradd ddisgowntio ar elw o ryw 2.5% ar fondiau corfforaethol.
- Mae amcangyfrif y rhwymedigaethau budd diffiniedig yn ymatebol i dybiaethau actiwaraidd o'r gyfradd ddisgowntio, chwyddiant, twf cyflogau a disgwyliad einioes. Gallai newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newidiadau sylweddol yn y rhwymedigaeth.
- Cyfraniadau cyflogwr amcangyfrifedig 2019-20 yw £12,706k yr Adroddiad Mercer.

Effaith Gwir Berfformiad I'r hyn a Dybiwyd gyda Threigl Amser

